Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

1121 e. 10

45

1121 10

"COFFADWRIEATH Y CYFIAWN,"

SEF

# COFIANT

Y DIWEDDAR

# PARCH. D. STEPHENSON,

O REHOBOTH, BRYNMAWR, A BEREA,
GER NANTYGLO.


GAN Y

PARCH. W. JENKINS, REHOBOTH,

A'R

PARCH. E. EVANS, NANTYGLO.


"Efe a wnelsai ddaioni yn Israel, tu ag at Dduw a'i dy."
2 Cron. 24. 10.


BRYNMAWR:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN D. STEPHENSON,

HEOL BEAUFORT.

1851.

ENTERED AT STATIONERS' HALL.

# RHAGDRAITH.

GYFEILLION HYNAWS,

Wele o'r diwedd y Cofiant hwn wedi ymddangos. Darfu i ryw amgylchiadau nad oedd dan ein llywodraethiad ni beri gohiriad mawr arno, yr hyn efallai sydd wedi peri oerfelgarwch yn ambell feddwl, y rhai, gobeithiwn a adgynhesant pan ei gwelont.

Heblaw a wyddem yn bersonol o'i hanes, llafuriasom lawer i chwilio am ffeithiau ag y gallem ymddibynu ar eu cywirdeb, a gwnaethom ein goreu i gael y rhai hyny o lygad y ffynon, fel na byddent wedi eu cyfnewid wrth fyned trwy amryw ddwylaw.

Nid ydym mor ffol a meddwl fod ein gwaith yn berffaith, ac nid ydym o'r tu arall mor wan a meddwl na all fod yn fuddiol i'r sawl a'i chwilio er adeiladaeth ac nid am wallau, a meddyliwn y gwel y darllenydd diduedd ryw gymaint o ddelw y Gwrthddrych yn y Cofiant.

Teimlwn yn ddiolchgar i'r cyfeillion a'n cynysgaethasant â hanesynau, yn neillduol i'r brodyr a anfonasant y llythyrau am dano.

Gobeithiwn y bydd y Cofiant nid yn unig yn dderbyniol ond hefyd yn llesol. Gwyddom fod o'i fewn lawer hanesyn ac y byddai o ddirfawr les i ni a'n brodyr eu cymeryd fel awgrym i'n dysgu pa wedd i ymddwyn, a chredwn fod ein brodyr a gawsant fwy o

fanteision dysg na ni nac yntau, yn ddigon call i gymeryd gwersi oddi wrtho, yn enwedig yn ei dduwioldeb, ei bwyll, ei ofal i beidio dirmygu neb, ei ragweliad rhag peryglu heddwch, ei ddyfais i gadw ei bobl mewn gwaith, a'i synwyr cyffredin.

Gan fod rhan fawr o'r Beibl wedi ei wneyd i fyny o Gofiantau, gallwn feddwl ei fod yn awgrym i ni ysgrifenu a darllen Cofiantau y rhai fuont yn gwneyd daioni yn Israel, yr hyn sydd yn tueddu i ddysgu i ni dduwinyddiaeth ymarferol trwy anghreifftiau, fel y tuedda Cyrph Duwinyddiaeth i ddysgu egwyddorion.

Gwyddom fod cannoedd o'i gyfeillion gyda chalonau pruddion, a meddyliau hiraethlon, yn awyddu am weled y gof-golofn hon am yr hwn y maent mewn galar ar ei ol, ac y darllenant y llyfr gyda budd a dyddordeb.

Gorfu arnom o eisiau lle adu allan lawer iawn o hanesynau difyrus am ei ddull yn casglu.

Dichon fod llawer o wallau y wasg wedi diangc ein sylw, ond hyderwn nad oes un gwall o bwys.

Gobeithiwn y gwna y darllenydd hynaws fyned heibio i bob anmherffeithrwydd a genfydd, ac y bydd darlleniad y llyfryn tan fendith Ior er lles tragywyddol iddo.

Gorphwyswn,

Yr eiddoch yn yr efengyl,

W. JENKINS.
E. EVANS.

Brynmawr,
Hyd. 8fed, 1851.

# COFIANT, &c.

## PENNOD I.

### *Ei Ddyddiau Boreuol*

Mae yn eithaf amlwg oddiwrth gylchdroadau olwynion rhagluniaeth, yn gystal ac wrth dystiolaeth y dwyfol ddatguddiad, fod holl ddygwyddiadau a gweithrediadau y bywyd dynol, o dan lywyddiad doeth a digyfeiliorn yr hwn sydd "yn gwneuthr â llu y nef ac â thrigolion y ddaear yn ol ei ewyllys a'i gynghor ei hun:" ac er yr holl annhrefn a wnaeth pechod yn mhlith y teulu dynol,—llygru cyneddfau, anmharu teimladau, halogi bucheddau, damnio eneidiau, chwalu dyn a dyn, creadur a chreawdwr oddiwrth eu gilydd, troi myrdd o olwynion yn eu gwrthol, gwneuthur maes brwydr o chwareufwrdd y greadigaeth, a pheri i holl amgylchiadau amser ymddangos fel rhyw dryblith cymysglyd ac annrhefnus; eto trwy lywyddiaeth ddoeth, alluog, a daionus y Duw sydd "yn eistedd rhwng y cerubiaid," mae ei holl weinyddiadau ei hun, ystrywiau pechod, cynddaredd, drygioni, gelyniaeth, a gormes dynion a chythreuliaid, yn gweithio tan ei oruwchreoliad; ïe, yn cyson a threfnus gydweithio er daioni bodau rhinweddol ei lywodraeth, dinystr cyfeillion gwallgofus pechod, ac yn benaf a blaenaf er gogoniant i'w orsedd dragywyddol ei hun. Ac nid yn unig y mae dygwyddiadau amser ac ymddygiadau dynion, tan reolaeth ei ragluniaeth, yn cydweithio er cyflawni bwriadau ac amcanion ei fawrhydi dwyfol; ond hefyd y mae adferiad eneidiau o afaelion eu halogedigaeth, a'u dychweliad i feddiant o fendithion Iachawdwriaeth, yn hollol yn ol ei ewyllys a'i gynghor doeth a thrugarog ei hun. "Y neb y myno y mae efe yn trugarhau

wrtho." Pryd bynag yr ewyllysia ddangos goludoedd ei ras mewn achub, neu ddyrchafu rhai o'i blant i ryw ffafrau mwy neillduol na chyffredin, gwna hyny yn y cyfryw fodd ag a brofa "nad o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr" y cymerodd hyny le, ond yn ol ei ewyllys a'i gynghor ei hun." Nid aml y cyfarfyddwn âg amlycach anghreifftiau o'r gwirionedd hwn nac yn amgylchiadau y diweddar Barchedig Dafydd Stephenson o Rehoboth, Nantyglo. Edrychwn arno yn ei enedigaeth, ei fagwraeth, ei ddychweliad, a'i fawr lwyddiant yn ngwinllan ei Arglwydd, a gorfodir ni i gredu neillduolrwydd gweinyddiadau trugaredd Ior tu ag ato yn ei holl yrfa ddaearol, hyd ei dderbyniad croesawgar i'r gogoniant addawedig i'r ffyddloniaid. Mae neillduolrwydd gweinyddiadau llywodraeth y Duw mawr yn rhedeg trwy holl oesau, cenhedlaethau, ac amgylchiadau y byd hwn, fel rhyw wythien euraidd yn nghanol sothach halogedig, didrefn, a diddefnydd y codwm; ac yr ydym yn cael lluoedd o fawrion daear yn gorfod addef mai gwir yw'r dystiolaeth, "nad eiddo gwr ei ffordd." Dengys rhagluniaeth a datguddiad mai Duw sydd yn llywodraethu yn mrenhiniaeth dynion: efe sydd yn gosod gweinidogion ar gynulleidfaoedd, yn gystal a gosod brenhinoedd ar orseddau, deddfwyr ar gadeiriau, a barnwyr ar feingciau: ac efe sydd yn tynu i lawr drachefn pryd y gwelo yn dda. Yr ydym yn gweled rhai yn cael eu rhyddhau o'u rhwymau, a'u dwyn allan o'u carcharau i deyrnasu, fel Joseph—tra mae ereill wedi e'u geni yn eu brenhiniaeth yn syrthio i dlodi, fel Conia (Jer. xxii, 24. 30.) Cafodd Dafydd ei godi o fod yn fugail defaid ei dad ar feusydd Bethlehem, i fod yn fugail pobl yr Arglwydd ar orsedd Israel, a'r Dafydd sydd yn wrthrych ein Cofiant, o fod yn blentyn tlawd, ymddifad, anenwog a diamddiffyn, i fod yn un o'r gweinidogion mwyaf llwyddianus yn ei oes, yn Nghymru, i ddychwelyd pechaduriaid at y Gwaredwr: ond cafodd Pharaoh gyndyn ei foddi yn nyfnder y don, a Nebucodonozor falch

ei yru i bori gwellt y ddaear fel anifail. Clywn drwst olwynion rhagluniaeth y dyddiau yma, yn peri i'r ddaear grynu, a theyrnasoedd siglo i'w sylfeini: diddyma fwriadau ystrywgar—chwala gynlluniau gormesol,—bwria goronau i'r llwch—drullia deyrnwiail—dadymchwela orseddau—a gyr frenhinoedd ar ffo, fel crwydriaid digartref: ond gofala am Seion trwy bob peth. Weithiau canfyddwn ambell blentyn gordderch, fel Jephtha, heb neb perthynasau yn gwilied trosto, na gofalu am dano; yn wrthrych casineb cyfneseifiaid, yn cael ei yru o dy ei dad, heb nemawr addysg, ac heb gael rhan yn ei etifeddiaeth; ond er hyny, a rhyw ofal neillduol gan "Dad yr ymddifaid" am dano, a'i law ragluniaethol yn ei arwain trwy ryw lwybrau hynodol, ac yn ei feithrin i ryw ddybenion penodol a neillduol, a chyn diwedd ei oes yn ei ddyrchafu i anrhydedd ac enwogrwydd anniflanédig. Tebyg i hyn y bu gyda gwrthrych ein Cofiant.

Mae ambell un arall, fel Rehoboam mab Solomon, yn cael ei eni yn freiniol; rhagluniaeth wedi ei gyfleu i afael y manteision gorau, yn derbyn yr addysg Athrofâol uchaf, tan olygiaeth y dynion doethaf, ac yn etifeddu y cyfoeth mwyaf: eto, er mawr syndod, yn ymlithro trwy ganol y cyfleusderau penaf, gan ddisgyn i'r beddrod heb ddim i'w olafiaid yn goffadwriaethol am dano, oddigerth dylanwad niweidiol cymeriad wedi ei warthnodi gan ffolineb a drygioni. Yn wyneb y naill ar llall, rhaid dywedyd, "O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw, mo'r anchwiliadwy yw ei farnau ef, a'i ffyrdd mo'r anolrheiniadwy ydynt!" neu ddyrchafu ein dwylaw uwch ben y mor mawr, a gwaeddi mewn dirfawr synedigaeth, "Fel mynyddoedd cedyrn yw dy gyfiawnder, dyfnder mawr yw dy farnedigaethau." Nid yw yn golled, ond yn fendith i'r byd, fod enwau gwrthrychau oedd a'u cymeriadau wedi eu pardduo gan bechod yn cael eu dileu oddiar lechres amser—melldith oeddent yn eu dydd, ac wedi eu meirw nid oeddent dda i ddim, ond i'w bwrw i gladdfa fawr

budreddi y bydoedd: ond y mae yn golled nid bychan i'r ddaear, fod ei phrif ragorolion yn cael disgyn i fro dystawrwydd heb un golofn goffadwriaethol yn cael ei chodi, er trosglwyddo i'r oesau dyfodol hysbysiaeth o loewder eu bucheddau, cysondeb eu bywydau, dysgleirdeb eu cymeriadau, a llwyddiant eu llafur; ac yn benaf, anfeidroldeb y gras a'u cododd a'u haddurnodd ac a'u harddelwodd; a byddai yn golled fawr i'r byd i adu cymeriad a hynodwyd mo'r rhyfeddol â'r eiddo STEPHENSON, Nantyglo, i ddisgyn yn ddisylw i blith y pethau ni chofir mwyach: am hyny, gwnaethom ymdrech i godi iddo golofn fechan, yn mlith y colofnau lliosog a theilwng sydd eisoes wedi eu codi ar feysydd llëenyddiaeth Gymreig. Nid ydym heb deimlo peth anhawsdra i wneuthur hyny mewn modd teilwng a boddhaol, oblegyd mai ychydig sydd genym o'i hanes yn ei ddyddiau boreuaf, a'i gychwyniad cyntaf allan ar ei yrfa grefyddol: eto casglasom gymaint ag a deifl ryw arogl bywiol ar ei nodweddiad fel dyn, fel cristion, ac fel gweinidog; ac a arddengys ryfeddol ofal Duw am y rhai nad oes neb perthynasau yn prisio, nac yn gofalu ond ychydig am danynt. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1784. Plentyn o ordderch ydoedd. Un Mr. S., cyfreithiwr, o dref Caerfyrddin, oedd ei dad, a dynes ieuangc o ardal Llandilo fawr oedd ei fam. Yr oedd ei dad yn ddyn ieuangc yn cadw ty a swyddfa yn Ngaerfyrddin, a'i fam yn forwyn i gadw'r ty gydag ef. Pan ei ganed, rhoddwyd ef yn ngofal dyeithriaid, a phriododd ei fam yn dra buan â morwr, ac aeth gydag ef i'r India a bu farw yno. Tebygol iddo o naturiaeth ddysgu galw "datta" a "mami," fel pob plentyn arall, er ei fod yn ymddifad o ymgeledd dyner mam, ac o hynawsedd tad tirion. Gwir fod ganddo fam; ond yr oedd amgylchiadau wedi ysgaru hono oddiwrtho, i bellder gormodol i allu, (pe o'r duedd honno) gwilied trosto, gofalu am dano, ei addysgu, na'i ddyddanu. Ac am ei dad; nid oedd hwnw yn meddu rhyw lawer o serch ato, nac yn teimlo rhyw ofal neill-

duol am dano, yn mhellach na thalu yn rhesymol am ei fagu: o gaulyniad yr oedd wedi ei adu, o ran ei rieni, yn hollol i drugaredd y tonau; heb ofal am ei ddysg, ei foesau, na threfniad ei gymeriad. ond gofalodd yr Arglwydd yn dirion am dano, cafodd ei goelbren ddisgyn i deulu oedd yn ofni ac yn gwasanaethu Duw, y rhai a gymerasant ofal am ei foesau, ac a'i hyfforddasant yn mhethau mawrion crefydd. Dygwyd ef i tyny yn nhy un John Evans, yr hwn a adwaenid wrth yr enw, Shion Pencelli; yr hwn oedd yn aelod crefyddol gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nghlos-y-graig. swydd Gaerfyrddin. Yr ydym yn hollol anadnabyddus ô'r amgylchiadau a'i harweiniodd i'r teulu hwnw: ond yr ydym yn cael, hyd eithaf ein gwybodaeth, nad oedd un rhyw berthynas naturiol rhyngddynt á'i dad, nac ychwaith â'i fam. Gofalodd y teulu caredig hwnw am roddi rhyw gymaint o ysgol wladaidd iddo yn ol dull cyffredin y wlad yn yr amser hwnw, lle y dysgodd ddarllen, ysgrifenu, a rhifyddegu; yr hyn oedd yr oll o addysg ysgolorol a gafodd; ond gwnaeth ddefnydd da o hyny. Y mae yn deilwng o sylw yn y fan hyn, nad oedd ei wybodaeth ysgoloraidd can lleied ag y meddyliai y rhan amlaf. Gwir na bu mewn na Choleg nac Athrofa; ac na chafodd o ysgol gyffredin ond ychydig, a hyny tra yr oedd yn blentyn; ond trwy yr ychydig hyny, cynyddodd fwy nac aml un a gafodd fanteision llawer amgenach. Yr oedd oddi ar deimlad o hunanymwadiad, ynghyd a'i ymwybyddiaeth nas gallasai ymgystadlu â rhai oedd wedi cael rhagorach manteision, yn cuddio'r wybodaeth a feddai heb ei dwyn i amlygrwydd, ond pan y byddai gwir angen am hyny. Pan fyddai yn nghyfeillach ei frodyr fyddent wedi cael dysgeidiaeth, neu ryw rhai fyddent yn berchen gwybodaeth uwchlaw y werin gyffredin, byddai yn dra gofalus i beidio dangos pa faint a wyddai, ac felly ymgadwai rhag bradychu ei hun mewn dim, yr hyn a barodd i lawer o honynt osod ei fesur yn mhell is law yr hyn ydoedd mewn gwirion-

edd; ond byddai ganddo ef, y rhan fynychaf, ddirnadaeth lled gywir am alluoedd, dysg, gwybodaeth, a gras pawb y caffai ryw faint o gyfeillach â hwynt. Ond i ddychwelyd at ei amser boreuol. Bu yn nhy Mr. John Evans tan oedd yn 16 oed, a chafodd ei ddwyn i fynu yn yr arferiad o wrando yr Efengyl a myned i'r Ysgol Sabbothol, yn nghyd a mwynhau breintiau crefydd deuluaidd—ac fel hyny meithrinwyd yn ei feddwl, pan yn ieuangc, barch i grefydd, yr hyn nis gwnelsid, wrth bob tebyg, pe buasai tan olygiaeth neillduol ei dad. Nid annhebyg fod ei dadmaeth yn ei hyfforddi yn mhethau Duw, gan ei addysgu a'i gynghori pa fodd i iawn ymddwyn tuag at ei greawdwr yn gystal a'i gydgreaduriaid. Dychymygwyf weled teulu Pencelli yn dyfod i mewn oddiwrth eu gorchwylion yn yr hwyr, ac yn cydeistedd oddiamgylch i'r bwrdd i swperu; yn eu mysg gwelaf wrthrych ein Cofiant yn llangc ieuangc siriol a gwridgoch, a chlywaf ef yn difyru y teulu trwy adrodd helyntion y dydd gyda dyddorde̵b neillduol, tra byddid yn llenwi i bob un yn ei dro ei phiolaid o gawl iachus; erbyn hyny clywwyf yr hen wr yn carthu ei wddf, yr hyn beth oedd arferiad ganddo, ac wele fudanrwydd yn meddiannu yr holl deulu mewn tarawiad, erbyn hyny codai i fyny gyda mawreddigrwydd Patriarchaidd, a thaer erfyniai, mewn modd byr a chynwysfawr, am fendith Tad y trugareddau ar y gyfran ddarparedig ger eu bronau. Wedi i reidiau pawb gael eu diwallu, gwelaf Dafydd bach yn codi oddiwrth y bwrdd ac yn hol yr hen Feibl teuluaidd oddiar y drestl gerllaw, ac yn ei osod mewn modd parchus o flaen ei dadmaeth ar y bwrdd, yna darllenai pen y teulu bennod fer a phwrpasol, gan dynu addysgiadau priodol i amgylchiadau y teulu, wedi hyny adroddai adnod, a'r teulu oll o'r hynaf i'r ieuangaf a'i hefelychent, ac yn olaf, clywaf Dafydd, yn ngeiriau y Dafydd gynt, yn dywedyd, "Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn." Yna ymostyngai y teulu oll ar eu gliniau oddiamgylch i'r allor deuluaidd,

yr hon a anerchid mewn modd parchus. taer, a difrifol gan Shion Pencelli. Wedi i'r rhan hono or gwasanaeth teuluaidd fyned trosodd, dynesai yr hen Batriarch yn araf, ac eisteddai ar gadair gefn gerllaw y tân, yna galwai Dafydd ato, a gofynai iddo, "Pa faint o adnodau ddysgwyd heddyw Deio,' yna rhedai Dafydd i ymofyn ei Feibl, ac adroddai yn lled gywir ran helaeth o bennod a fwriadai ei hadrodd yn yr ysgol, neu ar ddechreu oedfa, y sabboth canlynol, wedi hyny rhoddid iddo ryw gyfran o'r "Esboniad ar Gatecism yr Eglwys" gan y diweddar Barch G. Jones, o Landdowror, i'w ddysgu a'i adrodd yn y teulu, yr hwn lyfr oedd mewn bri mawr yn mysg y Trefnyddion yn yr amser hwnw, pan oedd yr offeiriaid yn eu llywyddu, â "Hyfforddwr" y Parch T. Charles o'r Bala heb ei ddwyn i sylw. A diau fod y gwaith hwnw yn wir deilwng i'w ddarllen a'i ddysgu, er cynnorthwyo y meddwl i ffurfio dirnadaeth gywir am wirioneddau gair Duw. Os darfu i'r awdwr dysgedig a duwiol, oddiar ei draserch at yr Eglwys Sefydledig, yr hon yr oedd yn weinidog ynddi, gysylltu ei lyfr â Chatecism nad ydym yn ei gymeradwyo, eto gwnaeth y rhan fwyaf o'i lyfr i fyny o ddefnyddiau a ddaliant oleu 'r gwirionedd, a goleu 'r farn ddiweddaf. Pa un bynag a yw ein darfelydd yn gywir am y *dull* yr oedd yn cael ei addysgu, mae genym hysbysrwydd fod Shion Pencelli yn wr oedd yn ofni Duw, yn wr mwy manwl na chyffredin yn ei grefydd, yn ymhyfrydu yn addysgiad yr ieuengctyd, ac yn arfer gwneyd sylwadau ar y rhanau a fyddai yn ddarllen o'r gair; ac y mae genym hysbysrwydd hefyd fod gwaith y Parch. G Jones, yn ei feddiant, ac yn hoff lyfr ganddo, a'i fod wedi bod yn fanteisiol iawn i wrthrych ein Cofiant, pan yn ieuangc, er ffurfio ei olygiadau am fawrion bethau Duw, a'i farn am amrywiol ganghenau o athrawiaethau y Testament Newydd. Nid oes genym hysbysrwydd pa un a oedd rhyw deimladau crefyddol wedi ymaflyd yn ei feddwl pan oedd yn y lle hwnw; ond y mae yr hysbysrwydd sydd

genym am dano, pan newydd ymado oddi yno, yn rhoddi ar ddeall i ni ei fod wedi ei ddysgu i ymddwyn yn weddus, i barchu moddion crefyddol, ac i ymarfer â'r odfaon cyhoeddus, yn y fath fodd ag oedd yn ei ddwyn i'w dilyn, i ymwrthod â chyfeillach dynion ofer, ac i ymarfer â rhai yn ofni yr Arglwydd, wedi iddo fyned i ardal ddyeithr oedd yn orlawn o lygredigaeth ag annuwioldeb, ac yntau yn fachgenyn dyeithr, ymddifad heb neb i edrych ar ei ol; dim ond tuag 16 oedd, ac wedi dygwydd myned i letya i deulu a wadent dduwdod yr Arglwydd Iesu. Mae hyn yn rhoddi seiliau cryfion i ni gasglu fod awdurdod mwy na chyffredin gan y gwirionedd ar ei feddwl pan yn dra ieuangc. Un o ysgubion y byd oedd, heb dad na mam i edrych ar ei ol, na pherthynas i'w ymgeleddu, ond er hyny yr oedd yn llestr etholedig i Dduw, i ddwyn, wedi hyny, ei enw ger bron dynion, i ddadblygu anchwiliadwy olud y cyfryngwr i bechaduriad colledig, i wareiddio cannoedd o anwariaid rhyfygus a thywyll y gweithfaoedd, a dychwelyd miloedd o afradloniaid o'u pellder crwydredig, at Dduw. Yr oedd yn ddisylw gan y byd; ond yr oedd y meddwl tragwyddol wedi sylwi arno, ac yn peri i bob olwyn mewn rhagluniaeth i gyd-droi er dwyn i ben y bwriadau tragwyddol yn ei gylch.

Mae yr hanes hyn am dano yn dangos, nad fel y mae dyn yn edrych yr edrycha yr Arglwydd. Pe buasai dyn yn myned i ddewis cenad tros Iesu, a fyddai i fod yn offerynol i ddychwelyd mwy o eneidiau at Dduw na'i frodyr yn gyffredin, ni buasai yn ei gymeryd o'r fath gyff ag a nodwyd. Buasai yn debycach o'i gymeryd o fysg plant rhyw weinidog enwog, neu ryw ddiacon parchus, a fuasai yn ei gadw mewn ysgol dda o'i febyd, ac yn rhoddi iddo fanteision athrofäol helaeth, er mwyn ei addurno âg addurniadau dynol, ond dewisodd Duw un o "bethau dirmygedig y byd," "fel y byddai godidawgrwydd y gallu o Dduw," ac nid o'r offeryn. Hefyd, mae yn ymddangos, fod Duw, yn aml, yn arwain y rhai mae efe yn feddwl anrhyd-

mewn rhyw fodd neillduol, trwy ryw lwybrau mwy dyrus na chyffredin Yr oedd rhaid taflu Moses i fin yr afon, a'i adu i ofal rhagluniaeth yn unig, pan nad oedd ond tri mis oed, i gael pen y ffordd oedd Duw wedi ordeinio i'w godi yn waredwr i Israel, ac yn arweinydd iddynt. Pwy feddyliasai wrth weled ei fam yn plethu'r llafrwyn, mai bachgen min yr afon fuasai yn gwneyd y fath bethau mawrion tros Dduw? a phwy fuasai yn meddwl wrth weled gwrthrych ein Cofiant yn cael ei roddi yn faban at ddyeithriaid, a'i fam yn myned tros y moroedd i wledydd pell, mai efe fuasai yn offeryn i wneyd y fath rwygiadau yn nheyrnas Satan yn ardal Nantyglo? Fel hyn y mae godidawgrwydd y gallu o Dduw.

## PENNOD II.

Ei symudiad i'r gweithfeydd—Dechreuad ei grefydd a'i helynt cyn dechreu pregethu.

Nid mwy hynod, ac nid mwy annirnadwy oedd ffyrdd Duw tuag ato yn rhanau boreuaf ei oes, nac ydoedd yn ei rhanau dilynol; yn ei fagwraeth a'i addysgiad, nac oedd yn ei symudiad, yn nghyd a'i gadwraeth rhag syrthio yn ysglyfaeth i'r temtasiynau lliosog a'i hamgylchai yn ei sefyllfa newydd.

Dychymygwyf ei weled yn cychwyn ar ei daith, yn llengcyn ieuangc a thyner, gan ganu yn iach i'r wlad ei magwyd ynddi, a'r teulu y bu yn ymdeitho yn eu mysg. Gwelaf ef yn croesi mynyddau moelion Llandysil a Llansawel â sypyn bychan o ddillad tan ei gesail—a'i wyneb ar y byd mawr, heb wybod nemawr am ei hudoliaethau, ei demtasiynau, a'i beryglon: tröai ei wyneb yn ol yn fynych i gael y drem olaf ar hen fynyddau hoffus ei wlad, a'i fynwes yn llwythog gan hiraeth, a'i

ruddiau yn wlyb gan ddagrau; yn rhaddol disgynodd i waered i ddyffrynoedd prydferth Glan Towy, diflanodd copäau mynyddau ei wlad o'i olwg, golygfeydd newyddion a ymagorasant o'i flaen, gostegwyd teimladau cythryblus ei feddwl i raddau, suwyd ei hiraeth, tros dymmor i gysgu; llanwyd ei fynwes â myfyrdodau prudd aidd, a chyffymodd yntau ei gamrau tua'r wlad bell.

Ar ryw brydnawn, pan oedd yr haul newydd ymlithro tros fryniau'r gorllewin, a chysgodion y nos yn dechreu ymdaenu ar led, canfyddai olygfa ddyeithriol o'i flaen, goleuni rhuddgoch yn gorchuddio yr awyr, a fflamiau gwyrddleision y ffyrneisiau yn ymsaethu i'r cymylau; yna gofynai i'r cyfaill cyntaf a gyfarfu, "Pa waith yw hwna?" "Gwaith Merthyr" oedd yr ateb. Erbyn hyny rhuthrodd rhyw ffrydlif o feddyliau pruddglwyfus i'w fynwes hiraethlon; cofiai am aelwd glud Pencelli, a maesydd prydferthion Glan Teifi: dechreuai deimlo ei sefyllfa ymddifad yn mysg dyeithriaid, heb dad na mam na pherchen, mewn ardal bellenig, nes y teimlai yn gyffelyb i'r Salmydd pan y dywedodd, "Unig a thlawd ydwyf." Erbyn hyn cyrhaeddai bentref bychan Cefn-coed-y-cymer. Wedi ymsefydlu yno, canfyddodd yn fuan wahaniaeth dirfawr rhwng arferion y ddwy wlad. Yr oedd sorod y gwledydd yn yr amser hwnw yn ymgasglu at eu gilydd i Ferthyr. Yno yr ymgiliai y rhai aflanaf eu bucheddau, o bob parth o'r wlad, fel rhyw ffrydiau budron i'r un gronfa ddrewedig: ac wrth ystyried llygredigaeth ei galon fel pechadur, grym y temtasiynau a'i hamgylchai, ei ymddifadrwydd ar y pryd hwnw, o ddysgyblaeth deuluaidd, a'r lliosog gyfleusderau i bechu a ymgynygent iddo, mae yn rhyfedd na fuasai yn cael ei orchfygu, a'i wneuthur yn gaethwas i arferion llygredig y lle: ond gofalodd Duw yn dirion am dano ynghanol ymosodiadau pob math o brofedigaethau, fel am Joseph yn nhy Putiphar, fel na chafodd un amser ymollwng gyda'r ffrwd.

Achlysurwyd ei ymadawiad oddiwrth ei dadmaeth gan fwriad ei dad o barthed iddo. Pendyrfynai, mae'n debyg, ei sefydlu ar y mor pan y cyrhaeddai yr oed o 16; pa un a'i i'r perwyl o'i yru o'r wlad neu er mwyn rhyw ddyben arall, nis gwyddom; ond mae hyn oedd ei amcan sydd gwbl hysbys: ond nid i'r mor y bwriadai yr Arglwydd ei anfon: a rhoddwyd prawf newydd yma drachefn "mai nid eiddo gwr ei ffordd," ïe, er fod y gwr yn gyfreithiwr.

Yr oedd Dafydd yn gwbl wrthwynebol i'r alwedigaeth hono; a rhag ofn i'w dad ei rwymo yn egwyddorwas morwriaethol, a'i yru i'r mor yn groes i'w ewyllys, gadawodd dy ei dirion dadmaeth o Bencelli, a chiliodd rhagddo i ardaloedd Merthyr, lle y ffoai lluoedd, y pryd hwnw, i ymguddio a llechu rhag y ceisiaid. Wedi ymsefydlu yn Nghefncoed-y-cymer ger Merthyr, aeth i weithio i'r gwaith mwn. Nid oedd ond ieuangc o ran oedran, a thyner o ran ansawdd ei feddwl i allu ymdaro trosto ei hun, yn enwedig mewn lle dyeithr, lle yr oedd cymaint o brofedigaethau. Yr oedd, i olwg rheswm, o ran ei dymherau dynol yr amghymwysaf o bawb i gyfarfod â chaledi. Yr oedd o dymher laith, ddystaw, a diniwed; yn well ganddo oddef cam nag achwyn. Yr oedd y llinell hon i'w chanfod yn amlwg yn ei dymherau tra fu byw, ac yr oedd yn un o'i hynodion trwy eî oes; ond mae genym dystiolaethau sicr ei fod yn fwy felly pan ddaeth i'r gweithfeydd gyntaf. Yr oedd, o'r tu arall, wedi dyfod i fysg y fath o ddynion ag a eilw ysprydoliaeth yn "llewod," a "dynion poethion." Mewn gair, yr oedd fel "oen yn mysg bleiddiau." Yr oedd yn mhob modd, o ran oed, amgylchiad, a thymher, wedi ei gyfaddasu gan natur a rhagluniaeth, i fod yn golofn amlwg i ddangos mawr ofal Duw am y truan, yr hwn nad oes un ymddiffyn arall ganddo.

Mae rhyw beth yn ymddangos yn dra thebyg yn amgylchiad gwrthrych ein Cofiant, i'r eiddo Joseph mab Jacob. Yr oedd hynodrwydd "cymylau a thywyllwch" yn amgylchu ffyrdd Duw yn anfoniad Joseph i'r Aifft; felly hefyd yr oedd yn nyfodiad Stephenson i Ferthyr. Y rhai hyny y gallasai Joseph yn naturiol ddysgwyl yr amddiffynasent ef, a droisant yn ei erbyn: felly yntau. Yr oedd Joseph yn dyner o ran oedran; felly yntau. Yr oeddent yn agos yr un o ran oed, oddigerth fod Stephenson ychydig o fisoedd yn ieuangach. Ac er i'r sawl a ddylasent ymdiffyn Joseph ei gasau, a'i werthu i estroniaid; ac er iddo gael ei gylchwerthu (*hawk*) drachefn i'r Aifft a'i gamgyhuddo yno gan ei feistres annuwiol, i ddial arno am wrthsefyll ei hymosodiad drygionus; a'i fwrw i garchar er mwyn boddio ei llid, yr oedd Duw gydag ef yno, yn ei lwyddo a'i bleidio, ac yn gofalu am iddo gael tynerwch, hyd y nod yn ngharchar, nes i'r olwyn fawr ddwyn ei thro oddiamgylch, a dangos fod gan Dduw fwriad trugarog yn ei throadau dyrus.

Pwy fu yn foddion i yru ein gwrthrch ar grwydr? Nid estron, ond Tad; nid wedi iddo dyfu i oedran o addfedrwydd i wneuthur trosto ei hun chwaith, ond pan oedd ddim ond unarbymtheg oed. Ac i ba le y tywysodd yr olwyn fawr ef? Nid i ardaloedd Llangeitho ac Abermeirig, lle yr oedd gweinidogaeth yr hen Rowlands danllyd, a'r hen Gray dduwiol a llafurus wedi ysgwyd y wlad o gwsg pechod; ond i ardaloedd llygredig Merthyr; lle a ystyrid y pryd hwnw yn debyg i'r Aifft, ac yn ail i uffern ei hun. Ond y Duw fu a'i amddiffyn tros Joseph, a ofalodd yn y cyffelyb fodd am dano yntau. Gofalodd am ei gysuron naturiol; ni chafodd oddef na newyn na noethni, nac enbydrwydd, na gwasgfa. Cadwodd ef heb ei ddwyn ymaith na'i lygru gan y ffrwd o annuwioldeb oedd yn gordoi y lle, pa brofedigaethau bynag fuont yn ymosod arno, yr oedd Duw yn attal eu rhwysg, ac yn

dywedyd wrthynt "Hyd yma y deuwch, ac nid yn mhellach" Yr oedd llygad tadol yn sylwi arno, a llaw rasol yn cysgodi trosto; ac am hyny "ni ddygwyddodd iddo ddim niwed"; ond, "trugaredd a gwirionedd a'i canlynasant holl ddyddiau ei einioes."

Ar ol ei ddyfodiad i'r Cefn-coed-y-cymer, ymddengys ei daith fel yn hollol yn llaw llywydd mawr y bydysawd. Wedi ei ddyfodiad yno, dygwyddodd iddo fyned i letya i dy gwraig weddw a'i mab: yr oedd y teulu hwnw yn Sociniaid o ran eu barn a'u proffes, a chapel y Sociniaid yn agos a chyfleus. Ac er nad oedd Stephenson, y pryd hwnw ond bachgenyn tyner a llaith, yn agored i gael ei hudo i fabwysiadu golygiadau cyfeiliornus; eto, trwy fawr diriondeb yr Arglwydd, cafodd cynghorion ac addysgiadau yr hen wr o Bencelli eu hargraffu yn rhy ddwfn yn ei galon, i roddi llety i dybiau dinystriol a chyfeilornus, fel eiddo y Sociniaid a'r cyffelyb; y rhai a amcanant dynu ymaith galon cristionogaeth a sugno y gwaed o'i gwythienau. Yr oedd yn meddu ar barch gormodol i Fab Daw, i allu myned i gapel lle y gwedid ei Dduwdod ac y dirmygid ei aberth iawnol; o ganlyniad aeth i wrando i gapel y Trefnyddion Calfiniadd, yn Mhont-y-morlais, Merthyr, yr hwn oedd tua dwy filldir o'r lle y lletyai, a bu yn ddysgybl ffyddlon yn eu hysgol Sabbothol hyd oni chafodd gyflawn dderbyniad i aelodaeth eglwysig yn mhlith dysgyblion Crist yn yr eglwys anrhyddeddus hono. (Nid oedd un capel gan y Trefnyddion ar y Cefn y pryd hwnw.) Yr oedd ymddygiadau cyffredinol Stephenson y cyfryw, ag a arddangosent ryw ddylanwad addysg deuluaidd foreuol. Er fod y lle yn ddyeithr, yr ardal yn llygredig, y temtasiynau yn lliosog, ac yntau yn llaith o ran natur ei gyfansoddiad; cafodd ei gadw fel rhosyn prydweddol yn nghanol cors leidiog, heb ei halogi na'i hudo gan swynion ac arterion drygionus yr ardal y preswyliai yn awr ynddi. Yr oedd y "plentyn wedi ei hyfforddi yn mhen ei ffordd;"

ac wedi iddo ddyfod yn fachgen, "nid ymadawodd â hi." Yr oedd hefyd yn llestr etholedig i Dduw, i ddwyn ei enw at bechaduriaid, o ganlyniad, yr oedd yn rhaid ei alw trwy ras. Nid hir y bu cyn i'r gair gyrhaedd ei galon, ac ymaflyd mewn modd nerthol yn ei gydwybod. Mae yn debyg mai tan weinidogaeth Mr. John Bowen, yr hwn sydd eto yn fyw, ac yn pregethu yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd yn swydd Fynwy, y cafodd, mewn modd neillduol, ei ddeffroi am ei sefyllfa fel pechadur euog ger bron Duw. (Bu Mr. J. Bowen yn dra chynorthwyol a thadol iddo wedi hyny, yn ei hyfforddi &c. pan oedd yn dechreu pregethu, fel y cawn sylwi eto.) Treuliodd yspaid o amser mewn braw dirfawr am ei gyflwr, heb gaffael esmwythder, na chanfod gwawr gobaith am ddihangfa; rhodiai yn alarus gan orthrymder y gelyn, tra y glynai saethau yr Hollalluog ynddo. Nid oedd dim o flaen ei feddwl ond Duw, deddf, pechadur, angau, barn, a damnedigaeth; a chri gwastadol ei enaid trallodedig oedd, "Beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig." Eithr gwelodd Duw yn oreu i beidio datguddio y waredigaeth iddo ar unwaith; ond yn raddol ei dygodd i fwynhad o ryddid a thangnefedd yr Efengyl. Yr hyn fu yn foddion yn llaw Yspryd Duw, i'w ddwyn i ganfod gwaredigaeth a dihangfa yn y Gwaredwr, ac i esmwythau ei ddirfawr drallod, oedd darllen y Tastament Newydd gwrando ar ranau o hono yn cael ei esponio, yn nghyd a llais y weinidogaeth gyhoeddus yn gwahodd pechadur at Grist. Mae yn deilwng o'n sylw yma, ei fod, yn yr amgylchiad cyfyng hwn, yn rhoddi mwy o bwys a'r yr hyn a gaffai yn eglur yn y Bibl nac ar ddim a glywai gan y goreu o weinidogion, o'r pwlpud, nac un lle arall; am hyny yr oedd yn dra phryderus yn ei drallod, i ddeall beth oedd y Bibl yn ei ddywedyd. Cymerodd y gelyn fantais ar y penderfyniad onest hwn oedd yn ei feddwl, i gymeryd y gair yn

unig gyfarwyddyd diogel ac anffaeledig. a defnyddiodd ran o hono i geisio ei ddigaloni, a'i yru i anobeithio am Iachawdwriaeth; ond pa ryfedd, o blegyd mae hon yn hen arferiad ganddo i dwyllo a dyrysu plant dynion pan eu deffroer yn nghylch eu cyflwr: ac mae y ddichell hon hefyd, yn un o'r rhai cyfrwysaf a arferodd with demtio ein Harglwydd bendigedig. Y testyn a gymerodd i boenydio gwrthrych ein Cafiant oedd, Deut. 23, 2. Curodd yn ddiarbed ar ei feddwl, tros hir amser, oddiwrth yr adnod uchod, trwy y dybiaeth nad oedd yn ddichonadwy iddo gael ei achub am mai bastardd oedd: ond cafodd waredigaeth hollol o'r brofedigaeth hon drachefn. Yr oedd cyfeillach agos ag anwyl, wedi ei ffurfio rhyngddo a gwr ieuangc nerthol a chadarn yn yr ysgrythyrau, yr hwn oedd yn cyd-deithio ag ef i'r Ysgol Sabbothol, yr hwn sydd eto yn fyw, ac yn parhau yn addurn i'w broffes.* Bu y cyfaill hwnw fel offeryn yn llaw yr Arglwydd, yn help mawr i ddadrus ei feddwl o'r fagl hono, trwy ei gyfeirio at amrai ranau ereill o'r ysgrythyrau, a ddangosent fod y gosodiadau seremoniol wedi terfynu, a goruchwyliaeth hynaws yr efengyl wedi ei sefydlu yn ei lle, yr hon a resawai bob pechadur teimladwy o'i drueni yn ddiwahaniaeth, at Grist am fywyd.

Cafodd, o radd i radd, le i feddwl fod greso iddo ef, fel pechadur, i bwyso ar Iesu Grist am ei fywyd; rhoddodd hyn heddwch a thangnefedd i'w feddwl cythryblus. Yma y cafodd ddrws agored yr hwn na ddichon neb ei gau, ac yma y profodd gyfaddasder addewid yr hwn a ddywedodd, "Deuwch attaf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog, ac mi a esmwythaf arnoch."

Aeth i gyfeillach y Trefnyddion Calfinaidd yn Merthyr tu ar amser hwn, a bu yn ffyddlon yn eu mysg dros ryw yspaid. Yr oedd ansawdd gyffredin

* Mae y gwr hwn wedi myned i ogoniant ar ol ysgrifenu'r llinellau uchod ond cyn eu dodi yn y wasg.

ei feddwl, y pryd hwn, yn feddylgar, ac ystyrid ef gan rai yn bruddglwyfus, o herwydd ei fod yn anaml ei eiriau ac yn ddifrifol ei feddwl. Ni chaid ef byth yn cyduno mewn ymddyddanion ysgafn a diles: ond argyhoeddai y cyfryw yn hytrach. Dywed un, "nad oedd un gair i'w gael nemawr byth, o'i enau, oddigerth y byddai rhyw beth ag y byddai raid iddo siarad, er hyny darllenai yn ddibaid bob cyffe a gaffai." Un tro wrth ei weled felly, dywedai gwr o'r enw Shion Paul, yr hwn oed i yn cyd-weithio âg ef, wrtho

"Nid dyben crefydd yw'n tristau
A'n gwneyd yn llai'n dyddanwch."

Ar hyn cododd yntau ar ei draed, a chyd ag agwedd yn rhyw ddull rhwng gwên a thristwch tarawai ei law ar ysgwydd Shion, a dywedai "Shion ni wyddoch chwi ddim yn y byd am dani." Wedi i'w feddwl gael ei ddwyn i fwynhad o ryddid a thawelwch mewn perthynas i'w gyflwr personol ei hun, temlai awydd am bregethu, a chymhell ereill i afael yr Iachwdwriaeth, ond yr oedd o ran ei dymherau dynol mor llaith ac yswil fel na fedrai hysbysu hyny i'w gyfeillion anwylaf. Ac nid oedd neb mae'n debyg, o'r eglwys hono, yn ddigon craffus ei sylw i ganfod y cymhwysderau mawrion i ddefnyddioldeb, ei cynysgaeddwyd â hwynt gan ragluniaeth y nefoedd, er y sylwid gan amryw ei fod yn meddu dawn ac yspryd gweddi i raddau mawr.

Caid ef weithiau ar ben y mynydd, yn mhell oddiwrth bob trigfanau dynol, yn pregethu wrtho ei hun. ac wrth y creigiau; a byddai rhai mo'r anghristionogol a'i ddirmygu oblegyd hyny. Mae un tro hynod a ddygwyddodd yn y tymmor hwnw yn werth ei goffa, ac yn dangos fod yspryd gweddi ac awydd pregethu yn gorphwys mo'r rymus ar ei feddwl, fel yr oedd yn dylanwadu arno, hyd y nod yn ei gwsg. Ryw noswaith dygwyddodd fod mab y tu lle y lletyai yn gweithio

nes oedd tua haner nos, ac aeth Stephenson i'w wely fel arferol; wedi i'r bachgen ddyfod adref a bwyta ei swper &c., aeth i fyned i'r gwely ato; ond erbyn myned i'r llofft ac edrych o'i amgylch, tarawyd ef â syndod dirfawr; canfyddai ddillad Stephenson ger llaw y gwely, ond er chwilio ni chanfyddai ef ei hun yn un man; galwai y bachgen ar ei fam gan ofyn, "Pa le mae Dafydd," atebai hithau, "onid yw yn y gwelv," "nac yw," meddai y bachgen, "ond mae ei ddillad yma:" terfysgodd hyn yr holl deulu, cododd pawb o'u gwelyau. dechreuwyd gwneuthur yr ymchwiliadau manylaf am dano, chwiliwyd y ty, bob ystafell a chongl o hono, ond yn ofer: chwiliwyd tai'r gymydogaeth am dano, ond yn ofer: yna aed allan i'w chwilio, a chafwyd ef, heb ddim ond ei grys am dano, rhwng y pentref a'r afon, yn sefyll ar ben careg fawr tua phump troedfedd o uchder, yn gweddio a chwys mawr yn treiglo drosto fel pe buasai mewn ffwrn. Deallwyd yn fuan mai yn ei gwsg yr oedd, a gadawyd llonydd iddo am beth amser, i weled y canlyniad: ar ol gweddio, dechreuodd bregethu; ond yn mhen ychydig ymaflwyd ynddo a deffrowyd ef; wedi ei ddeffroi a chanfod lle yr oedd, ymwylltiodd ac ni wyddai ddim oddiwrtho ei hun am beth amser, ac ni chaid un gair o'i enau; ond o'r diwedd torodd allan i wylo fel plentyn, ac aeth gyda hwy i'r ty, ac i'r gwely. Dywedir yn Can. 7, 9, fod "taflod genau" yr eglwys "megis y gwin goreu &c. yn peri i wefusau y rhai fyddo'n cysgu lefaru"—Cyflawnwyd hyny yn llythyrenol yn yr amgylchiad blaenorol: cynyrchodd gair Duw ac ordeinhadau ei eglwys y fath deimladau yn ngwrthrych ein Cofiant, nes peri i'w gwefusau weddio a phregethu yn ei gwsg.

Ar ol treulio rhyw yspaid gyda'r Trefnyddion, ymadawodd â hwy, ac aeth yn ddioed i ymofyn aelodaeth gyda'r Annibynwyr yn Soar, Merthyr, lle cafodd dderbyniad gresawus gan yr eglwys a'i

pharchus weinidog, y Parch. D. Lewis. Ymddygodd yn hollol deilwng yn yr amgylchiad hwn, fel nad allai, hyd y nod, y rhai â'i beient am adael y Trefnyddion ac ymuno â'r Annibynwyr, gael un bai ynddo, ond yn unig ei fod wedi troi yn Annibynwr: ond yr oedd hyny yn ddigon o fai, gan ragfarn ddallbleidiol. Rhoddodd ei achos yn rheolaidd ger bron yr Eglwys i gael gollyngdod, ac i ymado mewn heddwch; a phan y gofynid iddo ei reswm tros ymado, tystiai ei fod yn caru egwyddorion yr Annibynwyr yn well na'r eiddo y Trefnyddion; ac na allasai gydfyned â'r dull y gadewid rhai o eglwysi y Trefnyddion am lawer yspaid hir yn ymddifaid o Swper yr Arglwydd, yn nghyd a rhyw bethau annymunol ereill mewn perthynas i'r rhai oedd yn gweinyddu ei ordeinhadau. Nid oedd neb, y pryd hwnw, yn gweinyddu yr ordeinhad o Fedydd a Swper yr Arglwydd, yn mysg y Trefnyddion ond rhai o Urdd Esgobol; ac arferai rhai o'r cyfryw lawer o dra-arglwyddiaeth tros eglwysi Crist, perthynol i'r enwad Trefnyddol: ac os oedd gweinyddiad yr ordeinhadau uchod yn rhesymol o gyson yn Llangeitho, y Capel Newydd, Nanhyfer, Llanlleian, Capel Gofylchi, a Llangan, yr oedd fel arall y pryd hwnw yn Merthyr, ac ardaloedd cyffelyb; ac mae yn anmheus a fuasai yno ddim gweinyddu o gwbl tan yr oruchwyliaeth offeiriadol oni buasai i'r gwr da a duwiol hwnw, y Parch John Williams, Pant y celyn, mab y peraidd ganiedydd, trwy gyfrwysdra, roddi y cais ger bron y Gymanfa, y peth cyntaf yn y gyfeillach neillduol, a llwyddo i'w basio yn benderfyniad cyn dyfodiad yr offeiriaid ereill, y rhai a arferent ddyfod yn ddiweddar, i mewn; pa rai, mae yn debyg, a wnaethent eu goreu, pe yn bresenol, i'w wrthwynebu. Mae genym dystiolaethau dynion geirwir a pharchus o fysg yr enwad hwnw, y rhai ydynt eto yn fyw, ag oedd yn gyfeillion mynwesol i wrthrych ein Cofiant, ac yn arfer llawer iawn ag ef flynyddoedd cyn, ac ar ol

i'w symudiad gymeryd lle, mai hyn oedd ei dystiolaeth wrthynt yn y modd sicraf; ac na chafwyd dim yn anweddaidd ynddo ar y pryd hwnw, nac un amser arall; eithr iddo ymddwyn yn egwyddorol a phenderfynol yn ol argyhoeddiad ei feddwl, heb ysgogi oddiar lwybr gwirionedd a rhinwedd, er gwaethaf drwgdybiau aml athrodwyr rhagfarnllyd. Bernir ar yr un pryd, gan amryw o'r enwad hwnw, fod achos arall hefyd yn help i ddwyn ei feddwl i'r penderfyniad o'u gadu, sef ei fod yn barnu na chai fyned i bregethu yn eu plith, a bod rhai o honynt yn ei ddirmygu o herwydd fod y fath beth ar ei feddwl. Nid yw yn ymddangos ei fod erioed wedi rhoddi y mater pwysig hwnw ger eu bron; ond er hyny gwyddid yn hysbys ei fod yn awyddus i ddefnyddio ei ddoniau yn y cylch gweinidogaethol; ac yr oedd yntau y pryd hwnw, fel yr oedd hyd ddiwedd ei oes, yn hynod o graff ei sylw ar ysprydoedd ac ymddygiadau dynion, er ei fod yn meddu gradd helaeth o ochelgarwch yn nadguddiad ei farn a'i deimlad yn eu cylch: rhagwelai, mae yn debyg, wrth eu teimladau a'u hymddygiadau, nid yn unig tuag ato ef y pryd hwnw, ond tuag at ereill o'r cyffelyb dueddfryd yn flaenorol, os ymwasgai yn mhellach yn mlaen, fod y canlyniad yn debyg o droi allan yn anffafriol. Nid anhebyg fod rhyw gymaint o wirionedd yn hyna, er na chafwyd gair erioed ganddo ef yn nghylch hyny, oddigerth rhyw bethau a ellid ei gasglu oddiwrth ddywediadau achlysurol anuniongyrchol o'i eid lo ar y pwngc. Beth bynag am hyny, efe a ymadawodd yn y modd mwyaf tangnefeddus, ac a ymunodd âg enwad lle y cafodd bob sirioldeb a rhyddid yn eu mysg i arfer y dawn oedd ynddo, ac felly ymddygodd yn ddoeth ag yn hollol deilwng i'r Efengyl, ac y mae ei lafur caled a'i lwyddiant anarferol trwy ysdod ei yrfa weinidogaethol yn brawf fod ei symudiad yn ol meddwl pen yr eglwys. Nid yw hon ond un anghraifft o lawer fod yr

Arglwydd yn "codi o feibion" y Corff parchus hwnw "rai yn brophwydi" a hwythau yn eu hymddygiadau tu ag atynt yn "gorchymyn iddynt, gan ddywedyd, Na phrophwydwch" (Amos 2. 11. 12.) Llawer gwaith y goruwchreolwyd ymddygiadau cyffelyb i fod yn lles a bendith i enwadau ereill: pan y rhoddwyd attalfa iddynt i weithio ar y naill faes, cyflewyd hwynt gan rhagluniaeth ar feysydd ereill, lle y cawsant bob annogaeth a rhyddid i wneuthur gwaith mawr tros Dduw, yn ngwasanaethiad eu hoes a'u cenhedlaeth. Ymddengys fod hyn yn cael ei dybied am wrthrych ein Cofiant gan y brodyr Trefnyddol, ac iddo gael ei roddi yn ei erbyn ger bron yr eglwys pan ofynodd am ollyngdod. Yr oedd gwr o'r enw Josuah Davies, adnabyddus wrth yr enw Josi 'r Saer, blaenor i'r eglwys hono, yn bresenol ar y pryd; (yr oedd y gwr hwnw yn wr da, duwiol, a llafurus; a pharhaodd yn barchus hyd ddiwedd ei oes; ac ymadawodd â'r byd mewn tangnefedd; ond yr oedd yn wr o dymherau dynol poeth a byrbwyll, ac yn dueddol i roddi geiriau swrth pan gyfarfyddai â pheth croes i'w feddwl); ac yn ei ddull ffraeth a sarug arferol ar gyfryw achlysuron, dywedai wrtho, "Mi wn i o'r goreu beth sydd arnat ti; yr un peth sydd yn myn'd a thi i bant ag aeth a Ianto Shion Harry," gan gyfeirio at ryw wr oedd wedi ymado oddi wrth y Corff am na chai genad i bregethu.

Wedi ymuno â'r Annibynwyr, nid ymollyngodd yn ei lafur a'i ddiwydrwydd gyda gwaith ei feistr, eithr dangosodd yspryd mwy ymroddedig nac o'r blaen: teimlai ei hun gartref, ac amlygai galon gysegredig yn ei weithgarwch difefl gyda gwahanol ranau o wasanaeth ty yr Arglwydd, megys cyfeillachau. cyfarfodydd gweddi, yr ysgol Sabbothol, &c. ac yn raddol cryfhaodd y duedd i bregethu yn ei feddwl, nes aeth ar ryw olygiad yn anorchfygol. Pregethai wrtho ei hun mewn rhyw leoedd anghyfanedd; ond o herwydd rhyw amgylchiadau hel-

bulus a'i cyfarfyddodd tua'r cyfnod hwn nis arferodd ei ddoniau cyhoeddus am dymmor

Gyda golwg ar ei helynt fydol yn y tymmor hwn o'i fywyd, yr oedd yn gyffelyb i'r rhif luosocaf o feibion Adda, yn cael profi ffrwythau chwerwon y cwymp, ac yn derbyn ei gyfran o'r felldith gyhoeddedig yn Eden, "Trwy chwys dy wyneb y bwytai fara" a gwirid yn ei fywyd a'i brofiad, dystiolaeth dwyfol ysprydoliaeth, "Dyn a aned i flinder fel yr eheda gwreichionen, i fyny." Er na chafodd yn y cyfnod hwn, nac yn un rhan o'i oes gymaint graddau o flinfyd ac a gafodd lluoedd o'i frodyr, yr oedd ei Dad nefol yn hyn, fel y mae yn ei weinyddiadau cyffredin tuag at ei anwyliaid, yn cyfaddasu ei dywydd i'w rym, ac yn mesur ei gwpaneidiau yn gyfatebol i nerth ei gyfansoddiad ac ansawdd ei feddwl; ac os oedd weithiau yn mesur yn helaethach, ac yn goddef beichiau trymach i'w orddiwes, rhoddai ras ychwanegol ar y pryd hwnw ar ei gyfer, fel y byddai "ei nerth megys ei ddydd" ac felly cyflawnai ei addewid trwy wneuthur "yn nghyd â'r demtasiwn ddihangfa hefyd fel y gallai ei dwyn." Y tymmor tan sylw oedd y rhan fwyaf tonog o'i oes; a'r cyfnod pwysicaf o'i fywyd: yr oedd rhagluniaeth ddwyfol fel yn ei arwain trwy beiriau poethion er profi a phuro ei egwyddorion, ei gymhwyso i ddefnyddioldeb dyfodol, a'i ddysgu i "ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu," ynghyd a "goddef cystudd megys milwr da i Iesu Grist." Gadawodd y cyfnod hwn ddylanwad dwfn ar holl gyfnodau dilynol ei fywyd; cymododd ei feddwl â goruchwyliaethau dyrus rhagluniaeth; ysgogodd ei gamrau yn mlaen yn gyflymach yn ngyrfa defnyddioldeb: a rhoddodd argraff ddymunol ar holl linellau prydferthion ei gymeriad. Dywedodd Jeremiah mai "Da i wr ddwyn yr iau yn ei ieuengctyd." Cymerir y gair yn gyffredin am *iau crefydd*. Gwir mai da, a da iawn yw dwyn hono yn ieuangc; a chafodd gwrthrych ein Cofiant y rha-

gorfraint oruchel o wneyd hyny. Ond wrth sylwi ar yr adnod hon yn ei chysylltiad â'r amgylchiadau a'r materion drinir gan yr ysgrifenydd yn y bennod, nis medrwn lai na meddwl mai *iau trallod* yw ei ystyr fwyaf llythyrenol ac uniongyrchol. Gan fod trallodion yn aros dynolryw yn eu gyrfa ddaearol; mae yn well iddynt gael eu cynefino â hwy pan yn ieuaingc pan mae eu galluoedd ystwythaf i ddysgu eu gwersi a'u cyfansoddiadau gryfaf i ymgynefino â'u beichiau, ac yna ni chant gymaint effaith arnynt os cyfarfyddant â hwy drachefn yn mhrydnawn neu hwyr eu bywyd; ond os tawela yr hin arnynt wedi yr elont yn hen, goreu oll. Bydd tawelwch ar ol tymhestloedd cythryblus yn ddymunol a dedwydd, ond am yr rhai sydd yn mwynhau llonyddwch, llwyddiant, a chysur yn moreuddydd eu tymmor, a 'stormydd mewn henaint a phenllwydni, mae eu tywydd yn llawer garwach i'w wynebu, a'r anhawsdra yn anhawddach i'w orchfygu, a beichiau dyblyg o drallod yn bwgwth eu llethu i'r bedd. Gan mai trugaredd yw cael y tywydd yn ieuangc, gofalodd tad yr ymddifaid i'w ddwyn ef i ysgol y groes yn foreu pan oedd ei gyfansoddiad yn ystwyth i gydweddu â'i rheolau, ei alluoedd yn dreiddgar a chyflym i ddysgu, a'i natur yn gref i fyned trwy ei gwersi.

Wedi iddo ymsefydlu yn Nghefn-coed-y-cymer, darfu iddo trwy ei ffyddlondeb gyda'i oruchwyliaeth ddyddiol, yn nghyd ag ymddygiad gweddus a theilwng yn ei holl ffyrdd, ennill iddo ei hun yn fuan gymeriad da; sylwodd goruchwylwyr y gwaith arno, a chafodd fyned i bwyso mwn yn nghadlas (*yard*) gwaith y Gyfarthfa, Merthyr. Ystyrid y gorchwyl hwn yn un anrhydeddus ac ennillfawr, a chyfrifid yn ffafr neillduol iddo ef gael y gorchwyl ac yntau ond llengcyn ieuangc a dyeithr; ei gymeriad rhinweddol yn unig a ennillodd iddo y ffafr hon. Bu gyda'r gorchwyl amryw flynyddau, a chyflawnai ef bob amser gyda ffydd-

londeb, ac er boddlonrwydd i'r sawl oedd yn arolygu trosto. Pan y dilynai yr oruchwyliaeth hon ennillodd sylw cymydog caredig o'r enw Edward Evans, yr hwn oedd yn llosgi mwn yn yr odynau gerllaw iddo, dysgodd y gwr hwnw ef o radd i radd, ar ryw oriau hamdden, i gyflawni y gorchwyl hwnw yn gampus, ac felly daeth bob yn ychydig yn llosgwr mwn medrus, a chafodd orchwyl yn fuan yn y gangen hono o'r gwaith. Yr oedd yn mhob un o'r galwedigaethau hyn yn gweithio yn galed a diflin, a chadwai ei gymeriad yn ddifrychau, er hyny byddai rhyw fechgynach anystyriol, yn aml, yn cymeryd mantais ar ei ddiniweidrwydd a lleithdra ei dymher i'w ddirmygu a'i wawdio; ond yn wastadol cymerai hyny yn dawel a digyffro, a "phan ddyoddefai ni fwgythiai eithr rhoddai a'r yr hwn sydd yn barnu yn gyfiawn."

Dygywyddodd pan oedd yn bur ieuangc i'w goelbren syrthio i fyned gyda'r meiwyr, (*malitia*). Methasom gael i sicrwydd pa flwyddyn y dygwyddodd hyn; ond yn ol y tystiolaethau cywiraf a manylaf y gallasom ddyfod o hyd iddynt, cawson ei fod rhyw le o 18 i 20 oed y pryd hwnw. Gan fod yr amseroedd hyny yn amseroedd enbyd, yr oedd yn anhawdd iawn iddo gael un yn ei le er talu swm mawr am hyny. Wele brofedigaeth lem wedi ei orddiwes: er ffoi rhag y mor a'i beryglon, wele debygolrwydd am iddo gael ei orfodi i wisgo dillad milwraidd, a chario y cledd, ac nid oedd nemawr obaith am iddo allu gochelyd hyny. Pe gallasai lwyddo i gael un yn ei le (yr hyn beth oedd ddichonadwy ond talu digon), y pwngc oedd, Pa le y gallasai gael y swm gofynedig? yr oedd rhai yn y blynynoedd hyny yn talu mor uchel a 60 punt am rai yn eu lle, ac yr oedd y rhai iselaf yn talu o 20 i 30 punt; yr oedd yntau yn ieuangc a llaith, a dim ond prin newydd ddyfod i ymdaro trosto ei hun; os oedd wedi taclusu ychydig arno ei hun â dillad gweddus, a chael

ychidyg o lyfrau, o'r rhai yr oedd yn dra hoff, nid oedd lle i feddwl y gallasai fod ganddo nemawr o arian yn ystor; ac yr oedd mewn gwlad ddyeithr heb neb perthynas i wneuthur na theimlo dim trosto. Yn y cyfyngder hwn trodd ei wyneb at fraich o gnawd, yr hon a drodd yn siomedig. Braich oedd a rhwymau uniongyrchol a phenodol arni i'w gynnorthyo, a braich oedd wedi ei chynysgaethu gan ragluniaeth â gallu dynol i roddi iddo y cynnorthwy angenrheidiol; y fraich hono oedd ei Dad naturiol; ac at bwy arall oedd gymhwysach y gallasai droi ei wyneb; ond cafodd ef yn ymddifad o deimladau tad yn ei fynwes; cauodd ei dosturi, a gomeddodd roddi iddo ei gais. Aeth i wared i Gaerfyrddin rhwng gobaith ac ofn, daeth yn fuan i bresenoldeb ei Dad, a lledodd ei gwyn o'i flaen. Yr oedd ei dad o ran ei olygiadau yn uchel eglwyswr, a phan ddeallodd fod ei fab yn grefyddol, a'i fod yn aelod gyda chynnulleidfa o ymneillduwyr, ymgynddeiriogodd yn ei erbyn, a gyrodd ef ymaith yn waglaw. Yr oedd y diweddar Barch. D. Peters, o Gaerfyrddin, yn gydnabyddus â'i dad, ac wedi cael hysbysrwydd gan wrthych ein Cofiant pa fodd yr oedd pethau yn sefyll rhyngddynt, aeth at ei dad i eiriol trosto, ac i ddeisyfu help iddo yn ei gyfyngder, ymgynddeiriogodd yntau yn waeth o lawer yn ei erbyn wrth hyn, oblegyd fod gweinidog ymneillduol yn cymeryd ei blaid, a gyrodd ef ymaith o'i wydd. Ymddengys y buasai yn fwy dewisol ganddo weled ei fab yn cael ei rwygo gan y cleddyf, a syrthio yn gelain ar faes y gwaed, na deall ei fod yn arddelwi Mab Duw yn mysg pobl oedd yn cymeryd ei air santaidd yn unig reol eu ffydd a'u hymarweddiad.

Yn wyneb y driniaeth ysgeler ac annaturiol hon, nid oedd dim i'w wneyd ond dyoddef, lledu ei gwynion ger bron y Duw addawodd ei hun "yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder," a dychwelyd tu a Merthyr yn athrist a thrwm ei galon, gan

benderfynu gwisgo y *goat* goch a'r cleddyf os na chodai esmwythdra ac ymwared iddo o ryw le arall. Ond pan oedd y ffordd o ymwared a ragolygid ganddo ef wedi cau, yr oedd yn amser cyfaddas i Dduw gyfryngu, a dangos y medrai efe gyffroi yr offerynau a fynai i amddiffyn a gwaredu ei rai anwyl, a dangos ar yr un pryd mai ei law lywyddol a thrugarog ef oedd yn gweithio. Yr offeryn defnyddiodd yn ymwared iddo yn y cyfyngder hwn oedd; nid ei dad, nac un perthynas naturiol, ond masnachwr galluog, yr hwn oedd yn estron, ac yn wr digrefydd, eto yn berchen teimladau dynol hynaws a thosturiol; teimlodd y gwr caredig hwnw trosto, a thosturiodd wrth ei sefyllfa ddigynnorthwy, nid mewn gair a theimlad yn unig, ond mewn gweithred hefyd. Rhoddodd fenthyg 20 punt iddo, ar yr ammod o iddo eu talu yn ol bob yn ychydig: ac â'r rhai hyn yn nghyd a'r hyn allodd efe ei hun gynnilo y cyflogodd ddyn yn ei le.

Mae yr amgylchiad hwn yn eglurhad tarawiadol ar ei gymeriad. Rhoddwyd prawf o ymddiried mwy na chyffredin yn onestrwydd ei egwyddorion; rhoddi benthyg 20 punt yn arian parod, i lengcyn oedd heb na châr na pherthynas yn agos i'w fachnio, yr hwn a allasai gymeryd ei draed a gadu yr ardal pryd y mynai, a myned na wyddid i ba le; ond ni chafodd y gwr caredig ei siomi yn ei ymddiriedaeth, oblegyd ad-dalodd iddo bob hatling, yn y dull ac ar yr amserau oedd wedi ammodi. Gwelwn law Duw hefyd yn amlwg yma, yn cyffroi calon *estron* i estyn trugaredd pan oedd calon *tad* yn glöedig. "Dyfnder mawr yw ei farnedigaethau." Mae yn debyg fod ei ymneillduaeth yn drosedd o'r mwyaf ysgeler ac anfaddeuol yn nghyfrif ei dad: cawn ei fod yn mhen rhyw amser ar ol hyn wedi myned i ardal Caerfyrddin, ar ymweliad â rhyw gyfeillion oedd ganddo yno; ac o herwydd ei fod yn wr ieuangc duwiol a chy-

meradwy, ac yn berchen dawn gweddi rhagorol, cymhellwyd ef gan y brodyr i ddechreu'r oedfa mewn cyfarfod cyhoeddus; ond pan glywodd ei dad ei fod wedi bod mo'r annuwiol a myned i bwlpud yr ymneillduwyr, ac wedi beiddio gwneyd hyny yn y dref lle yr oedd efe yn byw, digiodd wrtho i'r fath raddau fel na wnaeth siarad ag ef mwyach: ond dywedai ar ol hyn, gan fod ei fab yn meddu'r fath ddawn, pe buasai yn gadael yr ymneillduwyr ac yn ymuno âg Eglwys Loegr, y buasai yn rhoddi ysgol iddo i'w ddwyn i fyny yn offeiriad. Ond yr oedd yn llawer mwy dewisol gan Stephenson i frwydro âg anfanteision yr ymneillduwyr, nâ chroesi ei egwyddorion a llygru ei gydwybod; goddef gwg a digter ei dad, yn hytrach na digio Duw trwy ymuno â sefydliad a gydwybodol olygai yn anysgrythyrol: fel Moses, "dewisai oddef adfyd gyda phobl Dduw," yn hytrach nac ymostwng i dderbyn gwobr anghyfiawder. Yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, pan oedd wedi ymsefydlu yn Nant-y-glo, ac yn casglu at ddyled y capel cyntaf yno, gan ei fod yn myned trwy Gaerfyrddin, galwodd yn nhy ei dad, gan obeithio fod 'stormydd a helyntion amser, ynghyd a threigliad blynyddoedd wedi llwyr ddileu yr hen deimladau digofus gynt, ac y cawsai unwaith cyn ei farw yr hyfrydwch o fwynhau siriol gyfeillach y tad a'i cenhedlodd; ond gomeddwyd iddo ei ddymuniad: ni chafodd gymaint a'i weled. Gwelodd ei chwaer yr hon oedd yn eneth fechan; hysbysodd iddi ei neges, a rhoddodd y llyfr oedd ag enwau'r tansgrifwyr iddi i fyned ag ef i'w dad i'r parlawr; yn mhen ychydig dychwelodd ei chwaer, ac estynodd iddo y llyfr yn nghyd â cheiniog, gan hysbysu mai dyma yr oll a ewyllysiai ei thad roddi iddo. Rhoddodd fel pe buasai yn rhoddi i gardotyn. O eithafion caledrwydd calon tad! Yr oedd ei fab yn euog o'r pechod anfaddeuol o bregethu Crist yn mysg yr ymneillduwyr. Er ein bod yn myned oddiwrth

y pwngc mewn llaw, goddefer i ni, yn y fan hon' nodi, fod y tro hwn yn werth ei goffa fel un hynod yn mysg ei hynodion *casgliadyddol*, sef ei fod wedi bod mo'r daer, nes cael *ceiniog* oddi wrth y cyfreithiwr gelynol o Gaerfyrddin at gapel Caban Gwyn, Nant-y-glo.

Ond i ddychwelyd at ei hanes yn Nghefn-coed-y-cymer; yn mhen talm o amser bu farw y wraig yr oedd yn lletya yn ei thy, a bu raid iddo yntau chwilio am lety newydd; a'r lle y dygwyddodd fyned iddo oedd, ty gwraig weddw o'r enw Mrs. Howells, yr hon oedd yn cadw Maelierfa (*shop*) yn yr ardal hono.

Nid hir y bu yn y lle hwnw cyn iddo ymserchu yn y weddw, a buan iawn yr ennillodd ei serch hithau; a'r canlyniad fu, iddynt ymuno mewn priodas tu a'r flwyddyn 1810. Cafodd o honi dri o blant, un o ba rai sydd yn bresenol yn fyw. Cyfarfu yn y sefyllfa newydd hono yn fuan â phrofedigaethau chwerwon, ac â siomedigaethau mawrion; nid oddiwrth y person ddewisodd, ond oddi wrth ei hamgylchiadau bydol. Nid oedd ef ei hun yn deall ond ychydig oddi wrth fasnach; eto rhoddodd ei orchwyl dyddiol o'i law i'r dyben o fod yn wasanaethgar gyda hi; ond tröodd pethau allan, yn mhen tymmor, yn fwy dyrys nac oeddid wedi meddwl; a'r canlyniad fu, iddynt ddyrysi yn eu hamgylchiadau. Tebygol ei fod ef yn meddwl ei fod yn myned i nyth gynhes ac esmwyth; ond tröodd allan fod drain yn ei gwaelod a'u pigau trwy'r plu, yn ei drywanu nes oedd yn gwaedu, a thyllau yn ei hystlysau, yn gollwng gwynt y gogledd i mewn nes oedd agos a fferu; achoswyd hyn gan yr un peth ac sydd yn achosi methiadau yn gyffredin yn y rhan hon o'r wlad, sef colledion ar ddwylaw y cwsmeriaid. Mae yn debyg i lawer iawn o'r cyfrifon oedd ar ei llyfrau hi cyn priodi, y rhai a ystyrid y pryd hwnw yn gwbl dda, droi allan yn siomedig; ac wedi rhoddi coel

drwg at hyny drachefn yr amser cyntaf ar ol priodi, aeth y llwyth yn rhy drwm i'w ddwyn: chwythwyd ei ddysgwyliadau gobeithlon blaenorol i bedwar gwynt y nefoedd; chwalwyd ei nyth yn ddarnau; a thaflwyd yntau i ddirfawr drallod a blinder, ac i gwbl dlodi; collodd yr ychydig oedd wedi ei gynnilo, a rhoddodd y cwbl oedd ganddo i fyny er ateb ceisiadau ei ofynwyr. Mae tystiolaethau unllais pawb a'i hadwaenent yn profi iddo ymddwyn yn gwbl onest a dihoced yn yr amgylchiad adfydus hwn. Mae un gwr oedd yn dra adnabydus o hono er pan yn 18 oed hyd pan symudodd, o herwydd yr amgylchiad uchod, o'r Cefn i'r Rhwmnai, wedi ysgrifenu atom yn y geiriau canlynol :—

"Anhawdd iawn oedd cael gwell cymydog; cafodd gryn drafferth wedi priodi. * * * Barn pawb oedd, ei fod y pryd hwnw yn ymddwyn yn deilwng iawn. Wedi hyny aeth at ei waith drachefn, i'r *Rumney* i losgi mwn. Ni chlywais wedi hyny, ddim am dano; a thyna ddywedaf, os bu cystal yn y *Rumney* a phan oedd ar y Cefn, ni chafodd neb achos gofid oddi wrtho."

Mae pob un ag a allasom gael, a'i hadwaenent y pryd hwnw, yn dwyn tystiolaethau cyffelyb, ac yn ein hysbysu mai gwrthrych tosturi a chydymdeimlad oedd gan bawb, ac nas gwyddent am neb oedd yn ei feio, nac yn drwg dybio ei gywirdeb. Dyoddefodd lawer o helbul a thrallod yn yr amgylchiad hwn; efallai fwy nac sydd wedi ei hysbysu. Ar ol colli y cwbl, yr oedd ganddo deulu lluosog yn dysgwyl am eu cynnaliaeth oddiwrtho; yr oedd gan Mrs. Stephenson blant o'r gwr cyntaf; a'r rhai hyny, y pryd hwnw, yn ieuaingc ac analluog i gynnal eu hunain, heb law fod ei deulu ef ei hun yn cynyddu.

Yr ydym yn awr yn dyfod at adeg bwysig arall yn ei fywyd, sef ei symudiad o'r Cefn i'r Rhwmnai (*Rumney*); cymerodd hyn le tua'r flwyddyn

1811. Ymddengys fod Mrs. Stephenson, pan yn wraig weddw, yn gydnabyddus â Mrs. Llewelyn, priod J. Llewelyn Ysw., arolygydd gwaith y Rhwmnai, oddiar pan oedd Mrs. Llewelyn yn ferch ieuangc; a chan fod Stephenson unwaith eto wedi ei daflu i drugaredd y don, a hyny yn awr gyda baich trwm ar ei ysgwyddau, meddyliwyd y gallasai yr hen adnabyddiaeth a hanfodai gynt rhwng y foneddiges a'r wraig dlawd, bob yn ychydig balmantu'r ffordd i gael rhyw ffafr i'r teulu adfydus: gan hyny cyfeiriodd ei gamrau tu a'r Rhwmnai, a llwyddodd i gael gorchwyl ar hur, i losgi mwn ar ben yr odynau, gydag un Rhys Shion Rhys, tan yr hwn y bu yn gweithio hyd ymadawiad Rhys oddi yno, ac yna cafodd y ffafr o gael y gorchwyl i'w law ei hun. Yr amser cyntaf wedi ei ddyfodiad i'r Rhwmnai yr oedd pob arwyddion fod ei fyd yn dra gwasgedig, a thlodi wedi dyfod i mewn i'w deulu fel gwr arfog; ond er mo'r gymylog a phruddaidd oedd ei amgylchiadau bydol, cadwai ei grefydd yn ddysglaer a gloew trwy bob gwasgfa. Mae un gwr oedd yn gyfaill mynwesol iddo yn yr amser hwnw, ac yn byw yn yr un gymydogaeth ag ef, yn adrodd am dano fel hyn, "Yr oedd mor dlawd yr amser hwnw fel nad oedd ganddo ond dillad gwael i fyned i'r odfaon ar y Sabboth; gwisgai ei esgidiau gwaith, a hen hosanau duon geirwon, *breeches o velvet* wedi treulio a melynu, a hen *goat* o frethyn du teg treuliedig, yr hon oedd wedi gael yn anrheg gan rhyw gyfaill, ond heb fod yn ei *ffitio*, eithr lawer yn rhy helaeth iddo, a'r het waith oedd ganddo a'r ben yr odynau trwy yr wythnos a wisgai ar ei ben, ac yn y dull hwnw yr elai yn ddifalch ddigon bob sabboth, gyda'r cysondeb mwyaf, i'r odfaon; elai felly tu a Bethesda, Merthyr, pryd na byddai moddion yn yr ardal: ond er gwaeled oedd ei drwsiad, yr oedd yn barchus gan bawb, ac ennillodd rhagoroldeb ei gymeriad iddo luaws o gyfeillion, a byddai

y Parch. M. Jones, pan yn dyfod i'r gymydogaeth, yn gyffredin yn ei roddi i ddechreu yr oedfa. Yr oedd o dymher laith, ddystaw, a mwynaidd iawn; ac yr oedd yn dda gan bawb am dano." Mae arall oedd yn adnabyddus iawn o hono y tymmor tan sylw yn adrodd fel hyn:—

"Yr oedd fel dyn yn un o dymherau mwynaidd a dystaw iawn, ac yr oedd yn dda gan bawb am dano. Fel cristion, yr oedd ei *yaritor* yn hynod yn yr ardal, heb ddim allan o le gan neb i ddyweyd am dano: yr oedd yn ymddangos fel un tan orchwyliaeth y santeiddhad; yr oedd yn berchen yspryd a dawn gweddi mwy na'r cyffredin."

Mae y tystiolaethau uchod, a'u cyffelyb, yn rhoddi ar ddeall i ni y gwyddai beth oedd dal cymundeb â Duw, ac y medrai wneuthur hyny yn absenoldeb llawer o gysuron daearol, fel Habacuc dduwiol, a bod o ran ei yspryd a'i feddwl, "mewn tangnefedd heddychol" yn nghanol gwasgfaon, trwy ei fod yn ymddiried yn ei Dduw.

Cyn gorphen y bennod hon, dysgwylir fe ddichon, gan rai, i ni, grybwyll rhywbeth am amgylchiad a gymerodd le pan oedd a'r y Cefn, yn flaenorol i'w symudiad i Rwmnai, sef ei ymadawiad o Soar, a'i ymuniad â'r rhai a ddechreuasant yr achos yn Bethesda, Merthyr: methasom gael memawr ddim o'i hanes ef yn bersonol yn yr amgylchiad tan sylw, er gwneuthur ymchwiliadau manylaidd yn mysg amryw a'i hadwaenent ar y pryd hwnw, ond cawsom allan i foddlonrwydd, beth bynag oedd yr achos, fod ei ymddygiad ef yn hynod esmwyth, pwyllog, a diddolur; tebygol fod rhyw anghydweliad wedi cymerid lle yn eglwys Soar, yn mherthynas i ryw bethau nad yw yn perthynu i ni wneuthur ymchwiliad yn eu cylch, yr hyn a achlysurodd ymadawiad amrai or eglwys hono, pa rai a ddechreuasant yr eglwys sydd yn awr yn ymgynull yn Bethesda. Y cwbl a allasom gael o hanes ei ymddygiad ar

y pryd yw, ei fod cyn i'r ymraniad gymeryd lle yn defnyddio holl nerth ei ddylanwad i ddarbwyllo y blaid ymneillduol i ymdawelu, a pheidio rhanu yr achos, i oddef cam, yn hytrach nac ymderfysgu, ond wedi llwyr fethu eu darbwyllo i hyny, iddo naill a'i myned gyda hwy, neu eu canlyn yn dra buan, ond ei fod ar yr un pryd yn gymeradwy gan y blaid arosol, ac yn byw ar delerau heddychol â hwy, a'r anwyldeb hanfodai rhyngddo â'r Parch. D. Lewis, a barheid hyd angeu rhyngddo â'i fab Mr. D. S. Lewis yr hwn sydd ers llawer blwyddyn yn ddiacon yn Rehoboth, ac a ddangosai y parch mwyaf i Stephenson, a'r gofal tyneraf am dano hyd ei fedd.

Mae ei symudiad y tro hwn, ar ol newid ei enwad o'r blaen, yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yr anffafriol ac fel nod o anwadalwch, ond wrth edrych arno yn drwyadl, dengys ei fod yn cadw cydwybod ddirwystr, yn ymgais am dangnefedd, ac a'r ol methu llwyddo, yn penderfynu ymuno â'r blaid a olygai efe leiaf yn y bai. Nid ydym yn cadarnhau pa un a oedd ei olygiad yn hyn yn gywir neu nad oedd; ond mai hyny oedd ei olygiad ef, sydd sicr, ac mai oddiar dystiolaeth ei gydwybod, a hyny mewn pwyll ac arafwch, ac nid mewn byrbwylldra a nwyd y gweithredai, sydd amlwg oddiwth ei ymddygiad. Parhaodd yn ei ffyddlondeb a'i lafur gyda'r achos yn mysg y rhai hyny drachefn, ac edrychid arno yn gyffredin fel un yn ofni Duw.

Mae yr oll o'i hanes yn y blynyddoedd hyn yn dangos ei fod wedi ymbriodi â'i grefydd, ac yn ffyddlon iddi er gwell ac er gwaeth. Diau fod yr helbulon a'i cyfarfu yn cael effaith ddwys arno; ac nis gellir meddwl nad oeddent, ynddynt eu hunain, yn ddigonol i ddigaloni a nychu yspryd rhai cryfach o feddwl, a chaletach o deimlad nac oedd ef; ond tan fendith y nefoedd, yr oeddent yn llaw yr Yspryd Glan, yn cynhesu ei serch at bethau

sydd uchod, ac yn cryfhau ei ffydd yn Nuw. Cafwyd yn ei ymddygiadau yn yr amser hwnw, ddeongliad ymarferol ar eiriau'r Psalmydd, "Hyn oll a ddaeth arnom, eto ni'th anghofiasom di, ac ni buom anffyddlon yn dy gyfammod. Ni thröodd ein calon yn ei hol, ac nid aeth ein cerddediad allan o'th lwybr di. Er i ti ein curo yn nhrigfa dreigiau, a thoi trosom â chysgod angeu. (Psalm 44, 17—19.) Yr oedd llinell o ffyddlondeb a diniweidrwydd, wedi ei chydwau â phenderfyniad meddwl, yn ganfyddawy, yn rhedeg trwy ei holl ymddygiadau. Gwynfyd na welem fwy o'r cyffelyb yspryd yn meddiannu tlodion y gweithfeydd yn y dyddiau gwasgedig hyn, fel na byddent yn cymeryd tlodi eu gwisgoedd yn esgus tros gadw eu plant o'r Ysgol Sabbothol, a'u dwyn i fyny mewn dygn anwybodaeth, ac ymddifadu eu hunain o holl freintiau cyhoeddus yr efengyl; ac fel hyny ddinystrio eu heneidiau eu hunain a'u plant, a llygru eu cymydogion, tan yr esgus o nàd yw eu dillad yn drwsiadus. Oni bydd ei waith ef yn myned, yn nghanol tlodi, a'r "hen esgidiau baglog" o'r gwaith, a'r hen het wedi cochi a'r ben yr odynau, a'r hen *goat* oedd ry fawr; oni bydd, meddwn, ei waith ef yn myned yn y wedd hon yn gyson i dy Dduw, yn cael ei ddwyn bore'r farn i gondemnio y rhai a esgeulusant yr odfaon, ac a ddygant eu teuluoedd i fyny yn baganaidd, tan yr esgus o ddiffyg gwisgoedd. Mae yr Arglwydd fel hyn, yn mhob oes, yn codi iddo ei hun ryw dystion ffyddlon ac amlwg, a ganlynant yr Oen trwy ganol tlodi, fel y byddo'r tlodion esgeulus yn ddiesgus ger ei fron yn y farn.

---

## PENNOD III.

Dechreuad ei weinidogaeth—ei Lafur—ei Urddiad—a'i helynt cyn symud i Nant-y-glo.

Y mae yr Arglwydd mawr, yn ei ddoeth lywyddiaeth dros y byd a'i amgylchiadau, wedi cyfaddasu holl olwynion rhagluniaeth ar gyfer eu gilydd, fel y mae eu holl droadau yn ysgogi gyda'r cysondeb perffeithiaf; fel y mae olion ei law ddoeth yn ganfyddadwy, yn mysg pethau ereill, yn nghyfaddasiad yr amgylchiadau cydfynedol â dechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus ef, i'w dymher ddiniwed a llaith, a'i feddwl diragfarn. Yr oedd Mrs. Stephenson yn aelod gyda 'r Bedyddwyr, a pharhaodd felly hyd diwedd ei hoes*, ond er gwahaniaethu oddiwrth ei phriod mewn pwnge fu yn destyn cynhen, ac ymryson rhwng lluoedd, arddangosai yn ei holl ymddygiadau arwyddion o ddoethineb, ffyddlondeb, a gras; fel na chafwyd erioed fynyd o achos i ofidio o herwydd y gwahaniaeth a hanfodai yn eu golygiadau yngylch bedydd. Yr oedd cysylltiad Mrs. Stephenson â'r Bedyddwyr yn dwyn ei phriod hefyd i gyffyrddiad agos â hwynt. Yr oedd rhyw deimlad neillduol o anwyldeb gan y Trefnyddion hefyd ato, yn gymaint o herwydd ei ffyddlodeb a'i fwyneidd-dra presenol, ac o herwydd yr undeb a fuasai gynt yn hanfodi rhyngddynt; dygai hyn ef i gysylltiad a chyfeillach agos â'r ddau enwad; a mynych iawn yr ymgymysgai â'r naill a'r llall o honynt yn eu cyfarfodydd gweddio, ac yn achlysurol yn eu hoedfaon cyhoeddus: ac yr oedd ef a hwythau mo'r

* Yr oedd yn y blynyddoedd diweddaf, o herwydd ei hiechyd a phellder y capel yr oedd yn aelod ynddo, yn mwynhau'r breintiau, ac yn cael cyfranogi o swper yr Arglwydd yn Rehoboth: ond ystyriai ei hun, ac ystyriai y ddau enwad hi, yn aelod gyda'r Bedyddwyr hyd y diwedd.

rhydd oddi wrth ddallbleidiaeth sectol, fel y buasai yn orchwyl anhawdd i ddyeithrddyn i wahaniaethu rhyngddynt. Yr oedd bychandra rhifedi proffeswyr enw Mab Duw yn yr ardal, gyda'r gwahanol enwadau, yn rhoddi cyfle a mantais ychwanegol iddynt ymgymysgu; heb law fod, yn ddiau, y pryd hwnw, lawer llai o deimladau sectol, a mwy o gariad ac yspryd cristionogol ymlith duwiolion o wahanol enwadau, nac sydd yn y dyddiau rhain. Yr oedd Stephenson yntau, o ran tymher ac yspryd, fel pe buasai wedi ei lunio ar gyfer amgylchiadau o'r fath. A than yr amgylchiadau hyny, y dechreuodd ymarfer ei ddoniau pregethol, yn mis Ebrill yn y flwyddyn 1813, sef yn mhen tu a dwy flynedd wedi ei ddyfodiad i Rhwmnai.

Sylwasom o'r blaen ei fod yn dra awyddus, er yn ieuangc, i bregethu Crist yn waredwr i'w gyd bechaduriaid, a'i fod yn rhagori ar ei gyfoedion mewn dawn gweddi; ond yn awr, ar ol ei brofi mewn peiriau, y dirwynwyd amser nodedig yr arfaeth i ben, iddo gael dechreu ar ei orchwyl pwysfawr. Ystyrid yr ychydig Annibynwyr oedd yn Rhwmnai yr amser hwnw yn gangen o eglwys Bethesda, Merthyr; a than ei golygiaeth. Cafodd bob sirioldeb a rhwyddineb gan y gangen a'r fam eglwys; ond yr oedd ei feddwl pruddaidd ef yn cael ei gythryblu yn ddirfawr gan ofnau ac anmheuon, yn nghylch pwysfawredd y gwaith, a'i anghymhwysder ei hun ato. Ymddengys mai mewn cyfeillach fechan o ychydig o'i gyfeillion, yn nhy annedd un Mr. Daniel Rees, yn Tredegar, y traddododd ei bregeth gyntaf. Yr oedd y pryd hwnw yn mysg y Bedyddwyr yn Rhwmnai wr ieuangc, o'r enw Edward Thomas Dafydd, o'r cyffelyb awyddfryd ag yntau yn nghylch pregethu; yr oeddent ill dau yn gyfeillion mynwesol a thra hoff o'u gilydd; o ganlyniad rhoddwyd annogaeth iddynt ill dau i bregethu yr un noswaith yn

nghyfeillach y Bedyddwyr yn Rhwmnai; ac yna pregethasant yn gyhoeddus gyda'u gilydd yn y lle uchod, i gynulleidfa gymysg o'r ddau, ïe, dylasem ddywedyd, o'r tri enwad; Annibynwyr, Trochwyr, a Threfnyddion Calfinaidd.

Yr oedd Mr. John Bowen, pregethwr gyda'r Trefnyddion, yr hwn y soniwyd o'r blaen oedd ei dad yn Nghrist, yn aros y pryd hwnw mewn pwysiaden (*weighing machine*) ger llaw yr odynau lle yr oedd efe yn gweithio, ac yn gyfleus i gael llawer yspaid fer o gyfeillach yn hyd y dydd; a chan fod Mr. Bowen yn wr nerthol yn yr athrawiaeth, a phob amser yn ymhyfrydu yn hyfforddiad yr ieuaingc, cymerodd Stephenson ef fel tad, a chymerodd Bowen yntau fel mab. Ymgyfeillachent bob dydd, ac weithiau lawer gwaith yn y dydd: ymddyddanent am wahanol byngciau yr athrawiaeth, cysondeb y naill â'r llall, pwys y gorchwyl o bregethu, a'u profiadau personol eu hunain, &c. Nid anturiai byth gyffwrdd yn ei bregeth ag unrhyw bwngc na byddai yn arfer ymdrin ag ef, heb gael meddwl Bowen arno yn gyntaf, a byddai fynychaf yn adrodd swm pob pregeth newydd wrth Bowen yn y bwysiaden, i gael ei farn ef arni cyn ei phregethu yn gyhoeddus. Bu hyn yn hynod o adeiladol iddo, nid yn uuig gyda golwg ar y drefn o gyfansoddi ei bregethau, a'u traddodi; ond hefyd er ehangu a chadarnhau ei wybodaeth, a chynesu a nefoleiddio ei yspryd.

Tra yr oedd llawer o'i frodyr yn cael eu cynysgaethu â mantaision yr Athrofaon, a'r Colegau, nid oedd ganddo ef ddim i'w wneuthur ond ymfoddloni ar yr addysgiadau ar cyfarwyddion a allai gael yn y bwysiaden, a bu hyny gasglodd yno, dan fendith Duw, yn effeithiol i'w gymhwyso i helaethach defnyddioldeb na llawer gafodd eu harddfoesu (*polish*) yn mhrif eisteddleoedd celfyddyd a dysg; yr hyn a'n perswadia i gredu, pe rhagorfreintiesid ef â manteision dysg yn more ei oes, y cyrhaeddasai

binacl llawer uwch mewn enwogrwydd a defenyddioldeb. Yr oedd gwr arall o'r enw William Williams, Cwm-shion-mathew, yr hwn oedd flaenor gyda'r Trefnyddion, ac yn berchen gwybodaeth helaethach na'r cyffredin, yn enwedig yn mhethau'r Beibl, yn rhoddi llawer o hyffordiadau iddo; a byddai Stephenson yn treulio llawer awr fuddlol, ddechreu'r nos, yn nhy y gwr hwnw, i ymddyddan ag ef ar wahanol byngciau, ac adroddai wrtho yntau gynhwysiad llawer o'i bregethau cyn eu traddodi. Yr oedd y ddau wr hyn fel dau Athraw duwinyddol ganddo, i ofyn eu cyfarwyddiadau a'u barn o berthynas i wahanol gangenau gwybodaeth. Yr oedd Bowen a Williams yn galfiniaid cryfion; a Stephenson yntau wedi ei hyfforddi, er yn blentyn, gan yr hen wr o Bencelli, yn ngwaith Jones Llanddowror, ac wedi darllain drachefn weithiau amryw o'r hen galfiniaid, ac wedi cadarnhau ei feddwl yn yr athrawiaeth hono fel yr un a farnai yn fwyaf cyson â'r Beibl; fel hyn yr oedd cyd-darawiad chwaeth a golygiad y tri chyfaill yn eu rhwymo yn dynach mewn anwyldeb a chydweithrediad.

Yr oedd yn parhau yn hynod anwyl a derbyniol gan yr enwadau ereill, ac ystyrid ef ganddynt yn bregethwr buddiol, er nad oeddent yn ei ystyried y peth y geilw y byd yn gyffredin yn *bregethwr mawr*: barnent ei fod yn meddu ar gymhwysderau i fod yn ddefnyddiol i raddau helaethach na llawer mwy cawraidd eu talentau, a dyfnach eu dysgeidiaeth. Anrhegwyd ef gan eglwys y Trefnyddion â Mynegair y Parch. P. Williams, yn yr argraffiad mawr, wedi ei rwymo yn dlws, gwerth tua 15s.; rhoddwyd hwn fel arwydd o'r meddyliau uchel goleddent am dano, a'r parch gwresog a deimlent tuag ato; yr hyn oedd yn beth tra hynod wrth ystyried bychandra'r eglwys, anamledd anrhegion o'r fath yr amser hwnw, a'i fod yntau yn perthyn i enwad arall.

Yr oedd yr amser hwnw yn fynych yn suddo i

ddwfn fyfyrdod, fel yr anghofiai lawer tro bresenoldeb ei feddwl pan gyda'i orchwyl. Byddai efe yn gweithio wrtho ei hun ar ben yr odynau, a'i gydymaith hefyd wrtho ei hun oddi tanynt, ac yn nwysder ei fyfyrdod byddai, yn mysg pethau ereill, yn estyn ei ben tros wal yr odyn, ac yn gweiddi, "Thomas", fel pe buasai yn myned i roddi rhyw orchymyn iddo o bartbed ei waith; ond erbyn y deuai Thomas o'r biben ac edryeh i fyny, byddai Stephenson wedi encilio o'r golwg; "Ho ho", meddai Thomas yntau wrtho ei hun, "mae Dafydd wrth ei bregeth": gwnaeth felly gannoedd o weithiau. Yr oedd ei amgylchiadau bydol erbyn hyn yn dechreu gwella: yr oedd wedi cael ei orchwyl ar dasg, yr hyn oedd ryw faint yn well iddo na bod ar hur tan arolygiad arall. Bu yr amgylchiad canlynol hefyd yn fanteisiol iddo: yr oedd ef a'i gydymaith ar y cyntaf yn gorfod arllwys yr odynau yn y boreuau, gyda llosgi y mwn, yr hyn a gostiai iddynt gryn dipyn o amser a thrafferth; ond darfu iddynt, yn mhen amser, lwyddo gyda y gwr oedd yn gyru y mwn oddiwrth yr odynau i'r ffwrnais i'w gymeryd o'r biben ar unwaith, ac nid o'r pentwr a arferent hwy arllwys allan o'r odyn, yr hyn a'u galluogodd, trwy weithio ychydig yn galetach, i gyflawni gorchwyl arall gyda'r cerig calch, heb law llosgi y mwn, ac felly cyflawnwyd ganddynt ill dau, trwy gynnorthwy y cyfaill hwn, waith tri o ddynion; ac er iddynt wneuthur rhyw gytundeb i roddi iddo ryw gyfran o'r elw deilliedig ar ben y cyfrif, bu y cyfaill da hwnw mor gristionogol, pan daeth y tymmor i ben, a gwrthod cymeryd dim am ei drafferth, ond rhoddodd i Stephenson, y cwbl o'r fantais addawedig iddo ef, a pharhaodd i wneuthur felly; ac fel hyn y dechreuodd amgylchiadau wenu arno fel y daeth ei deulu yn fwy cysurus, a'i wisgoedd yn fwy trwsiadus. Dechreuodd hyn gymeryd lle cyn iddo ef ddechreu pregethu, a pharhaodd i ddilyn y gorchwyl caled hwn lawer blwyddyn ar ol hyny,

yr oedd ei alwedigath yn gaeth a'i waith yn galed, er hyny elai ar ol gadu ei waith, nos Sadwrn neu boreu Sabboth, can belled ag Aberhonddu, Llangatwc, New Inn, Pen-y-waen a lleodd pellenig ereill, a dychwelai ar hyd y nos wedi pregethu trwy'r Sabboth, a byddai gyda 'i orchwyl yn brydlon bore Llun. Nid mewn esmwydra a mwythedd yr oedd ei lafur. Deuai yn fisol i Nant-y-glo cyn adeiladu Horeb, neu'r Caban Gwyn fel ei gelwir, a phregethai mewn gwahanol dai annedd, ac weithiau ar yml y ffyrdd pan y gwelid cyfleusdra i gasglu mwy o wrandawyr, pregethodd lawer gwaith yn hen dy y Brynmawr, ac hefyd yn hen dy Solomon lle yr ordeinwyd Dafydd Nant-melyn i gyflawn waith y weinidogaeth, gan y Parch. Edmund Jones mewn cyfarfod parotoad ar nos Sadwrn. Yr oedd yr amser hwnw, fel y dywedodd un gwr, " yn un o'r rhai mwyaf truan ag a welsoch"; a phan ddechreuodd wedi hyny ddyfod yn fwy corffol, byddai y gwr hwnw yn arfer ei gellwair trwy ddywedyd " Nad oedd gras a bloneg ddim yn cydgynyddu."

Yr oedd yr ychydig Annibynwyr oedd yn Nant-y-glo y pryd hwnw tan olygiad Mr. Thomas Penmaen (o herwydd yr oedd eglwys Penmaen wedi hanu ar y cyntaf o Nant-y-glo). Arferai yr eglwys gynnal ei chyfarfodydd cyhoeddus, a gweinyddu 'r ordeinhadau yn hên dy Solomon, neu Gwaen Goodwyn, hyd nes i'r gweithfeydd yn yr ardal gynyddu, a'r trigolion luosogi, yna penderfynwyd adeiladu addoldy: dewiswyd man cyfleus i'r perwyl, a buan iawn fe'i gorphenwyd: traul yr hwn oedd £111 3s. 6c. Galwyd enw y capel, Horeb; ond adnabyddid ef yn fwyaf cyffredin wrth yr enw, Caban Gwyn: cymerodd yr agoriad le ar yr 20fed o Orphenaf, 1820. Yr oedd ar yr un pryd awydd ymlith y brodyr yn Rhwmnai am gael eu corffoli yn eglwys ar eu penau eu hunain, yn annibynol a'r eglwys Bethesda, a chael rhyw un

i'w bugeilio, er nad oeddent ond ychydig o nifer: ac yr oedd y Parch. M. Jones a'r y cyntaf yn annogaethol i hyny am ei fod ef yn methu eu gwasanaethu ond yn anaml. Penderfynasant oll i roddi galwad i Stephenson, oddi gerth un yr hwn a elwid Andro'r Saer, yr hwn oedd yn groes i hyny. Yr oedd anghydweliad hefyd yn mhlith amryw weinidogion ar y mater: dangosasai Jones Bethesda ei hun yn bleidiol i hyny ar y cyntaf; ond erbyn hyn yr oedd ef ac Evans o Soar yn ei erbyn: o'r tu arall yr oedd Hughes Groeswen, Evans Ynysgou, a Lewis Aber, yn ei bleidio; ac o herwydd yr anghytundeb hwn rhwystrwyd yr urddiad tros flwyddyn. Gofynwyd o'r diwedd yn Nghymanfa'r Pasg, 1821, yn y Cymer, am ganiatad i'w urddo; ond methwyd llwyddo; adnewyddwyd y cais yn mhen ychydig drachefn yn y cyfarfod cwarterol gynnaliwyd yn yr Aber, a llwyddwyd, a phendyrfynwyd diwrnod yr urddiad, yr hwn a gymerodd le ar y 27aig o Fehefin, 1821. Daeth amryw weinidogion o gymanfa Hermon, Penderyn, i'r cyfarfod; ond o herwydd fod Evans Soar, a Jones Bethesda, yn wrthwynebol i'r urddiad, bu'r gweinidogion yn pregethu yn Merthyr, wrth ddyfod tuag yno, yn nghapeli y Trefnyddion, a'r Bedyddwyr, ac yn Ynysgou. Nid oedd y pryd hwnw yn cyfansoddi yr eglwys Annibynol yn Rhwmnai ond 16 o aelodau; ac arferent gynnal eu cyfarfodydd yn nhy annedd Stephenson. Adeiladwyd gorlawr (*stage*) wrth wyneb ei dy i gael cynnal cyfarfodydd yr urddiad allan: ond ni bu raid wrthi, o blegyd rhoddodd y Trefnyddion eu capel at eu gwasanaeth ar yr achlysur, ac yno cynnaliwyd y cyfarfodydd, yn y drefn ganlynol:—

Yn y boreu dechrewyd trwy weddi gan y Parch. D. Thomas Nebo; traddodwyd y bregeth ar natur eglwys efangylaidd gan y Parch. Evans Ynysgou, oddi wrth Col. 1, 18: gofynwyd yr holiadau arferol gan y Parch. Lewis Aber; dyrchafwyd yr

urdd weddi gan y Parch. Davies Pen-y-waen; annerchwyd y gweinidog gan y Parch. Hughes Groeswen, oddi wrth Ioan 4, 34, yr hwn yn ei ddull ffraeth arferol, a ddywedai ar ol darllen ei destyn, "Nid oes rhyw waith caled iawn genyf heddyw; dim ond un sydd genyf i bregethu iddo, ac un bach yw hwnw": annerchwyd yr eglwys gan y Parch. E. Jones, Pont-y-pool, oddi wrth Heb. 13, 7. Am dri yn y prydnawn, dechreuwyd yr oedfa gan y Parch Morris Tredegar; a phregethodd y Parchedigion J. Harrison Aberdare, a Davies Cymer oddi wrth Ioan 40, 29, a Seph. 3, 17. Yr oedd ereill yno, ac wedi bod yn pregethu y nos o'r blaen. Yr oedd Thomas o Benmaen wedi ei luddias gan afiechyd i fod yn bresenol. Ymddangosai y gwahanol enwadau yn yr ardal fel wrth eu bodd yn neillduad Stephenson i gyflawn waith y weinidogaeth, ac fel pe buasent am drechu eu gilydd mewn caredigrwydd ar yr achlysur.

Pan oedd y Parch E. Jones o Bont-y-pool yn myned i'r urddiad cyfarfyddodd â'r Parch D. Williams o Lanwrtyd, gofynodd Williams iddo i ba le yr oedd yn myned. "I ordeinnio'r *bachgen da* acw, Dafydd Stephenson"; atebai yntau. Mae yn syndod i feddwl y parch a'r anwyldeb a deimlid tuag ato gan bob enwad yn ei ardal, a chan y duwiolion yn mhob lle yr adwaenid ef, pan ystyriom mai gweithiwr tlawd ar ben yr odynau mwn oedd. Diau fod y teimlad hwn wedi ei gynyrchu yn mynwesau cynifer o gyfeillion gan ei dduwioldeb mawr, a'i yspryd diragfarn ac anmhleidiol.

Yr oedd Mr. Thomas o Benmaen yn awr yn heneiddio, ac fel y crybwyllwyd, analluogwyd ef gan afiechyd i bresenoli ei hun yn yr urddiad; ac yr oedd y Sabboth canlynol yn dygwydd bod yn Sabboth cymundeb yn Horeb Nant-y-glo; o ganlyniad anfonodd at Stephenson i ddeisyfu arno i fyned drosodd i weinyddu iddynt yr ordinhad y Sabboth hwnw; cydsyniodd yntau â'i ddeisyfiad, fel

y byddai bob amser yn dra pharod i wneyd yr oll a allai i lenwi bylchau fyddai yn weigion, ac felly cafodd y fraint, am y tro cyntaf, o dori bara yn Horeb, Nantyglo, y Sabboth cyntaf wedi ei urddo yn weinidog i eglwys o 16 o aelodau yn Rhwmnai. Yr oedd gan Mr. Thomas olwg mwy na chyffredin arno, ac ymddiriedai iddo i ddyfod, yn dra aml, i Nantyglo, a bod yn ofalus am yr ychydig braidd oedd yno fel pe buasent ddiadell iddo ei hun. Bu felly am tros tu a dwy flynedd. Darfu i Mr. Thomas yn fuan ar ol hyn, o herwydd cystudd a methiant, annog yr eglwys fechan hono i gymeryd Stephenson yn weinidog i'w bugeilio, gan ei fod ef yn annalluog i ofalu am danynt gyda chysondeb; a dygodd ef i mewn i fod yn weinidog iddynt mewn ffordd lled ddyeithr: dywedodd wrthynt ei fod ef yn eu rhoddi i fynu, a'i fod wedi ceisio gan Stephenson i gymeryd eu gofal yn ol llaw; ac felly bu; daeth yno heb un dewisiad, ac yn ol penderfyniad Mr. Thomas. Ac ni bu chwaith un sefydliad neillduol arno fel gweinidog iddynt, yn y dull y gwneir yn gyffredin ar achlysuron cyffelyb. Ond meddyliwn nad oedd un anfoddlonrwydd i hyny yn mysg y brodyr: ac mae yn amlwg fod Pen yr eglwys hefyd yn foddlon. Fel hyn nis gallwn gysylltu un dyddiad penodol â'i ymgymeriad â gofal eglwys Horeb, Nantyglo, ond dywedyd i hyny gymeryd lle tua'r flwyddyn 1823. Nid oedd rhif eglwys Horeb y Sabboth cyntaf y bu yno yn tori bara ond tu a 18; ond yr oeddynt wedi cynyddu i 22 y pryd hwn. Deuai, o hyny allan, ddau Sabboth o bob mis yn gyson, heb law nosweithiau yr wythnos i Nant-y-glo; ac yn wastadol dychwelai adref cyn gorphwys. Yr oedd gofal yr eglwys yn Rhwmnai hefyd arno; a llafuriai yn gyson a chaled rhwng y ddwy, heblaw ei fod yn gweithio yn galed iawn ar hyd y dydd. Nid oedd y teithiau blinderus i Nant y-glo, ac yn ol drachefn i Rhwmnai, heb eu helbulon; nodwn er engrhaifft,

ddau amgylchiad nodedig a ddygwyddodd iddo, yr oedd ryw dro wedi dyfod trosodd i bregethu mewn ty annedd yn nyfnder y gauaf, pan oedd y ddaear yn orchuddiedig gan eiria, yr hwn oedd i raddau wedi dadlaith o herwydd cyfnewidiad yr hin, o ganlyniad gwlychodd ei draed fel y gorfu arno gael newid ei esgidiau a'i hosanau, a rhoddwyd ei esgidiau ger llaw y tan i sychu. Ar amser yr oedfa, pan tu a haner pregethu, cododd ei olwg tu â'r tân, ac er ei fawr gythrybliad, gwelai un o'i esgidiau yn llosgi, ac yn dechreu mygu; ond yr oedd ei feddwl llaith yn rhy yswil i ddyweyd wrth neb, tra ar haner ei bregeth, am ei symud; edrychai y bobl arno ef, a chadwai yntau ei sylw ar yr esgid, ac mewn dyryswch mawr, yn methu penderfynu pa un a'i myned yn mlaen a wnelai â'i bregeth, neu ynte ddywedyd am symud yr esgid; p'odd bynag, pregethu a wnaeth, a gadu yr esgid i fyned yn aberth llosg i dawelwch yr oedfa; ac esgid gwr y ty gafodd i fyned adref y noswaith hono. Ryw noswaith arall wrth ddychwelyd adref yn hwyr, pan ar y mynydd rhwng Tredegar a Rhwmnai, arweiniwyd ef gan *Jack lantarn* ar hyd y corsydd trwy y nos, nes oedd yn ddydd tranoeth: meddyliodd ef ar y cyntaf mai dyn a chanwyll oedd yn myned o'i flaen, yna croesodd ei lwybr i'r perwyl i'w ddal; ond buan iawn ei harweiniwyd nas gwyddai i ba le: o hyny allan byddai yn galw yn Syrhowi yn nhy brawd o'r enw John Williams, ac yn peri iddo ef ei hebrwng tros y mynydd hyd Rasau-bryn-oer, ac yna elai ei hun, gan adu i'r brawd hwnw ymdaro fel y gallai â'r *Jack lantarn* wrth ddychwelyd.

[library stamp]

## PENNOD IV.

Ei symudiad i Nant-y-glo, a'i helynt yno.

Wedi bod tua blwyddyn a haner a gofal eglwys Nant-y-glo yn gyflawn arno, dygwyddodd iddo golli rhyw gymaint ar ei amser yn dyfod at ei waith bore Llun yn y gauaf, ar ol bod yn New Inn ar y Sabboth; a chan bod J. Llewelyn, Ysw., wedi ymado â Rhwmnai, a goruchwilwyr y gwaith wedi eu newid, cafodd rybudd i ymado o herwydd colli ei amser; a thrwy hyn terfynodd â phob gorchwyliaeth fydol. Mynai Mr. Thomas ac ereill iddo yn ganlynol symud i Nantyglo, yr hyn a wnaeth. Yr oedd yr eglwys tan ei ofal yn Rhwmnai wedi cynyddu erbyn hyn i tu a 60 o nifer, a'r brawd John Davies wedi dechreu pregethu, yr hwn wedi hyny a urddwyd yn fugail i eglwys Rhwmnai yn ei le ef. Bu yn myned drosodd unwaith yn y mis i bregethu a thori bara i'r eglwys yn Rhwmnai am oddeutu blwyddyn a haner wedi dyfod i Nantyglo i fyw. Yna cymhellodd hwynt i neillduo Davies at y gwaith yn ei le, ac felly y gwnaed: yr oeddent yn anwyl iawn gan eu gilydd, ac yn gynnorthwyol i'w gilydd; a pharhaodd yr anwyldeb rhyngddynt hyd nes y cymerwyd Davies dduwiol adre oddiwrth ei waith at ei wobr. Davies oedd y cyntaf ag a godwyd tan ei ofal ef i'r weinidogaeth.

Ymadawai â Rhwmnai gyda chalon friw, a theimlid hiraeth cyffredinol ar ei ol yntau, yn neillduol gan yr eglwys: ond yr oedd amgylchiadau ynghyd a llais rhai parchus o'i frodyr yn galw am hyny. Cyfarfu drachefn wedi symud yno â llawer o brofedigaethau chwerwon; yr oedd ei amgylchiadau bydol yn isel a gwasgedig; a diamhau

iddo fyned trwy fwy o gyfyngder ar y pen hwn nac mae un dyn wedi gael ei wybod. Nid oedd yr eglwys fechan yn gallu, ond yn anaml, wneyd tros bunt yn y mis at ei gynal ef a'i deulu; a thu ag at gael eu bywioliaeth byddai Mrs. Stephenson yn ymdrechu i olchi i'r boneddigion oedd gerllaw, ac fel hyny yr ennillai lawer swllt i'w cynnorthwyo i gael eu tamaid.

Ryw dro teimlodd brawd o'r eglwys anesmwythder yn ei feddwl yn eu cylch, ac aeth at Mrs. Stephenson i ofyn pa fodd yr oedd arnynt: dywedodd hithau na ddywedai byth wrth un dyn pa wedd yr oeddynt yn byw: ei bod wedi penderfynu nas gwnelai achwyn ar yr eglwys, na dadguddio ei hiselder, os gallasai hi a'i theulu gael ond yn unig fara a dwfr. Rhoddodd y brawd hwnw archeb (*order*) am werth pump swllt o'r *shop* iddynt ar ei enw ei hun, yr hyn oedd yn dderbyniol iawn gan y teulu helbulus. Yr oedd Mrs. Stephenson wedi ei geni a'i magu mewn ardal gyfagos i'r lle yr oedd G. Brewer, Ysw., a'i foneddiges yn byw pan yn ieuaingc, ac wedi bod drachefn yn gwasanaethu ger llaw iddynt, a thrwy hyny yr oedd yn adnabyddus iawn i'r teulu parchus hwnw: wedi iddynt ddeall amgylchiadau Stephenson a'i deulu, dangosasant eu bod yn teimlo trostynt, ac annogasant Mr. a Mrs. Stephenson i dalu ymweliadau aml â'u ty hwy, lle y cawsant lawer tamaid cysurus, a greso da; rhoddasant hefyd le i'w mab, yr hwn oedd y pryd hwnw yn fachgenyn ieuangc, i wneyd rhyw fan orchwylion a negesau iddynt. Bu caredigrwydd y boneddwr hwn a'i foneddiges yn gymhorth mawr iddynt, pe amgen, mae yn dra thebyg y dyoddefasent lawer o eisiau.

Yr oedd hefyd yn cael llawer o helbul yn ei gysylltiad â'r achos. Teimlai iselder a thrallod meddwl dirfawr wrth weled can lleied yn cyrchu i wrando, â nemawr yn gofyn y ffordd tua Seion;

meddyliai yn aml, gyda theimladau pruddglwyfus, wrth edrych ar Seion mo'r ddieppiledd, pechaduriaid mo'r ddidaro, a'r weinidogaeth mo'r ddilwydd, ei fod wedi ruthro i'r gwaith heb gael ei alw gan Dduw. Trallodid ef hefyd yn fawr o herwydd anwybodaeth a thywyllwch amryw o'r ychydig oedd tan ei ofal. Mae angrheifftiau tarawiadol o hyn wedi eu crybwyll i ni gan gyfeillion adnabyddus o'i sefyllfa yr amser hwnw; cawn nodi un o honynt: ryw dro yn y gyfeillach eglwysig galwodd ar wraig oedd yno i ddywedyd ei phrofiad, ac wedi gofyn iddi pa fod yr oedd yn teimlo. "Da iawn" medd hithau "yr wyf lawer yn well, mae'r *purging* wedi 'm gadu er ddoe". "Nid hyna wyf yn ofyn," ebe Stephenson, "Pa fodd y mae arnoch am fater eich enaid." "O da iawn", medd hithau," mae fy enaid yn dda ddigon, nid oes dim yn y byd arno." "Ond," meddai Stephenson. "a ydych yn teimlo dim oddiwrth euogrwydd pechod" "O ydwyf," atebai, "mi ffraeais â Betsy —— ddoe a gwn fy mod wedi gwneyd drwg." Trallodid ei feddwl yn fawr hefyd yn y cyfnod hwn gan iselder defnyddiau canu. Yr oedd y gwr a arferai flaenori canu wedi gwrthgilio, ac nid oedd yno neb a allasai flaenori yn y gorchwyl hwnw yn ei le, ond daeth gwr ieuangc, digrefydd o'r gogledd i fyw i'r lle ar y pryd, yr hwn oedd yn berchen dawn a gwybodaeth helaeth mewn cerddoriaeth, annogwyd ef i ymaflyd yn y gorchwyl, ac felly y gwnaeth; a bu yn ffyddlon iawn i addysgu ereill; ond anfoddlonai rhai o'r hên bobl yn fawr wrth fod dyn digrefydd, ac ieuangc o ddyddiau yn cymeryd mewn llaw waith mo'r bwysig a dechreu canu, ac addysgu yr ieuengctyd; ond yr oedd dwy ferch ieuangc, yn perthynu i'r eglwys, y rhai a gymerasant arnynt y gorchwyl o berswadio yr hên bobl, a gwneuthur heddwch, ac fel nad yw y rhyw (ac yn enwedig y rhai ieuangc o honynt) nemawr byth yn methu yn y peth a gymeront

mewn llaw; felly hefyd llwyddodd y ddwy forwynig deg hyn, a llwyr ddarbwyllwyd yr hên bobl i adu i'r canu fyned rhagddo. Bwriwyd "y cythraul canu" hwn allan trwy ddylanwad y merched rhinweddol hyn, ac aeth y rhan hono o'r gwaith yn mlaen yn llwyddianus o hyny allan.

Yn y cyfamser cafwyd gofid oddi wrth wraig oedd yn aelod yno, o herwydd rhyw achwyniad yn erbyn puredd ei chymeriad, yr hyn nis gellid cael profion o hono, ac felly er yn fater anmheus, ac yn fater a barai i elynion crefydd gablu, a chyfeillion ofidio; eto yr oedd yn beryglus i'w drin. Yr oedd rhai o'r eglwys hefyd yn ei phleidio, a pherthynasau y rhai oedd fwyaf tan yr achos yn dyfod i anair yn y cyhuddiad. Anfonwyd at y wraig i ddyfod i'r cyfarfod eglwysig, ond gwrthododd ufyddhau; yn wyneb hyny diarddelwyd hi am anufydd-dod i'r eglwys, heb fod achos ymyraeth â'r hyn oedd beryglus i'w drin. Ymadawodd rhai o herwydd hyn, a buont yn ceisio ffurfio achos tu ag ardal Pont Clydach, yr hyn a dröodd allan yn fethiant hollol. Yr oedd meddwl gwan Stephenson erbyn hyn yn dechreu teimlo ergydion y tonau; gofidiai yn ddwys am ogoniant Duw, ac anrhydedd yr achos; ac nid oedd heb deimlo ofnau y buasid yn rhoddi swyddogion y gyfraith ar ei warthaf i'w flingo am ddiaelodi 'r wraig a soniwyd, ac ofnai gyda llaw y buasai yr ychydig bach oedd yn gael at ei gynnal yn cael ei leihau trwy ddyryswch yn yr eglwys; ac yr oedd eisoes wedi gorfod ymadael â'r annedd oedd yn byw ynddi, a chwilio am annedd arall yn y Blaenau; a chwythid allan lawer o fygythion dialgar ereill yn ei erbyn: ond ymddengus fod ei gyfeillion yn teimlo yn gynhes tu ag ato, o blegyd anrhegwyd ef gan aelodau yr Ysgol Sabbothol â phâr o ddillad newydd; a dangosai yntau ei ddiolchgarwch trwy ddyfod bore y Sabboth cyntaf eu gwisgodd, heibio 'r capel, wrth fyned i Rhwmnai, i'w dangos i'r ysgol, gan

ymgrymu a diolch am danynt. Wedi hyny canfuwyd fod ei esgidiau yn gollwng dwfr, a gwnaed tansgrifiad yn mysg rhai o'i ffryndiau i gael botasau iddo; yn mysg y merched, aed yn olaf at un o'r ddwy fuasai yn bwrw 'r "cythraul canu" allan, rhoddodd 2s. 6c.; ond digiodd rhai o'r lleill wrthi am roddi cymaint yn fwy na hwy. Cafodd y botasau ac ymddangosai yn hynod foddhaol. Cafodd nerth i ddal yn bur ddigyffro a dyoddefgar! "nes yr aeth y llid heibio". Os oedd yr hen "brophwyd" o Bont-y-pwl yn meddu llawer o ffydd, yr oedd Stephenson yn meddu cyfran helaeth o ddyoddefgarwch ac amynedd. Yn amser y gofid uchod dygwyddodd fod y cyfarfod cwarterol cyntaf i fod yn Nant-y-glo, ac yr oedd y rhai a arferent letya'r gweinidogion wedi anfoddloni yn yr amgylchiad a nodwyd, ac nis gwnaent ddim tuag at y cyfarfod; dysgwyliai yntau amryw, ac nid oedd ganddo le i letya neb ond cymaint a annai yn ei dy bychan ei hun; aeth â'i gwyn at G. Brewer, Ysw., yr hwn a'i cynnorthwyodd trwy fyned â'r gweinidogion i'w dy gwych ei hun; ac ar gais Stephenson, aeth i waered i'r Casnewydd i gyrchu Dr. Lewis yno yn ei gerbyd, ac ar ddiwedd y cyfarfodydd hebryngodd ef yn ol drachefn. Daeth Mr. a Mrs. Thomas, *shop*, Brynmawr, i'r odfaon ar yr achlysur, yr hwn oedd y tro cyntaf iddynt fod yn Horeb, cymerasant hwythau rai o'r dyeithriaid; ac er eu bod y pryd hwnw ill dau yn ddigrefydd, bu eu ty o hyny allan yn artref i'r gweinidogion ddeuent heibio tra y buont byw, ac nid hir y bu Mrs. Thomas cyn teimlo gwasgfa am ei chyflwr, ac ymuno â'r eglwys.

Bu sylw ar achos y terfysgwyr yn nghyfarfod y gweinidogion, pryd y dywedai'r Parch. Ebenezer Jones, "Nad oedd dim a wnelent hwy â rhwygwyr Pont Clydach"; aeth cynnulleidfa y rai hyny druain o ganlyniad i'r dim, a llwyddodd yr achos yn Horeb o hyny allan. Ar ol llawer o helbulon a'r

rhai hyny yn cael eu canfod yn y wedd fwyaf haerllug gan ei feddwl pruddaidd ef, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl yn Horeb, a chofiodd ei was tlawd a phrofedigaethus trwy lwyddo ei weinidogaeth i ennill y werin i'w wrando, ac i ddychwelyd eneidiau at y Gwaredwr nes aeth y "Caban", mewn amser byr ar ol ei ddyfodiad ef i Nant-y-glo, yn rhy gyfyng i gynnwys y dorf, a gwelwyd fod yn rhaid helaethu lle y Babell. Erbyn hyn amcanai satan ddichellgar eu dyrysu drachefn trwy eu gyru benben yn nghylch y lle yr adeiledid y capel newydd, yr oedd Brynmawr (oddeutu milldir o Horeb) erbyn hyn yn dyfod yn lle poblog, a'i adeiladau newyddion yn lliosogi, ac yn cael eu rhesu yn ystrydoedd ar ffurf tref, er nad oedd ond ychydig mewn cydmhariaeth i'r hyn yw yn awr; a'r lle yr oedd Horeb ar gongl anghyfleus ac annhrigianol: gan hyny mynai rhai gael y capel newydd ar y Brynmawr; ac ereill, (ac yn eu mysg un gwr cyfrifol) yn groes iawn i hyny. P'odd bynag ochr y Bryn ennillodd, ac ymadawodd rhai o'r ochr arall â'r achos tros flynyddoedd o herwydd hyny. Wedi penderfynu'r lle, yr anhawsder nesaf oedd cael modd at adeiladu, o blegyd yr oedd aelodau 'r gynulleidfa oll yn dlodion fel nas gallent wneyd nemawr; ac nid hawdd ychwaith fuasai iddynt gael neb i ymddiried arian ar log iddynt. Fel yr oedd Stephenson ryw dro yn adrodd ei gwyn yn nhy Mr. John Thomas, maelanydd, (*shopkeeper*) Brynmawr, dyna Mrs. Thomas yn troi at ei gwr ac yn dywedyd "Jack, rhaid i ti gymeryd ato; nid oes dim arall i'w wneyd" ac felly bu. Yr oedd Mr. a Mrs. Thomas ill dau y pryd hwnw yn ddigrefydd. Cymerodd Mr. T. yr holl faich arno ei hun; gofalodd am y gwaith, darparodd ddefnyddiau, a gosododd ei geffyl ei hun i yru y rhan fwyaf o gerig ato yn ddidraul, edrychodd ar ol yr adeiladwyr, gofalodd am arian, talodd am y defnyddiau ac i weithwyr y gwaith, nes ei orphen,

a gorphenwyd y capel eang a phrydferth am £700, a galwyd ef Rehoboth, o herwydd fod yr Arglwydd yn ehangu arnynt; gofalwyd drachefn gan yr un am y ddyled a'r llog nes ei llwyr ddileu, a pheth bynag oedd y llog talodd Mr. John Thomas y cwbl o'i logell ei hun heb ofyn dim i'r eglwys ond y corff. Oni bydd y gwr ffyddlon hwn, er yn ddibroffes, yn dyst cyflym yn y farn yn erbyn proffeswyr cyfoethog a adawant i achos Duw, o barth ei amgylchiadau fyned i'r ffos o'u rhan hwy? ni ofalant beth a ddelo o arch Duw ond iddynt gael cadw eu hysgwyddau cryfion eu hunain rhag teimlo y baich. Agorwyd y capel newydd ar y 7fed a'r 8fed o Dachwedd, 1827, a phregethodd y Parchedigion canlynol ar yr achlysur, sef:—R. Jones, Cwmbach; J. Jones, Talgarth; D. Davies, New Inn; H. Jones, Tredegar; M. Jones, Merthyr; L. Powell, Caerdydd; D. Lewis, Aber; W. Lewis. Tredwstan; G. Hughes, Groeswen; T. Jones, Dowlais; H. Owen, Aberafan; M. Jones, Neuaddlwyd (yn awr o'r Farteg); a J. Harrison, Aberdâr. Rhif yr aelodau y pryd hwn oedd 70 a'r Diaconiaid oeddent Meistriaid Miles Miles, Howell Lewis, William Phillips, a David Thomas.

Pan oeddid yn son am symud meingciau a dodrefn yr hen gapel i'r newydd cyn ei agor, yr oedd y gwr cyfrifol y cyfeirwyd ato yn flaenorol yn gwneyd cryn dwrw a therfysg; ond dygwyddodd i'r Parch. Arthur Jones, Bangor, ddyfod heibio ar ei daith yn y cyfamser, a phregethu yn Horeb ganol dydd: wedi deall yr amgylchiad, cynghorodd y cyfeillion oedd yn bresenol ar ddiwedd yr oedfa i alw yr eglwys ynghyd, a myned yn un dorf, yn yr hwyr wedi i'r bobl rhoddi heibio eu gorchwylion, i gymeryd y meingciau a'r dodrefn oll ymaith ar eu hysgwyddau, a chanu yr 8fed adnod, o'r 132 Psalm wrth gychwyn, "Cyfod, Arglwydd, i'th orphwysfa; ti, ac arch dy gadernid"; ac yn ol ei gyfarwyddyd, cyfarfuwyd yn feibion ac yn wyryfon

ac yr oedd yn ddyddorol iawn i weled y fudfa yn myned yn orymdaith luosog, rhai yn wylo yn hidl wrth adael yr hen "Gaban anwyl;" lle y mwynhasent gymaint o gymdeithas â Duw a'i bobl; a'r lleill yn ysgafn eu calonau, ac yn orfoleddus eu hagweddau wrth feddwl fod ganddynt deml gymaint amgenach i addoli eu Duw. Gwnaed yr hen bwlpud yn sedd i Mrs. Stephenson, yn y capel newydd.

Crybwyllasom yn flaenorol fod yr Arglwydd wedi cofio ei was, ac ymweled â'i achos â llwyddiant mawr. Yn amser dechreuad yr adfywiad hwn, yr oedd wyth o bersonau, saith o feibion ieuaingc ac un ferch, wedi cael ar eu meddwl i rhoddi eu hunain i Dduw a'i bobl yn y Caban Gwyn ychydig cyn agoriad Rehoboth; wedi i Stephenson roddi deheulaw cymdeithas i saith o honynt, gan ddywedyd wrth bob un, "Yr wyf fi yn roddi i chwi ddeheulaw cymdeithas, yn enw y Tad, y Mab, ar Yspryd Glan, &c.," gan gymaint oedd ei bryder anghofiodd yr wythfed: troai yn ol at fwrdd y cymundeb, a'i deimladau yn chwyddo allan; a'i eiriau yn diferu fel y gwlith; dywedwyd wrtho fod un arall heb ei dderbyn; ac yr oedd y dorf eisoes dan deimladau tra drylliog; dychwelodd at hwnw, ac estynodd ei law iddo gan ddywedyd, "Yr wyf yn dy dderbyn di yn enw y Drindod o bersonau, &c," ar hyn torodd y dorf allan i floeddio; ac yn y modd hwn dechreuodd yr adfywiad, yr hwn a aeth rhagddo wedi symud i'r capel newydd, ac a barhaodd, o'i ddechreu, yn agos i dair blynedd; a byddid yn gyffredin yn derbyn 10, 15, 20 neu 30 bob mis. Yr oedd Stephenson hyd yr amser uchod yn byw islaw Nant-y-glo ger gwaith Glyn Nant-y-glo; ond symudodd tuag amser agoriad Rehoboth i'r Brynmawr, i dy helaethach a mwy cyfleus, ac o fewn taith ychydig fynydau i'r capel, lle y treuliodd y gweddill o'i ddydd gyda mwy o gysur, ond mewn llafur diflino; ac yno y gorphenodd ei yrfa ddefnydd-

iol mewn tangnefedd. Ymddengys fod pwys a gofal y gwaith, ac awydd am achub eneidiau yn gwasgu yn ddwysach ar ei feddwl ar ol cael y capel newydd a symud iddo, nac erioed o'r blaen. Hyspysir ni ei fod lawer noswaith yn methu rhoddi hun i'w amrantau o herwydd achos ei Dduw a sefyllfa dragwyddol eneidiau dynion; a'i fod, fel ei feistr ar y mynydd, wedi treulio llawer noswaith ddigwsg i weddio trwy y nos; er hyny byddai yn hynod ochelgar rhag amlygu ei deimlad i neb ond i'w Dduw; oddigerth a ganfyddid ac a gesglid oddiwrtho yn y pwlpud, yn nerth ei awydd a'i ddirfawr bryder am achub eneidiau. Yr oedd yn cadw y teimladau hyn, ac yn enwedig ei ing a'i ymdrech mewn nosweithiau cyfain o weddio dirgel, mo'r guddiedig oddi wrth ddynion, fel nad yw yn debyg y cawsai neb eu gwybod cyn boreu mawr dadguddiad dirgelion dynion, oni buasai fod tystiolaethau am hyny wedi eu gadu gan ei briod cyn ymado, yn mysg ei chyfeillion a'i chyfeillesau. Diau mae yn yr ymdrechiadau Israelaidd hyn yr oedd rhan fawr o "guddiad ei gryfder": cynyddodd yr achos tan ei ofal yn ddirfawr yn y cyfnod hwn; byddai lluoedd wedi eu dwysbigo trwy ei weinidogaeth yn ymofyn y ffordd tu a Seion: gwelid ar Sabboth pen mis dorf yn dyfod yn mlaen i gael deheulaw cymdeithas, a bu yn derbyn cynifer a 30 yr un Sabboth; a hyny ar amserodd nad oedd dim cyffro cyffredinol trwy 'r wlad. Ymddengys ei fod wedi lled brophwydo am y llwyddiant hwn cyn symud i'r Brynmawr, o blegyd ychydg cyn agoriad Rehoboth: dygwyddodd i ddau frawd ymryson yn herwydd rhyw dail perthynol i'r Caban Gwyn, yr hwn a arferent gael ar ryw ammodau i wrteithio eu gerddi; dywedai wrthynt yn ddifrifol iawn, "Bobl peidiwch ffraeo yn nghylch y tail o blegyd cawn wrtaith o'r nefoedd ar y Brynmawr bron yn union": ac felly y bu mewn gwirionedd; cafwyd yn fuan iawn

driniaeth yr yspryd ar galonau creigaidd ac aflan ugeiniau, nes eu gwneuthur i flaguro mewn rhinwedd, a ffrwythloni mewn santeiddrwydd. Ymdrechodd yn ddiwyd hefyd yn y cyfnod hwn i ddileu 'r ddyled oedd ar y capel. Bu yn achos y capel hwn (er na bu felly yn achos y capel diweddaf) yn casglu ar hyd y wlad, a byddai yn arfer dwyn dwy gôd gydag ef i'w deithiau casglyddol, un i ddal yr arian a'r llall i gadw y pres, (tebygol nad oedd fawr aur yn cael ei roddi iddo y pryd hwnw). Wedi iddo ddileu y ddyled, bu amryw weinidogion yn ceisio y codau hyny ganddo am eu bod meddynt yn "gydau *lwcus*:" "Na" meddai yntau "nid ymadawaf â'r ddau gwdyn bach tra byddwyf byw." Trwy lafur diwyd ac ymdrech cyson, gartref ac oddi cartref (ond yn benaf gartref) dileodd yr holl ddyled hono yn yr amser byr *o ddwy flynedd a deng mis.* Mae yn syndod meddwl fod eglwys oedd, mewn cydmhariaeth, ond ychydig o aelodau, a'r rhai hyny y rhan amlaf yn dlodion, wedi gwneuthur cymaint mewn can lleied amser; ond dengys beth ellir wneyd ond cael penderfyniad meddwl a chysondeb gweithrediad.

Cyfnod pwysig arall drachefn, yn ei gysylltiad â'r eglwys, oedd urddiad diaconiaid, yr hyn a gymerodd le y 1af o Ionawr, 1832, pryd y neillduwyd Mri. Thomas Williams, Lemuel Smith, D. Seys Lewis, John Davies, a William Rees, i'r swydd hono: cymerodd hyn le yn dangnefeddus a diflinder; ac yr oedd nifer yr aelodau erbyn hyn wedi cynyddu i 250. Cydnabyddai law yr Arglwydd yn neillduol yn cadw "y cythraul dewis swyddogion," (yr hwn a ddychrynai yn fawr) rhag dyfod i mewn ar yr achlysur: ac yr oedd yn gysur a chalondid i'w feddwl gael dynion bywiog a medrus i'w gynnorthwyo: a thröodd neillduad y rhai hyn allan, ar y cyfan, yn gysur iddo ef ac yn fantais i'r achos; a dangosodd rhai o honynt fedrusrwydd mwy na chyffredin yn llywyddiad y gwaith.

Ond ni fedrai satan gysgu wrth weled achos Iesu yn llwyddo: gan hyny amcanodd drachefn eu dyrysu trwy derfysg: aflonyddai rhyw bersonau oedd wedi treulio y rhan flaenorol o'u hoes yn dra anwastad, ac achwynent fod y pwlpud yn cael ei roddi i rai ar eu teithiau a bregethent athrawiaeth a farnent hwy yn gyfeiliornus: a than yr honiad hwnw cadwasant gryn dwrw. Nid oeddent yn achwyn fod Stephenson ei hun yn pregethu pethau felly er y grwgnachent nad oedd ei bregethau ef y cwbl a ddymunent; ond prif destun, yr aflonyddwch oedd, fod y pwlpud yn cael ei rhoddi i draethu golygiadau croes i'r eiddynt hwy, ac yn wyneb hyny condemnient eu gweinidog am beidio rhoddi attalfa arnynt. Bu rhai o honynt mor ddifoes ac anmhau gweinidogion parchus yn gyhoeddus ar eu pregethau, ac ereill mor ddiras a dal eu dyrnau yn ngwyneb Stephenson dduwiol ei hun. Yr oedd o honynt rai o'r rhai fu yn ngwrthblaid Pont Clydach a soniwyd o'r blaen, ac felly wedi arfer bod yn aflonydd. Barnwn am rai o honynt mewn barn cariad, eu bod yn meddu ar dduwioldeb; ond yr oeddent yn dra diffygiol mewn synwyr, ac efallai eu bod tan y teimlad o'u bod yn cael rhy fach o le. P'odd bynag, trwy ymddygiad doeth a duwiol gostegwyd hyny drachefn; ac ymadawodd ychydig nifer: ac wedi methu ffurfio achos newydd, dychwelodd rhai o honynt; ond ymunodd y rhai penaf o honynt, yn mhen, amser, âg enwad arall, a threuliasant y gweddill ou hoes yn fwy llonydd a theilwng, ac y mae amrai o honynt bellach, wedi ymado â'r byd, ac wrth eu gadu dywedwn ein bod yn gobeithio eu bod wedi ymado "mewn diogel obaith, &c." au bod wedi myned i dangnefedd.

Dangosodd y diaconiaid a chorff yr eglwys lawer o ddoethineb a phwyll yn yr amgylchiadau uchod, gan ddangos ymlyniad diysgog ac unfrydol wrth eu gweinidog; a chafodd yntau dreulio gweddill

ei fywyd yn fwy hapus a dibrofedigaeth. Cynyddodd y gynnulleidfa mewn canlyniad, nes aeth y capel hwn drachefn yn rhy gyfyng i'w cynnwys. Er nad oedd fawr ychwanegiad at rif yr aelodau, na nemawr wedi bod y blynyddau diweddaf; eto cynyddai y gwrandawyr yn barhaus, a bernid ei bod yn angenrheidiol helaethu y capel, gan hyny penderfynwyd yn unfrydol i ymosod arno yn ddioed, ac nid cynt y dechreuwyd ail-adeiladu, a thans-grifio ato, nac y dechreuodd adfywiad nerthol yn eu plith. Rhoddwyd benthyg Tabor, capel perthynol i'r brodyr y trochwyr, iddynt i addoli ar yr achlysur. Amlygai y bobl galon i weithio, cynnalient gyfarfodydd gweddio o amgylch y tai am chwech o'r gloch boreuau Sabbothau; cynhelid rai ereill am naw o'r gloch ddiwyrnodau yr wythnos, gan y brodyr a weithient y nos, ysgol Sabbothol, pregethu, cyfeillachau, cyfranu, &c. ar y Sabbothau heblaw hyny, a chyfarfodydd gweddi y chwiorydd (yr hwn sydd yn parhau yn flodeuog hyd heddyw). Ac fel hyn ymroddent i geisio yr Arglwydd i'w deml. Ac ar ryw Sabboth, yn y cyfarfod boreuol am chwech, adnabuwyd gan y rhai mwyaf ysprydol yno fod y wawr wedi tori, a methent ymattal oddiwrth folianu yr Arglwydd yn gyhoeddus; aed oddiyno yn dorf hwylus a chariadus, yn yspryd y cyfarfod gweddi, i'r oedfa bregethu am naw, i Tabor, a dygwyddodd fod yno frawd dyeithr yn pregethu y boreu hwnw, a Stephenson yn eistedd tan y pwlpud i'w wrando. Adnabu Stephenson yn lled fuan oddiwrth ansawdd yr eglwys, yn nghyd a'i brofiad ei hun, fod y gwersyll yn cyffro; ond yr oedd y brawd a bregethai yn rhy anadnabyddus o yspryd y gynnulleidfa, neu yn wrthwynebol i gyffroadau, fel na bu fawr cyffro tan y bregeth, heblaw ychydig yn y weddi ar ddechreu yr oedfa: ac yn ddiau, mewn amgylchiadau o adfywiad, yr oedd yn anhawdd iawn cael neb a gyffyrddai â thannau teimladau yr eglwys mo'r fedrus a Stephenson

ei hunan. Ni byddai byth yn cynyg pregethu ar ol brawd arall, ac yn lled anfynych y dywedai ddim, oddigerth ei fod yn dyweyd ychydig ar yr achlysur o gasglu: ond y tro hwn methodd bod yn ddystaw, adnabyddodd fod "swn yn mrig y morwydd," a'i bod yn bryd i ymegnio; yna esgynodd i fynu i'r grisiau ger y pwlpud, tröodd at y gynnulleidfa, yr hon, ar ychydig eiriau, a ysgydwyd ganddo fel coedwig gan wynt; yna yn ei ddull cyffrous a mwyaf profiadol, gwaeddodd allan fel udgorn, "Gogoniant, gogoniant," a chyn pen nemawr fynydau yr oedd y cwbl yn un sain cân a moliant, a thyma ddechreuad un o'r adfywiadau grymusaf a welwyd yn Nant-y-glo yn nghof y rhai henaf o aelodau yr eglwys hono. Parhaodd yn boeth iawn tra y buwyd yn Tabor, ac am tua blwyddyn wedi dychwelyd i'r capel newydd. Derbyniwyd yn yr adfywiad hwnw o 400 i 500 a aelodau o fysg pob math o gymeriadau, meddwon, cablwyr, gwrthgilwyr, ac anffyddiaid, &c., a daliodd y rhif luosocaf o lawer o honynt eu ffordd hyd heddyw. Aeth rhai meibion a merched ieuaingc gobeithiol iawn adref yn ngwres eu cariad cyntaf; ac mae lluaws o'r gweddill yn weithwyr difefl yn ngwinllan Crist ar y ddaear. Yn yr adfywiad hwn y derbyniwyd W. Jenkins, gweinidog presenol eglwys Rehoboth, yn aelod crefyddol.

Dygwyd y gorchwyl o ailadeiladu y capel mawr ac eang presenol i ben trwy draul o £1292 2s. 2c. ac agorwyd ef ar yr 20fed a'r 21ain, o Orphenaf, 1840. Pryd y pregethodd y Parchedigion Daniel, Trosnant; Stephens, Brychgoed; Protheroe, Llangynydr; Griffiths, Blaenafon; Ellis, Mynyddislwyn; Bunn, Fenni; Williams, Llanwrtyd; Rowlands, Pontypwl; Jones, Casnewydd; Jenkins, Salem; Lewis, Llanfapley; a Hopkins, Llangatwg. Ni wnaed un cynyg ar fyned oddi amgylch y wlad i gasglu at y capel gwych a chyfleus hwn. ond ymosodwyd o ddifrif, fel dynion mewn yspryd

gweithio, at gasglu yn gyson ac egniol gartref; a chesglid yn fisol wrth y drysau y symau o £10, £15, £20 ac weithiau £24 ac uchod, heblaw ymdrechion chwanegol a wneid ar ryw amserau ac achlysuron neillduol, fel yr oeddid erbyn canol yr haf 1848, wedi dileu yr holl ddyled anferth hono, a'r llôg, yn nghyd a phob treulion ereill, a swm o rhai degau o bunnoedd yn ngweddill mewn llaw.

Yr ydym yn golygu fod yr ymdrech hon yn mysg cynulleidfa, bron oll o weithwyr tlodion, ac heb neb mewn sefyllfa uchel yn batrwn i'w efelychu gan holl gynulleidfaoedd Cymru, ac nis gallwn lai na rhyfeddu wrth ddylanwad Stephenson ar ei gynuielldfa, yn nghyd a'i fedrusrwydd i wneuthur yr achos mo'r ddyddorol trwy y blynyddau er cynnyrchu'r fath gysondeb diysgog yn nghyfraniadau y byd a'r eglwys. Dylem nodi nad damwain oedd ei fod wedi llwyddo i'r fath raddau gyda 'r casglu; ond gweithrediad diysgog egwyddor oedd. Ei farn ef bob amser oedd, mai ymdrechion cartrefol oedd y ffordd effeithiolaf i ddileu dyledion capeli. Mae hyn yn amlwg oddi wrth ei gynghorion i amryw o'i frodyr. Nodwn un er anghraifft: pan ddaeth gweinidog ato ryw ddiwyrnod i gasglu at ddyled capel, dywedodd Stephenson wrtho am y pwys o wasgu ar feddwl ei bobl gartref yr angenrheidrwydd o ffurfio rhyw gynllun i ddileu y ddyled eu hunain; a chwanegai gan ddywedyd, "ewch chwi i Lundain", neu lle bynag yr ewyllysioch, gellwch benderfynu y gwesgir chwi gan ddyled hyd oni ddysgwch yr arferiad o gasglu yn rheolaidd gartref: aroswch gartref gyda'ch pobl, a thorwch gynllun iddynt, a chymhellwch hwynt ati a'ch holl egni". Nid ydym wrth nodi hyna yn ewyllysio argraffu ar feddwl neb ei fod yn annhueddol i gynnorthwyo ereill: efallai fod yn anhawdd cael ei barotach i hyny; ond yr oedd ar yr un pryd am i bawb gario allan yr egwyddor o GASGLU GARTREF hyd eithaf eu gallu. Nid oedd ganddo fawr olwg chwaith ar y

*Tea Parties.* Pan ddaeth yr arferiad gyntaf i'r parthau hyn, a dechreu ennill poblogrwydd, anuogwyd ef yn daer i wneuthur un; ond ei atebiad oedd, "Na, mae gormod o *Dea Parties* lawer ac os caf fi lonydd nis gwnaf fi *Dea Party* byth:" ac felly bu.

Yn y flwyddyn 1842 gwelwyd angenrheidrwydd am adeiladu addoldy arall yn y Blaenau, plwyf Aberystwyth, tu a dwy filldir o Rehoboth, mewn ardal lle nad oedd un achos gan yr Annibynwyr, er cyfleusdra i'w aelodau a'i wrandawyr a drigent yn yr ardal hono. Costiodd y capel hwnw £250, ac yr oedd wedi myned lawer yn rhy fychan cyn ei farwolaeth ef Mae yn y lle hwnw yn bresenol gapel newydd yn agos cymaint a Rehoboth, ac eglwys o tu a 400 o aelodau.

Profwyd ef ar ol hyn trwy farwolaeth Mrs. Stephenson, ar y 6ed o Fedi, 1846, yr hon oedd ar wahanol amserau wedi myned trwy amryw bylau trymion o gystudd. Yr oedd yn wraig a feddai fwy o ddoethineb a phwyll na'r cyffredin; ac yn hynod gymhwys i fod yn wraig gweinidog: bu yn gymhorth mawr iddo ef, ac ymadawodd â'r byd mewn tangnefedd. Ar nos ei gwylnos, yr oedd Miles Miles, yr henaf o'r diaconiaid, a'r aelod henaf o'r eglwys, yr hwn oedd hen wr pur hynod ei ddull, ar weddi; yn rhyw le cyn terfynu cofiai am ei mab, a gwaeddodd allan, "O Dafydd, Dafydd, beth ddaw o honot bellach, mae dy fam dduwiol wedi tewi; edrych ati bellach, Dafydd." Bu peth dadl rhwng Stephenson â'r brodyr yn nghylch y lle ei claddid: mynai yr eglwys, o barch iddo ef ac iddi hithau, ei chladdu yn y sedd fawr o flaen y pwlpud; ewyllysiai yntau ei chladdu allan yn y fynwent, "O blegyd," meddai, "byddaf uwch ei phen o hyd yn y *seat* fawr." Dadleuent hwythau mai yn y sedd fawr yr ewyllysient ei gladdu ef pan byddai farw, ac am hyny y dymunent ei chladdu hithau yn yr un bedd: ac ochr yr eglwys fu fuddugol. Claddwyd hi yn anrhydeddus ar draul

yr eglwys, a rhoddwyd *hatband* i bob gweinidog oedd yn bresenol, o bob enwad, yn yr anghladd. Dangosasai y brodyr a'r chwiorydd lawer iawn o ofal a charedigrwydd yn amser ei chystudd. Bu ef am amser wedi hyn yn methu myned i'r gyfeillach heb i ryw un fyned i'w dy i'w gyrchu; a gorchfygid ef gan ei deimladau fel na allai ddywedyd nemawr wedi myned yno; ac nis gallodd byth, wedi ei marwolaeth, bregethu mewn anghladd un wraig na merch na byddai ei deimladau yn ei orchfygu, na siarad â'r rhyw yn y gyfeillach eglwysig heb radd o'r un teimlad. Ond nid oedd ei ddydd ef i barhau nemawr ar ei hol.

Wedi dileu dyled y capel, yr hyn a gymerodd le yn fuan wedi hyn, gwelodd yr eglwys yn dda i'w anrhegu â phwrs yn cynwys deg: *gini* ar hugain; a chynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus i fod yn Jubili Rehoboth ar yr un amser: i'r dyben o gyhoeddi 'r capel eang hwnw yn rhydd o ddyled. Cynnaliwyd y cyfarfod dyddorol hwn Dydd Llun y 5ed o Orphenaf, 1847, pryd y bu amryw o'r brodyr yn pregethu am 10 a 2; ac yn yr hwyr areithiodd y brodyr Watkins, Canaan; Havard, Tredwstan; Jones, (Wesleyad); ac Edwards, (Bedyddiwr); cyn cyflwyno yr anrheg; yna cyflwynodd merch i fab hynaf y diweddar Barch. Davies, Hanover, yr anrheg i Mr. Stephenson ar y gorlawr, a derbyniwyd hi ganddo gyda diolchgarwch gostyngedig. a gwnaeth araeth dra phriodol, ac o'r effeithiolaf, gan ddadgan caredigrwydd yr eglwys iddo er pan gymerodd eu gofal, a nodai amryw anghreifftiau o hyny, ac yn enwedig eu caredigrwydd yn amser marwolaeth Mrs. Stephenson, yn nghyd a pharodrwydd y diaconiaid, bob amser i gydweithredu âg ef yn mhob pe th;ar derfyn yr hon y dywedodd "Cefais allwedd eich llogellau i'm llaw, a gallaswn fyned iddynt y pryd y mynaswn, a dwyn y faint a fynaswn allan; ond yr wyf wedi methu cael allwedd calonau llawer o honoch." Wedi hyny areithiodd Rees,

Siloa (yn awr o Gendl); Rowlands, Pontypwl: a Rees, Llanelli, a chafwyd cyfarfod hynod o ddyddorol.—Cynnaliwyd Jubili arall yn mhen tu a blwyddyn ar ol hyn yn goffadwriaethol am ffurfiad yr eglwys hon yn Gelli Grug, yn Nghwm Tylerwy, 200 mlynedd cyn hyny, pryd y bu amryw frodyr yn pregethu yn Nghwm Tylerwy, Berea a Rehoboth.

Yr amgylchiad nesaf a goffawn yw ei araeth yn Nghymanfa Carmel, Cendl, yn 1849. Yr oedd yr haint yn drom y pryd hwnw yn Merthyr, ac wedi ymddangos yn yr ardaloedd hyn: ceiswyd ganddo roddi diolch cyhoeddus i'r ardalwyr am eu caredigrwydd; gwnaeth hyny yn ddyddorol tros ben. Dymunai fendith Duw ar bawb a phob peth: dymunai fendith a llwydd y werin, y gymydogaeth, goruchwilwyr y gwaith, Mri. Patridge, Needham, ac ereill, ac i'w berchenogion, holl deulu Mr. Bailey, a llwydd ar bob peth o'u heiddo yn Nglanwysg, Nânt y-glo, Cendl, ac Aberaman; dymunai fendith ar y meysydd, y mwn, y glo, y coed, a'r cerig: ac yn y diwedd ffarweliodd â'r dorf, gan awgrymu mae y tro diweddaf iddo eu cyfarch mewn Cymanfa oedd, a bod ei ddydd ar derfynu; ac felly y bu, o blegyd ychydig wythnosau y bu byw ar ol hyn.

Yr oedd ar yr adeg hon gyffro nid bychan yn mysg pechaduriaid, a channoedd yn ceisio lle yn nhy Dduw; ac er y meddyliai rhai o feddwl cul a rhagfarnllyd mai dim ond ofn yr haint oedd yn eu gyru, mae y canlyniad wedi profi erbyn heddyw, trwy y cyfnewidiad a'r effeithiau grasol a welir ar y nifer amlaf o'r dychweledigion hyn, fod dwy oruchwyliaeth gan yr Arglwydd yn y wlad yr un amser: Barn a Thrugaredd. Cafodd Stephenson y fraint o weled cannoedd yn troi eu hwynebau i'r gyfeillach; ond cymerwyd ef i ogoniant cyn cael cyfle i roddi deheulaw iddynt yn eu derbyniad yn aelodau cyflawn. Yr oedd yn arfer dymuno dau beth cyn marw, sef cael gweled dyled y capel wedi ei thalu; a gweled adfywiad ar yr achos;

cafodd weled y ddau; dilewyd y ddyled tu a dwy flynedd cyn ei farw: ac nid oedd dim llai nac o 500 i 600 o ymgeiswyr newydd am le yn ei eglwys pan fu farw.

Bu ei oes weinidogaethol yn oes o lwydd cyson ar yr achos, er fod mwy o hyny ar ryw amserau na'u gilydd. Mae yn syndod meddwl gynifer o weithiau mae ei eglwys wedi ei chyfnewid trosodd, trwy fod yr aelodau yn ymfudo i America, a lleoedd ereill, heblaw y rhai oedd yn meirw, ac eto y nifer cartrefol yn cyson gynyddu. Nid oes yn awr yn fyw, ac yn aros yn y lle uwch dwy ddwsen o'r rhai oedd pan deiladwyd capel cyntaf Rehoboth yn 1827.

Yr oedd yn y misoedd diweddaf y bu byw fel tywysen yn addfedu i'r cryman: sylwid arno, o leiaf dri mis cyn marw, ei fod yn fwy bywiog gyda 'r achos, yn fwy effeithiol yn ei gyflawniadau teuluaidd a chyhoeddus, yn fwy nefolaidd yn ei gyfeillach, ac yn fwy myfyrgar yn ei feddwl nac yr arferai fod. Yr oedd er amser dechreuad yr haint yn yr ardaloedd yn ei hofni yn ddirfawr, ac yn sicrhau wrth bawb y buasai ef yn ei chael, ac yr oedd yn dra ofnus i fyned i ymweled â'i gyfeillion fyddent ynddi. Sabboth Awst 12, 1849, y pregethodd ddiweddaf yn y capel: ei destyn y nos Sabboth hono oedd Seph. 2, 3, "Fe allai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd." Sylwai 1, Fod arwyddion o wg a digofaint yr Arglwydd ar y byd; a'u bod yn agored i'r digofaint tragwyddol 2, Ei bod yn bosibl i bechadur gael ei guddio yn y cyfnod hwn, a chael ei guddio byth. 3, Fod genym brofion dianmheuol y buasai rhyw rai yn cael eu cuddio; sef (1), Tystiolaeth y gair. (2), Dygiad oddi amgylch drefn iachawdwriaeth. (3), Yr esamplau ysgrythyrol o rai o bob math o bechaduriaid wedi cael eu cuddio. (4), Cân waredigol teulu 'r nef yn tystio mai rhai wedi bod mewn pergyl ydynt.

Dydd Iau canlynol, wedi bod yn pregethu mewn

anghladd un fuasai farw o'r darfodedigaeth, cymerwyd ef yn glaf gan yr haint (*cholera*) cyn myned adref, a bu byw hyd yn nghylch haner nos Fercher pen yr wythnos, Awst 22, pryd y gadawodd ei enaid ei dy o glai, ac yr aeth at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd. Yr oedd arteithiau yr haint wedi myned trosodd yn mhen rhyw ddeuddydd wedi ei gymeryd yn glaf; ond yr oedd wedi rhwygo gormod ar ei gyfansoddiad, cyn iddi ei adu, fel nad oedd modd i'w adferyd. Pan oedd tan arteithiau mwyaf angerddol yr haint dangosai gwbl foddlonrwydd i'r orchwyliaeth, a thystiai nad oedd ond y peth a ddysgwyliai ers wythnosau. Tystiai hefyd fod ei feddwl yn gwbl ddidertysg a chysurus Wedi i arteithiau yr haint ei adu, aeth yn gysglyd a thrymaidd, ac ni siaradai ond ychydig. Ymwelodd llawer o gyfeillion ag ef, ac yn mysg ereill y Parch. T. Rees, yr hwn a eisteddod yn fud gerllaw iddo tros enyd mewn tristwch mawr. Yn mhen ychydig tröodd Stephenson ato, ac yn ei ddull digrif a diniwiad arferol, gofynai "Pa le mae'ch tafod chwi?" Dydd Llun dyrysodd ei synwyr, ac ni ddywedai y peth nesaf i ddim; ac ni ellid deall ei fod yn amgyffred dim ond ar ryw adegau; ond meddylid fod ei synwyr wedi dychwelyd ychydig cyn marw, a phan oedd yn ymyl ei ymdrech olaf âg angau, chwareuai ei frach fel yr arferai wneyd pan mewn hwyl yn gweiddi, "Gogoniant," a bernid wrth symudiad ei wefysau mai "GOGONIANT" oedd yn geisio ddywedyd; ac felly aeth i Ogoniant â'r gair Gogoniant yn ei enau.

Prydnawn Dydd Gwener caüwyd pob masnachdy trwy 'r dref, yr hwn nis gwnaed ar y cyffelyb achlysur erioed o'r blaen. Ymgasglodd torf ddirfawr oddi amgylch y ty, a'r capel, a'r heolydd, a gwelid y lle yn llawn fel pe buasai Gymanfa; aed â'i ran farwol i'r capel. Yna aeth y gweinidogion i mewn, ac ar eu hol gynifer o'r dorf ag a anai y capel, a hyspyswyd y gallai y sawl

a ewyllsient ddyfod yn mlaen i'w weled cyn ei osod yn y bedd: yna rhoddwyd ef i orwedd yn ei wely llaith yn y sedd fawr yn ngwydd cannoedd o galonau briw, a miloedd o ddeigrau hiraethlon. Claddwyd ef cyn y bregeth, oblegyd arferid gwneyd hyny â'r sawl fyddai feirw o'r haint. Traddododd y Parch. T. Rees, araeth fer a phriodol iawn: yna cauwyd y bedd, a dechreuwyd yr oedfa gan y Parch H. Daniel, Pontypwl; a phregethodd y Parch. D. Davies, New Inn, oddiwrth 2 Cron. 24. 16; a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. M. Jones, Varteg. Ei oedran oedd 65.

## PENNOD V.

### Ei nodwedd yn gyffredinol.

Yr ydym yn awr yn ymosod ar y rhan bwysicaf ac anhawddaf o'n gorchwyl. Dysgwylir i ni geisio dangos pa le yr oedd ei fawr nerth; ond nis triniwn hyny fel peth ar ei ben ei hun, eithr gadawn i ddoethineb y darllenydd ei gasglu oddiwrth ei hanes yn gyffredinol: oddi gerth nodi yn fyr y pethau canlynol, y rhai, oddi ar ein hadnabyddiaeth bersonol o hono tros lawer o flynyddoedd, y gwyddom eu bod yn brif ffynonellau ei fawr gryfdwr; sef:

1. Ei dduwioldeb personol; ac yn neillduol agosrwydd ei yspryd a'i feddwl at Dduw, a'i gymdeithas agos a chyson âg ef. 2. Y sylw craffus oedd ganddo ar egwyddor, yspryd, tuedd, a theimlad pob dyn y caffai nemawr gyfle i arfer ag ef. Efallai nad oes nemawr, os oes neb yn Nghymru, a adnabyddai ddyn trwyddo wrth ychydig fantais fel y gwnai ef; er nad oedd neb, ond rhai adnabyddus iawn o hono, yn gwybod ei fod yn craffu mo'r fanol. Yr oedd hyn yn fantais fawr iddo i wybod pa fodd i drin dynion. 3. Ei adnabydd-

iaeth fanol o helynt gyffredinol ei wrandawyr. Mae yn syndod meddwl mo'r fanol y gwyddai am eu harferion yn y gwaith, yn y dafarn, mewn cyfeillach, yn y teulu, ac yn mhob man; ac hefyd am eu dull, eu hiaith, a holl lochesau eu llygredigaeth, a'r dulliau y byddent yn ymarfer â phechod. 4. Ei waith yn cymhwyso ei bregethau at yr arferion llyredig, a'r noddfeydd celwydd y gwyddai fod ei wrandawyr yn ymdroi ynddynt, heb amcanu am nac iaith wech, na beirniadaeth gywrain; ond myned yn syml a diaddurn i dir y bobl, a throi awch y gwirionedd at eu cydwybodau ar y tir yr oeddent, gan ddynoethi eu cyflwr drwg, a'u harferion llygredig, yn yr ieithwedd (*style*) fwyaf adnabyddus i'r werin. 5. Ei ostyngeiddrwydd hunanymwadol, yn gosod ei hun yn mysg y werin fel un cydradd â hwy, nes cario tystiolaeth i bob cydwybod am ba beth bynag a ddywedai, nad oedd oddi ar na balchder na hunan gais, ond oddi ar egwyddor gwbl onest.

Gan fod llythyrau amryw frodyr parchus yn rhoddi eglurhad ar, a phrawf o amryw o'r pethau uchod, cyfeiriwn y darllenydd hynaws atynt, ac awn yn mlaen at bethau ereill perthynol iddo.

Yr oedd o ran ei gorff yn ddyn cryf a lluniaidd, tu a 5 troedfedd a 6 modfedd o daldra; o asgwrn cryf; ac er pan adwaenem ef, yn gyflawn o gnawd heb fod yn rhy dew, gwddf byr, ysgwyddau llydain, wyneb llawn, ac edrychiad cwbl Ysgotaidd (o'r hon genedl yr hanai), ac yn ol barn y menyddegwyr (*Phrenologists*) yn meddu dau lygad areithiwr, a threiddgarwch wedi ei gydwau â diniweidrwydd i'w ganfod yn ei edrychiad. Pan welodd yr enwog Doctor Lucas ef, pan ger llaw marw, dywedodd ei fod yn un o'r cyfansoddiadau cryfaf ag a welodd erioed; y gallasai bara i bregethu yn gyson 20 mlynedd drachefn heb anmharu ei gyfansoddiad, pe cadwesid ef rhag haint.

Rhoddwn dystiolaethau rhai ereill i ddangos galluoedd ei feddwl. Dywedai Evans, Mynyddbach, ryw dro wrtho "Trueni Mr. Stephenson, eich bod tan draed eich teimladau fel yr ydych. Yr wyf wedi eich clywed lawer gwaith yn pregethu mewn Cymanfaoedd; yr ydych bob amser yn pregethu cystal a neb, oddi gerth fod gwisg eich pregeth yn fwy gwledig; ond nis gwelais chwi erioed heb arwyddion o ofn dynion. Pan eloch i bregethu nesaf, peidiwch gadu i un gelyn eich curo; meddyliwch eich hun cystal â neb o honom, ac edrychwch ar y bobl fel sypyn o wellt." Un o enwogion penaf y genedl, sydd yn ymarfer â boneddwyr dysgleiriaf amryw deyrnasoedd y byd, a ddywedai ryw dro ar Neuadd Exeter, wrth annog at achos da, fod Stephenson, Nant-y-glo, yn batrwn iddynt, nad oedd erioed wedi dysgu *mental philosophy*; ond ei bod ganddo yn naturiol, ac y medrai gadw teimladau cynnulleidfa o ddwyfil o ddynion i chwareu wrth ben ei fysedd. Gallem chwanegu lluaws; ond y mae hyna yn ddigon i ddangos fod ryw beth anghyffredin ynddo. Mae lle i feddwl hefyd oddi wrth ei bregethau ei fod yn fwy galluog ei amgyffredion nac y meddyliai y rhan amlaf ei fod, er nad mewn beirniadaeth ddofn, gwychder iaith, na chywreinrwydd trefniant yr oedd hyny yn ganfyddadwy; ond gellid bob amser ganfod ei fod 1, Yn deall yspryd ei destyn, ac yn myned i mewn iddo. 2, Yn dwyn pethau ei destyn allan mo'r ymarferol ag y byddai modd. 3, Yn cyfeirio yr pethau hyny mo'r llym at y gydwybod, nes byddai (yn neillduol yn y blynyddau diweddaf) yn cyrhaedd teimladau yr holl dorf.

Ei ddull, yn y rhan amlaf, o astudio ei bregethau fyddai, eistedd wrth y tân, a'i bibell yn ei enau, a llyfr yn ei law, a phan y byddai wrth y gorchwyl hwnw nis gwaeth beth a ofynid iddo, ni chaid un atteb: ond byddai weithiau, ar ryw achlysuron, yn myned ar ei ben ei hun i'r ystafell i

astudio, ac yn aml iawn yn eistedd i fyny ran o'r nos at hyny, ar ol yr elai pawb i'w gwely. Yr oedd ei ymneillduadau ar ei ben ei hun yn amlach at weddio nac at astudio. Gellir meddwl fod y dull uchod o astudio wedi dyfod yn arferiad ganddo er amser dechreuol ei weinidogaeth, pan yr oedd yn gorfod astudio gyda'i orchwyl, ac heb amser na chyfle amgen, ac felly nad oedd y twrf a ddyrysai rai heb arfer felly yn un anhwylusdod iddo ef.

Yr oedd yn fanol a chyson gydag addoliad teuluaidd, a chrefydd deuluaidd yn gyffredinol; yr oedd neillduolrwydd ei gynghorion crefyddol yn ei deulu yn fwy yn mhriodoldeb ei gynghorion, a phriodoldeb yr amser eu rhoddai, nac oedd mewn dweyd llawer. Yr oedd hefyd yn arglwydd yn ei deulu, ac yn medru bod felly heb fod yn chwerw. Pa faint bynag o annhrefn yr ymdröodd rhai agos ato ynddo, yr oedd arnynt ddigon o'i arswyd i ymostwng iddo yn wastadol yn ei bresenoldeb.

Yr oedd ei dynerwch a'i hynawsedd fel dyn ac fel cymydog yn llinell brydferth yn ei nodwedd. Pan ddywedai rhyw un rywbeth yn tueddu i'w ddiystyru, gofalai rhag siarad dim am dano wrth neb, rhag chwanegu blinder wrth ei olrhain; mynych y celai ei ymddygiad effaith ddymunol ar y cyfryw, fel y teimlent yn ofidus ac edifeiriol pan y cyfarfyddent ag ef drachefn. Dywedai un tra adnabyddus o hono fel hyn: "Yr oedd yn well ganddo aberthu pob peth na drygu neb. Gwn am amgylchiadau yr yspeiliwyd ef o'i golomenod, o ffrwythau ei ardd, a phethau ereill, ac y daliodd rai ar y weithred o'i yspeilio; ond yr oedd mor hynaws fel cymydog fel na wnelsai son am hyny wrth neb. Byddai hefyd yn cyfranu ffrwythau ei ardd i'w gymydogion fel na fedrai gadw dim at ei wasanaeth ei hun." Byddai yn arfer rhoddi swm o bres o'r neilldu mewn man cyfleus i'w rhoddi i'r tlodion fyddent yn cardota, gyda gorchymyn i Mr. S. neu'r forwyn roddi oddi yno i'r sawl alwent pan

na byddai ef yn y ty; ac yn aml rhoddai fwyd gyda phres i rai ystyriai yn wir anghenus.

Yr oedd hyd y nod y meddwon mwyaf anwaraidd yn ei barchu; arferai fyned allan pan welai ymladdfeydd ar yr heol; a phan welai y dorf anwaraidd a gynnullent i'r fath le ef yn dyfod, gwasgarent fel cwmwl; a byddai yn arfer dywedyd, "Nid oes arnaf ofn y *rebel* gwaethaf mewn amgylchiad o'r fath, os byddant yn fy adnabod, os nad gwrthgilwyr fyddant. Mae arnaf arswyd myned yn agos at wrthgilwyr; maent mo'r haerllug." Yr oedd un Dafydd Pierce ryw dro wedi ymddiosg ar yr heol i ymladd, ac ni allai neb na'i reoli na'i berswadio: ond pan welodd S. yn dyfod rhedodd ymaith heb wisgo ei ddillad, gan ddywedyd, "Mae EF yn dyfod rhaid i mi fyned." Anghraifft darawiadol arall ar y pen hwn yw yr amgylchiad yn y tafarn gyferbyn â'i annedd. (Gan fod llythyrau Mr. Rowlands a Mr. Rees, yn darlunio hwnw, cyfeiriwn y darllenydd at y llythyrau.)

Dangosai fod yr achos crefyddol yn agos at ei feddwl, a lles pobl ei ofal ar ei galon. Pa le bynag yr elai oddi cartref, megys i lan y môr, ar daith, neu beth bynag, gofalai fod gartref erbyn Sabboth cymundeb, a dywedir na chollodd un Sabboth cymundeb erioed. Ymwelai â phobl ei ofal yn aml yn eu tai, ac fel hyny gwnai ei hun yn gydnabyddus â'u dull, eu harferion, eu tywydd, a'u profedigaethau; heb law ei ymweliadau gofalus a chyson â'r cleifion. Adnabyddai ysprydoedd dynion yn dda ar ychydig o ymddyddan; a phan welai gymeriadau terfysglyd yn ymofyn am aelodaeth, gwrthodai hwynt: ac os canfyddai rai felly yn yr eglwys yn barod, gofalai bob amser i beidio rhoddi llawer o le iddynt rhag i hyny lygru ereill. Dywedodd y Parch. J. Davies, gweinidog y Trochwyr, am dano ar y pen hwn, ar ei bregeth anghladdol "Yr oedd ei lygad mo'r graff ar ol ei ddiadell fel yr oedd yn agos anmhosibl i ddim ddygwydd ar ei braidd

heb ei fod yn canfod, ac yn ei ddileu, os byddai o duedd neweidiol. Yr oedd yn meddu ar wir gymhwysderau at fod yn orchfygwr: os byddai rhyw beth annymunol yn y gwersyll, buasai yn gofalu am dori yr wyau, ac nid ceisio lladd y gwiberod. ———Yr oedd yn deall ansawdd yspryd ei aelodau, yn nghyd a'u natur a'u grym."

Nid llai ei ofal oedd rhag drygu yr achos mewn un lle arall, a rhag dolurio teimladau ei frodyr. Mae y ffeithiau canlynol yn dangos hyn. Gofalai bob amser fyned at ei gyhoeddiad beth bynag fyddai 'r tywydd, a'r ffordd; ac nid oedd dim oddi gerth cystudd, neu ryw beth anorfod, a'i rhwystrai: ystyriai dori cyhoeddiad yn fai ysgeler. Nid oedd byth yn ymyraeth â materion rhai ereill: a lle byddai terfysg, neu ymraniad, cadwai yn mhell oddi wrthynt. Gofynodd gwr perthynol i eglwys a ymranasai iddo ryw dro yn fawreddog iawn, "Pa bryd y deuwch atom ni?" "Mae yn ddigon cynar eto," atebai yntau. "O na," meddai y gwr, "pa bryd y deuwch?" "Pan y byddo pawb ereill wedi bod yn gyntaf," meddai Mr. S. Dygwyddodd iddo ryw dro newid a gwr yr hwn oedd y pryd hwnw yn ieuangc, ac eto yn weinidog parchus. Dygwyd baban, ar ddiwedd yr oedfa, i'r gwr ieuangc i'w fedyddio; gweinyddodd yntau yr ordinhad; ond tybiodd ar y pryd ei fod yn gwneuthur peth na ddylasai. Tranoeth dychwelodd adref cyn ymadawiad Mr. S.; aeth ato yn wylaidd, a chyda chydwybod euog, dywedodd, "Daeth dyn o'r gogledd ataf neithiwr, syr, a baban i'w fedyddio, a darfu i mi wneyd hyny." "Wel," ebe Stephenson, "chwi wnaethoch beth nas gwnaethum i erioed." Effeithiodd hyn yn ddwys ar feddwl y gwr ieuangc. Yna adroddodd Mr. S. hanes cynyg cyffelyb a gafodd efe ei hun ryw dro wrth ddyfod o Rwmnai i Nantyglo, yr hwn oedd fel y canlyn: "Wrth fyned heibio i dy ger Tredegar, galwyd fi i mewn gan wr y ty, a gwelais ddau fwrdd wedi eu cyfleu,

ac arlwy o ymborth, cwrw, a gwin, ar un; a llain gwyn, a chawg a dwfr, a'r Beibl ar y llall. Gofynodd y gwr i mi, 'A welwch chwi yn dda fedyddio fy mhlentyn, syr?' 'A oes pibell genych?' ebe finau. 'Oes,' atebai yntau: yna aethum at y tân, ac wedi ysmycio, dywedais, 'Rhaid i mi fyned.' 'O, da chwi, syr, bedyddiwch fy mhlentyn,' ebe'r gwr. 'Pa le yr ydych chwi yn aelod?' ebe finau. 'Onid yn Saron?' 'Ië,' ebe'r gwr, 'ond yr wyf yn dewis i chwi fedyddio'r baban.' 'O, na,' ebe finau, 'gwell i chwi fyned âg ef at eich gweinidog, boreu da i chwi.' Cefais lawer o gynygion cyffelyb, ond ni wnaethum gydsynio i'w cyflawni erioed." Diolchodd y gwr ieuangc yn fawr iddo am ei addysg, a gwnaeth iddo gymeryd haner coron yn ddirwy am y trosedd, ac addawodd nas gwnai y fath beth byth drachefn; a bu cystal a'i air.

Gan fod llythyrau y brodyr canlynol yn taflu goleu mor darawiadol ar ei nodwedd, gosodwn ddyfynion o honynt ger bron y darllenydd.

---

### DYFYNION O LYTHYRAU ATOM ODDIWRTH AMRYW O'I GYFEILLION.

*Oddiwrth y* PARCH. T. LLOYD, MAESTEG, *yr hwn fu amser hir yn Aelod yn Rehoboth*

"* * * Yr oedd Mr. Stephenson yn dad tirion, yn gyfaill gwirioneddol, o dduwioldeb dianmheuol, yn fawr mewn amynedd, ac yn gristion gostyngedig: arferai fod yn bwyllog gyda phob peth o bwys; byddai ei olwg yn bwysig, ac eto yn llon; yr oedd yn hynod o dirion; ac yr oedd twyll a gweniaith yn bethau dyeithr iddo; yr oedd yn hawdd ei garu, ond yn anhawdd ei gasau. Ni chefais ar ddeall fod arno un gradd o ofn am ei gyflwr; ond ei holl bwngc oedd bod yn weinidog da, a'i ofid gwastadol oedd annuwiodeb yr ardal, caledwch y gwrandawyr, a bucheddau anweddaidd rhai crefydd-wyr. Clywais Mrs. S. yn dywedyd iddo dreulio

nosweithiau cyfain i weddio Blinid ef yn fawr weithiau gan swn mewn tafarn cyfagos, a bu yn myned i mewn atynt i'w ceryddu, a chan gynted ag y gwelent ef cilient allan. * * * Yr oedd yn hynod am adnabod dynion. * * Yr oedd yn adnabod ei wrandawyr yn dda; gwyddai am eu pechodau a'u llochesau; a gwelwyd ef weithiau yn gosod y cwbl ar dân fel y byddai pawb yn teimlo eu pergyl. Dywedai iddo gael cynghor, pan yn ieuangc, gan y Parch G. Hughes Groeswen, yr hwn a arosodd ar ei feddwl tros ei oes, i beidio gwneyd dim yn ysgafn gyda chrefydd gan feddwl y cai gyfle i'w gymhwyso ryw amser wedi hyny: ond am iddo wneyd pob peth i bwrpas ar y pryd, o blegyd fod holl bethau enaid yn rhy bwysig i'w taflu heibio hyd ryw amser anhysbys. * * Dywedai S. hefyd mai pregethu ymarferol oedd yn gwneyd lles; ac yn ymarferol y pregethai efe fynychaf Byddai yn cynghori pregethwyr a gweinidogion am iddynt, pan elent i dai pobl, beidio aros yn hir yno, a gofalu fod yr ymddyddan yn deilwng. Pan byddai rhyw ofid neillduol arno deallai 'r gwrandawyr hyny. * * Byddai weithiau yn dyweyd ei ofidiau wrthynt, ac yn neillduol ei ofidiau yn nghylch dyled y capel, a byddent yn gyffredin yn cyd-ddwyn y baich. ——"

"Yr eiddoch' &c.

THOMAS LLOYD."

[Mae rhan o'r llythyr uchod am ei ddull yn casglu ac felly yn fwy priodol i'w roddi yn y bennod nesaf]

*Oddiwrth y* PARCH L. POWELL, *Caerdydd.*

FY ANWYL FRAWD:

"Mae yn dda genyf eich bod mo'r garedig a chasglu hanes bywyd gwr mo'r deilwng———Yr hyn a welais ac a fwynheais yn ei gyfeillach oedd,

ei fod yn un hynod yn mysg y bobl yn mhob peth, mewn cariad, gostyngeiddrwydd, a phob teimladau tirion, fel yr awgrymais yn y 'Farwnad.' Gan ddymuno eich llwyddiant——"

"Yr eiddoch yn Israel,
LEWIS POWELL."

*Oddiwrth y* PARCH. E. DAVIES, *Athraw, Athrofa Aberhonddu.*

ANWYL FRAWD:

"————Yr oeddwn yn gallu barnu am Mr. S. ei fod yn un o rai rhagorol y ddaear. Un o'r pethau hynotaf ynddo oedd ei ddull '*didramgwydd* o ymddyddan. Mawr oedd ei ofal i fod yn ddiachos tramgwydd i'r byd, ac i eglwys Dduw: ———' i ryngu bodd i bawb heb geisio ei lesad ei hun, ond llesad llaweroedd, fel y byddent gadwedig: ——heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim fel na feiid ar y weinidogaeth:'—Yn hyn yr oedd yn un o'r rhai mwyaf diniwaid o'i frodyr, ac yn dra theilwng o gael ei efelychu gan bob gweinidog yr efengyl. Un o brif achosion ei boblogrwydd oedd hyn. Yr oedd pawb yn ei garu am y gwyddent na wnai ddim drwg iddynt mewn gair na gweithred. Nid oes dim yn fwy o rwystr i lwyddiant gweinidogion na thymher anfwyn, diserch, brwnt, ac anhawddgar.———Yr oedd ein brawd hefyd yn nodedig am ei *adnabyddiaeth o ddynion,* yr hyn sydd un o brif gymhwysderau y weinidogaeth. Diau ei fod yn adnabod ei hun yn dda, ac onid e nis gallasai adnabod ereill. Yr oedd hyn yn ei alluogi i ymddwyn yn ddoeth, yn bwyllog, ac yn arafaidd, 'gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd.' Nid oedd ei dymher addfwyn, a'i yspryd didramgwydd ddim, ar yr un pryd, yn ei arwain i fod yn anffyddlon i'r gwirionedd. Yr oedd ei bregethau yn llawn o efengyl, ac o ras Duw, heb fod yn

arwain y bobl i feddwl nad oedd ganddynt hwy ddim i'w wneuthur.——Yn y modd hwn yr oedd yn 'porthi praidd Duw, nid trwy gymhell,' ond yn ei elfen, 'yn ewyllysgar; nid er mwyn budr elw, eithr o barodrwydd meddwl; heb dra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw, ond bod yn siampl i'r praidd': a dianmhau genyf, 'pan ymddangoso y Pen bugail, y caiff dderbyn anniflanedig goron y gogoniant.'——

Yr eiddoch yn ddiffuant,

EDWARD DAVIES."

*Oddiwrth y* PARCH. E. ROWLANDS, *Pontypwl.*

"Yr oedd y Parch. D. S. yn un o deulu'r ffydd, yr hon a gadwodd hyd y diwedd. Dangosodd ei ffydd trwy ei ymlyniad wrth air Duw, ei gariad at, a'i ymdrech gyda gwaith yr Arglwydd dros faith flynyddau, dan gryn lawer o anfanteision, yn neillduol yn nechreu ei oes weinidogaethol: nid oedd ei logell yn llawn, na'i ford yn ddanteithiol o herwydd gwendid yr achos; er fod y nifer fechan oedd yn yr eglwys y pryd hwnw yn wir ffyddlon, ac ymdrechgar; ond nid hir y bu ei ddeisebion taerion heb gael eu hateb, a chafodd yr hyfrydwch o weled golwg flodeuog ar yr achos. Yr oedd yn dra hysbys a chyfarwydd yn yr ysgrythyrau, wedi ei ddysgu gan Dduw yn ddoeth i iachawdwriaeth: er nad oedd ddysgedig yn ol iaith gelfyddawl (*technical term*) colegau yr oes, er hyny yr oedd yn hyddysg yn ngair yr Arglwydd; rhedai ei feddwl ar hyd feysydd yr ysgrythyrau, o ddechreu llyfrau Moses lariaidd, hyd Ddadguddiad Ioan anwylaidd a charuaidd; mo'r hyrwydd fel yr argyhoeddai ei wrandawyr taw dalenau ei Feibl oedd y tir yr hoffai ei enaid borfäu arno. Yr oedd yn ddyn lled lawn o synwyroldeb (*prudence*): yr oedd *common sense* yn cael ei pharchu ganddo, a bu hi yn llawforwyn fuddiol iddo, ac y mae yn lled

debyg mai yn hyny yr oedd cuddiad ei gryfder, a'i nerth Samsonaidd gyda'r weinidogaeth. O ddiffyg gwrando ar gynghorion synwyr cyffredin mae llawer gweinidog wedi colli ei barch, ei ddefnyddioldeb, a'i gysur amgylchiadol a chrefyddol am amser maith, os nid am ei oes. Yr oedd yn wir yn wr Duw, a bu yn ddefnyddiol yn ngwinllan ei Arglwydd. Bu mor, os nid yn fwy llwyddiannus na neb yn y wlad hon yn ei oes; a chododd achos oedd bron myned i'r dim, i enwogrwydd mawr ——

Yr oedd ei bobl, bob amser, yn barod i gyduno ag ef, er cael yr achos yn mlaen. Pan waeddai efe, '*All hands to the vessel*', yr adlais foesol a glywid yn ddioed fyddai, 'Dyma ni yn d'od law a chalon, â'n ceiniogau, chwechau, sylltau, coronau, a phenaduriaid. ——

Yr oedd ei ymddygiad gostyngedig, caredig, a duwiol, y fath ag a darawai bob math o gymeriadau â gradd o argyhoeddiad, ei fod yn ewyllysio yn dda iddynt; a than ddylanwad y cyfryw argyhoeddiad, rhoddent ufydd-dod rhwydd i'r hyn a geisiai ganddynt. —— Dywedodd unwaith fod *lot* o garwyr y daplas, druain, wedi aros mewn diotty gyferbyn a'i annedd ar 'nos y swper,' fel ei gelwir, fel na ellid cysgu gan eu twrw, a'u mwstwr mawr: cododd Mr. S. o'i wely, a gwisgodd am dano, ac aeth atynt; cynnygasant iddo eu saig ddifyrol hwy; diolchodd iddynt am eu serchawgrwydd, a dywedodd nad yfai ddim, ond ei fod wedi dyfod yno ar *fusiness*, a bod ganddo ryw beth i'w ddywedyd wrthynt os gwrandawent arno. —'*Silence*,' ebe blaenor y gwmniaeth, 'mae gan Mr. S ryw beth i'w ddywedyd wrthym.' 'Wel, fechgyn bach,' ebe Mr. S. 'Yr ydych wedi dyfod yma er helpu eich cydweithiwr i fagu y swp plant sydd ganddo; ond ofnwyf y gwnewch fwy o ddrwg iddo nac o les wrth aros yma trwy y nos fel hyn: beth pe deuai yr awdurdodau i wybod hyn? byddai yn sicr o golli ei drwydded.' 'Clöwch y

seler yn y fynyd,' ebe blaenor y gwmniaeth, 'ni ddaw yma un diferyn rhagor i neb.' 'Da iawn,' ebe Mr. S. 'nos da'wch.' 'Na, na,' ebe'r bobl; 'aroswch yma gael gweled y ty yn glir!' ac ymaith yr aethant, gan ddywedyd, 'Nos da'wch. Mr. S.' Dywedai Mrs. S. wrthyf, ei bod yn crynu gan ofn pan oedd ef yn myned allan; ond wrth eu clywed, trwy y ffenestr, yr hon a agorasai er mwyn ymwrando, yn dywedyd mor serchus wrtho, na allasai ymatal rhag wylo o lawenydd, o herwydd ei fod wedi cael ei wrando mor barchus gan rai o'r dynion mwyaf anystyriol yn holl Nantyglo. A thyma y fath ddynion y dywedir, gan rai o *Gents* yr oes hon, iddynt ddysgu gwyr y mynyddoedd yn siartiaid, &c.; ond mae yn debyg fod yn rhaid i'r ddylluan waeddi, 'Tw, hw, hw,' yn mhob lle yr elo, am na fedr wneuthur un swn arall, ond gwichian yn ei hen geubren pwdr a madredig.

Mae'n debyg fod cryn swn yn uchel fanau y *ministerial camp,* pan urddwyd ef, o barthed ei gymhwysder at y weinidogaeth. Cof genyf glywed y diweddar Barch. G. Hughes, Groeswen, yn dywedyd wrthyf o barthed iddo. 'Do, do, fe bechodd rhai o honom yn fawr yn erbyn rhai o'n gwyr mawr *ni,* sef myfi a'ch *predecessor* chwithau, (y Parch. Ebenezer Jones,) o achos i ni ordeinio Dafydd Stephenson; ond, er ein cysur, ni chawsom, trwy drugaredd, un achos i edifarhau, a gostwng ein penau o herwydd gwneyd hyny; a chawsant hwythau y rhai a anfoddlonasent wrthym am ei urddo, weled cyn eu marw, fod Dafydd bach, a'i ffon dafl, a'i gareg lefn, wedi ei addurno gan natur a gras, yn cwympo cewri; a gorfodwyd hwy i ddywedyd, 'Fod yn rhaid ofni rhag Duw Dafydd.'

O barthed i'w brofiad fel cristion rhyngddo a'i Dduw, nid oes genyf nemawr i'w ddywedyd. Nid oedd yn hoff o dywallt ei galon wrth neb bron, ond ei Dduw; yr oedd yn hawdd canfod ei fod yn myned i'r ystafell beraroglaidd i fwynhau cymdeithas

ei Dad nefol. Cefais i y fraint o ddal cyfeillgarwch ag ef oddi amgylch ugain mlynedd, heb i'r barug gymaint ag unwaith oeri ein mynwesau at ein gilydd. Cawsom lawer cyfeillach frawdol, barchus, a chysurus; a bu llawer rhyngom o ymddyddanion difyrus, a buddiol i ni fel dynion, cristionogion, a gweinidogion Iesu Grist; a llawer *ple* sobr a phwysig o barthed i'r achos goreu, a'i amgylchiadau blinion, a chysurus, yn nghyd ag ymofyniad cymdeithasol am ddeall rhyw ddull neu fodd i'w gael yn fwy llwyddianus a chysurus

Yr oedd dyled y capel y tro diweddaf yn gorphwys yn hynod o ddwys ar ei feddwl. Pan ddeuai y ddyled tan ein sylw dywedai gyda dwysder neillduol, 'Gobeithio y caf fyw i weled y ddyled wedi cael gorphen ei thalu.' Cafodd ei ddymuniad, a bu ddiolchgar i'w Dduw am gael gweled yr eglwys allan o gyrhaedd gofid ar y pen hwnw: ond dywedai weithiau, "Efallai mai ryw ffordd arall y daw y gofid i mewn.'"

E. ROWLANDS.

*Oddiwrth y* PARCH. T. REES, *Cendl.*

ANWYL FRAWD,

"Mewn cydsyniad â'ch cais, yr wyf yn anfon i chwi ychydig linellau o berthynas i'r diweddar Barch. D. S. Wedi darllen y Cofiant hyd tu-dalen 65, yr wyf yn canfod i chwi fod yn ddiwyd a ffodus iawn i gasglu pob hanes o bwys, a ellir gael am y gwr parchedig ac anwyl. Yr unig beth a gynnygaf fi yn y llythyr hwn yw, crybwyll ychydig o ffeithiau o berthynas i ymddygiadau caredig Mr. Stephenson tuag attaf fi yn bersonol, yr hyn, fe ddichon, a dafla radd o oleuni ychwanegol ar hynawsedd ei gymeriad. Yn mis Mai, 1834, y cefais y fraint o'i weled gyntaf. Dygwyddodd i ni gyfarfod yn Ystradgunlais, y prydnawn cyn Cymanfa Cwmllynfell; a chlywais ef yn pregethu y noson hono, yn yr Ystrad, o flaen yr

hen dad parchedig Morgan Lewis, Glynnedd, ar dydd Iau canlynol yn y Gymanfa, yn Nghwmllynfell. Er fod amryw weinidogion, a phregethwyr henach na mi yn yr Ystrad, y prydnawn rhag-grybwylledig; ac er nad oeddwn ond llengcyn dwy-ar-bymtheg oed, a hynod drwsgl a gwledig fy ymddangosiad, gwnaeth Mr. S. y fath sylw o honof, ac ymddyddanodd gymaint â mi a phe buaswn y gwr mwyaf urddasol yn yr ystafell. Annogodd fi i dalu ymweliad â Mynwy, a chofio rhoddi rhan o Sabboth iddo ef yn Rehoboth. Tua phen dau fis wedi hyny aethum gyda chyfaill i daith trwy ranau o Forganwg a Mynwy, a dygwyddodd ein bod yn Rehoboth nos Sadwrn a boreu Sabboth cyn y Gymanfa bedair sirol a gynaliwyd yno yn Gorphenaf, 1834. Cawsom Mr. S., Mr. D. S. Lewis, ac eraill o'r cyfeillion yn rhyfeddol o garedig i ni. Ar ddiwedd y cyfarfod bore y Sabboth dywedodd Mr. S. wrth y gynnulleidfa, fod ganddo ef ddigon o waith i gasglu at y Gymanfa yr hwyr hono yn lle pregethu, ac am hyny ei fod yn cymeryd ei ryddid i'm cyhoeddi i fod yno yn yr hwyr drachefn, ac y cawsai fy nghyfaill fyned rhagddo i Gendl yn ol trefn ein cyhoeddiadau, ac felly y bu. Bore dydd Llun, wedi i'r brodyr ac yntau ymgynghori â'u gilydd, rhoddasant i mi 15s. am fy ngwasanaeth y Sabboth. Arosais yno dros y Gymanfa, ac ar nos y Gymanfa cyhoeddwyd fi, gydag un o'r gweinidogion dyeithr, i bregethu yn nghapel y Wesleyaid. Mae y caredigrwydd a ddangosodd Mr. S. a'i gyfeillion i mi y pryd hwnw yn aros byth ar fy nghof, ac nis gallaf ei anghofio tra byddwyf byw. Yn niwedd y flwyddyn 1836, sef yn mhen ychydig fisoedd wedi i mi gael fy urddo yn Nghraig-y-fargod, cefais lythyr oddiwrth Mr. S., yn fy hysbysu fod Cyfarfod Chwarterol Mynwy i fod yn Rehoboth, yn mis Ionawr canlynol, a chan ei bod yn arferiad i ryw un bregethu ar bwngc yn mhob cyfarfod, ei fod ef wedi fy mhenodi i bregethu yn y cyfarfod hwnw, ar y

pechod o gymeryd enw yr Arglwydd yn ofer. O hyny allan, hyd ddiwedd ei oes, gwnaeth fy hen gyfaill anwyl bob peth oedd ar ei law er fy nyrchafu i sylw y cyhoedd. Peth hawdd ddigon yw cael dynion i sylwi ar ddyn *ar ol* iddo allu gweitho ei hun i sylw y byd, ond anaml iawn yw y dynion a ymaflant fel y gwnelai Mr. S. yn nwylaw bechgyn tlodion, i'w harwain allan gam a cham, o niwl anghyhoeddusrwydd i sylw y lluaws. Nid myfi yw yr unig un y gwnaeth Mr. S. y caredigrwydd hwn ag ef. Pa le bynag y gwelai ef ddynion ieuainc gobeithiol, *diddichell* a *gostyngedig*, rhoddai bob cymhorth a fedrai iddynt; a diau fod amryw frodyr yn y weinidogaeth, yn fyw, a allant dystio iddo ef eu gweled pan yr oeddent yn rhy fychain i eraill i'w canfod.

Er na chafodd Mr. S. fanteision athrofäol, mwy na minau, a'i fod weithiau, o ran digrifwch, yn herio y myfyrwyr y pregethai y gweinidogion na fuont mewn colegau yn drech na hwy, eto yr oedd yn rhy gall i ddiystyru manteision dysgeidiaeth, fel y profir, tu hwnt i anmheuaeth, gan ei ymdrechion diflin i gynnorthwyo y gwyr ieuaingc a gyfodasant i bregethu yn ei eglwys, i fyned i'r coleg.

Yr oedd synwyr cyffredin, gwylder, hynawsedd, a gostyngeiddrwydd ein Stephenson anwyl o'r fath, fel y rhoddai barch i'r rhai y mae parch yn ddyledus iddynt, a rhoddai law o gymhorth i'r gwan a'r diymgeledd, ac yr ymddygai yn mhob man yn deilwng o weinidog efengyl Mab Duw.

Gwelaf fy mod eisioes wedi ysgrifenu mwy nag a fwriadwn wrth ddechreu, gan hyny terfynaf yn awr, gan obeithio y bydd y Cofiant yn fendith i laweroedd, ac y cewch chwi a minau, anwyl frawd, a'n holl frodyr yn y weinidogaeth, ein llenwi â deuparth yspryd ein hanwyl gyfaill ymadawedig, ac y coronir ein llafur yn gyffelyb i'r eiddo ef."

"Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch yn frawdol,

THOMAS REES."

*Oddiwrth y* PARCH. T. GRIFFITHS, *Blaenafon*,

BARCH SYR:

Yr wyf yn dymuno eich llwyddiant yn eich anturiaeth glodwiw. Y mae y diweddar Barchedig David Stephenson, Rehoboth, Brynmawr, yn teilyngu Cofiant, a hyderaf y galluogir chwi i wneyd un teilwng o hono

Yr oedd genyf olwg fawr arno. Edrychwn arno, a theimlwn tu ag ato, fel fy nhad; ac y mae genyt achos i feddwl yr edrychai yntau arnaf finau, ac y teimlai tu ag ataf, fel ei blentyn. Ei farwolaeth a effeithiodd yn ddwys ar fy meddwl. Teimlwn fel pe buaswn wedi cael rhyw golled fawr, ac yn wir mi a gefais golled fawr—collais gyfaill cywir, ffyddlon, a defnyddiol. Bu o ddefnydd mawr i mi. Yn fuan wedi i mi gael fy sefydlu yn Blaenafon, telais ymweliad iddo, ac wrth ymddyddan am Blaenafon, dywedodd wrthyf yn ei ddull difyrus arferol, "Y mae genych chwi fwy o gysur wrth ddechreu eich gweinidogaeth na llawer—nid oes un gweinidog yn marw yn Blaenafon." Nid oedd hyn ond math o arweiniad i mewn i bethau ereill. Rhoddodd i mi ddysgrifiad cywir o'r bobl, ac amryw gynghorion a chyfarwyddiadau. Cyn hyny teimlwn yn dra phryderus o herwydd rhyw bethau ag oeddwn wedi glywed am y bobl; ond ni theimlais y cyfryw bryder byth wedi hyny; ac wrth ddilyn ei gynghorion a'i gyfarwyddiadau, yr wyf wedi treulio dros ddeuddeng mlynedd yn Blaenafon mor gysurus ag un gweinidog yn Nghymru. Mantais fawr i weinidog ieuangc yw cael hên weinidog call a phrofiadol ar ei bwys.

Yr oedd Mr. S. yn ddyn anghyffredin. Beth fuasai pe buasai wedi cael y manteision a gafodd llawer. Un gwr call a dysgedig iawn, wrth son am dano ef, a rhai gweinidogion enwog ereill, a ddywedodd, "Y mae yr Arglwydd yn ddoeth ac yn dda iawn—pe buasai wedi caniatau addysg athro-

faol iddynt hwy, ni buasai lle i neb arall ddangos eu hunain; ychydig sydd yn awr."

Yr oedd wedi dysgu yr orchest-gamp hono o wneyd ei hun mor isel ar iselaf, ac eto heb iselhau ei hun. Fel un o'r bobl gyffredin yr ymddangosai ar hyd heolydd Brynmawr, eto telid parch mawr iddo gan bawb, Dygwyddodd i mi fyned i'w dy lawer gwaith pan oedd yn cael ei gylchynu gan amryw o bobl ei ofal ac ereill; yr oedd fel un o honynt hwythau, siaradai fel hwythau, yr oedd yn bob peth fel hwythau, eto yr oedd rhyw fawredd ynddo ag oedd yn *commandio* parch ac ymostyngiad oddiwrth bob un. Math o *simplicity* mawreddog oedd ei *simplicity* ef.

Yr oedd wedi ennill y fath ddylanwad ar ei eglwys a'r gynnulleidfa fel yr oeddynt at ei amnaid, ac wrth ei ewyllys yn mhob peth. Efe ydoedd was ac arglwydd: gwasanaethai a llywodraethai hwynt. Efe oedd yn ben, ac yr oedd pawb yn foddlon, ond ei hunan. Ryw dro wrth ymddiddan â'n gilydd am ryw weinidogion ac eglwysi ag oedd yn croesdynu, dywedodd, "Ymladd am y llywodraeth y maent—y mae y gweinidogion yn ffol iawn—y maent yn ceiso y llywodraeth; pe na buasent yn ei cheisio buasent yn ei chael. Y fi sydd ben yn Rehoboth—ni cheisiais y llywodraeth erioed, ac ni theimlais un awydd am dani, eto y fi sydd ben; nid ydynt yn gwneyd dim heb ymgynghori â mi, nac yn groes i fy meddwl; yr wyf yn cael fy ffordd fy hun; yr wyf yn cael gormod; yr wyf yn teimlo y gofalon yn faich i mi weithiau, ond parch i mi yw y cwbl. Cyn y caiff y gweinidogion y llywodraeth, rhaid iddynt ennill dylanwad, ac yna cant fwy nag a ewyllysiant." Gwers gwerth i bob gweinidog ei dysgu.

Yr oedd yn hollol ymgysegredig i achos crefydd. Nid oedd ganddo un *interest* personol, ac ni theimlai nemawr o *interest* mewn dim, ond yn yr hyn y teimlai yr eglwys yn gyffredinol *interest*

ynddo. Ryw dro, wrth ymddyddan â'n gilydd am gyfarfodydd tri-misol a blynyddol y Sir, gofynais iddo pa ham na buasai ef yn dyfod iddynt yn fwy mynych; atebodd, "Nid wyf yn eu gweled o fawr gwerth i mi fyned iddynt, nid yw'r eglwysi yn gyffredinol yn teimlo dim *interest* ynddynt. Pan oedd yr eglwysi yn danfon am danynt, ac yn eu cael trwy bleidlais, yr oeddynt yn teimlo *interest* ynddynt, edrychent arnynt fel eu cyfarfodydd eu hunain, a gwerthfawrogent hwynt fel y cyfryw, ond wedi i *gylchres* gael ei gwneyd, a math o orfodaeth gael ei roddi ar yr eglwysi i'w derbyn yn eu tro, collodd yr eglwysi yn gyffredinol bob *interest* ynddynt, edrychant arnynt fel cyfarfodydd perthynol i'r gweinidogion, a derbyniant hwynt yn fwy o barch i'r gweinidogion na dim arall. Nid oes dim yn fwy gwrthwynebol i deimlad y natur ddynol na gorfodaeth, yn neillduol gorfodaeth o natur grefyddol." Syniadiau teilwng o sylw gweinidogion pob *cyfundeb*.

Gallaswn ysgrifenu llawer am y marwol anfarwol S.; ond ni chaniata amser yn bresenol. Terfynaf gan ddymuno pob da i chwi a'ch ymgeledd gymhwys.

Yr eiddoch,

THOMAS GRIFFITH.

*Oddiwrth y* PARCH. D. REES, *Llanelli*.

ANWYL FRAWD:

"Da oedd genyf glywed eich bod yn cymeryd y gorchwyl arnoch o gyfodi Cof-golofn i'r hybarch ddiweddar David Stephenson. Fe allai nas gallesid ymddiried y gwaith i neb mwy addas; gan yr adwaenech ef er pan oeddych yn blentyn, ac i chwi gael eich magu dan ei weinidogaeth, cawsoch well cyfleusdra na nemawr i sylwi ar ei ragoriaethau. ———Nid wyf er hyny yn golygu eich bod wedi ymosod ar y gorchwyl mwyaf hawdd Yr oedd D. S. yn ddyn anghyffredinol. Nid dyn bob dydd

oedd, eto treuliodd ei fywyd defnyddiol iawn heb i lawer o'r tu allan i gylch ei weinidogaeth feunyddiol wybod am dano, ond trwy hanes Yr oedd yn seren o gryn faintioli; ond cyfyngodd ei lewyrch, agos yn hollol, i Sir Fynwy, ac yn fwy neillduol i Rhymney a Nantyglo Y mae genych, gan hyny ddwyn ger bron y byd deithi meddwl un anadnabyddus i'r cyffredinolrwydd, a dangos gwir fawredd cymeriad na ddeallwyd mo hono ond yn anmherffaith.

Mae yn wir y byddai darlunio gwrthddrych eich Cofiant yn ei ddechreuad bychan, yr anfanteision boreuol y bu tanynt, yr anhawsderau dirfawr y treiddiodd trwyddynt, a'r safle ddymunol a feddianai pan dorwyd ef gan frenin dychryniadau, yn mynegi ar unwaith ei fod yn rhyw un mwy na'r cyffredin, mewn rhyw bethau o leiaf: ond er llesoli y byd, yn enwedig y rhai ddichon fod yn yr un amgylchiadau ag oedd ef ynddynt yn ei ddechreuad, byddai yn fuddiol hysbysu pa beth oedd ynddo yn rhagorol, ac yn mha bethau yr oedd ei fawr nerth yn gynnwysedig; pa fodd y dringodd mor uchel, y cyrhaeddodd ddylanwad mo'r ddwys a thrwyadl, ac y gwnaeth gymaint o ddaioni dros ei Dduw ——— Bu fy nghyfleusderau i wybod am dano yn ei ddull o drin pethau, a'u dwyn yn mlaen yn yr eglwys, yn rhy ychydig i mi allu ffurfio barn am dano yn iawn; ond cefais ychydig o gyfleusderau i farnu am dano mewn amgylchiadau y dangosai y dyn, y cristion, a'r gweinidog eu hunan, yn rhydd a difwriad. Gwelsom rai yn ffugio santeiddrwydd yn y gynnulleidfa, a dangos llawer o dduwioldeb lle y gwyddent fod sylw cyffredinol arnynt, ond yn gwneyd ymddangosiadau llai ffafriol lle y byddai cochl ffugioldeb wedi llithro lawr, a gwiliadwriaeth wedi myned yn anghof. Dan y ffigysbren yr oedd yn hawddaf canfod Nathanael, y neb a adnabuont Mr. S. yn yr amgylchiadau anghyhoedd hyn a foddlonwyd, debygwn, ei fod yn 'Israeliad yn wir, yn yr hwn nad

oedd dim twyll.' Unwaith y clywais ef yn casglu ar nos dydd yr Arglwydd yn Rehoboth: gallesid gwybod oddiwrth yr hyn a ddywedai ei fod yn deall dynion, ac oddiwrth ei ddull yn dweyd yr oedd yn amlwg fod ganddo ddawn i ddylanwadu ar ddynion; yr oedd agwedd y gynnulleidfa luosog yn profi yn eglur eu parch iddo, a'u parodrwydd i gynnorthwyo yr achos y dadleuai drosto. Y pregethau a glywais ganddo oeddynt syml, diaddurn, tarawiadol, effeithiol, ac i'r pwrpas; ond yn ol y farn a ffurfiais am dano yn yspaid yr amryw flynyddoedd y bum yn yr arferiad o gyfeillachu ar droion ag ef, meddyliaf fod ei fawredd yn gynnwysedig, nid mewn galluoedd mwy ehang a bywiog na'r cyffredin—nid mewn ymroadau anghyffredinol i fyfyrio a chwilio allan bethau dyfnion yr efengyl, ac nid yn ei waith yn addurno ei bregethau â blodau; ond yn ei dduwioldeb diffuant, ei onestrwydd diwyro. ei sêl dros y gwirionedd, ei ddiragrithrwydd, ei ymddygiadau cyffredinol, a'i synwyr cyffredin cryf iawn: hwyrach na bu i nemawr fyned allan fel cenadau, mewn ufydd-dod i orchymyn eu Harglwydd, yn feddianol ar y cymhwysderau a nodais yn fwy trwyadl na Mr. S., 'yn gall fel y sarff a diniwed fel y golomen;' ac yr oedd ei gallineb yn mhell o fod ar lun cyfrwysdra cadnöaidd, a'i ddiniweidrwydd yn mhell iawn o fod ar lun llwfrdra gwasaidd ac anmhenderfynol."

"Nid yw gwir rinwedd, bob amser, wedi, nac yn cael ei pharchu, ond efe, o herwydd ei rinwedd, a berchid. Yr oedd ei ddylanwad dros feddyliau pob math o ddynion yn ddylanwad pur. Gallwn enwi rhai anghreifftiau a adroddodd wrthyf, nid mewn ffordd o ymffrost, canys ei iaith gyffredin ef oedd eiddo Paul, 'nid wyf fi ddim;' ni bu neb yn fwy gwir hunan ymwadol nac ef. Ar nos Sadwrn, pan oedd ty tafarn cyfagos yn llawn o yfwyr, llawer o'r rhai oeddynt Wyddelod, ac yn cadw twrw anghyffredinol, ac yn ei rwystro ef a'i wraig

i gysgu, cododd i lawr rhwng deuddeg ag un o'r gloch y boreu, ac wedi ymwisgo aeth allan ac i'r tafarn, ac er bod y rhan amlaf yn llawer mwy na haner meddw. a'r lleill yn feddw iawn, tawodd pawb pan ymddangosodd Mr. S. ar lawr y ty; ymgiliodd rhai o honynt yn union, siaradodd ef â'r lleill mor fwyn, ac eto yn benderfynol, fel yr arllwysodd y ty yn hollol mewn ychydig fynudau: rhai a ddywedent gyda llw, 'yr oeddwn yn meddwl cael chwart arall, ond gan eich bod chwi, Mr. S., yn ceisio ni awn adref,' nid oedd un bachgen mor nwydwyllt, hyd nod pan fuasai wedi ei ferwi gan gwrw, a'i gôt ar lawr i ymladd, na fuasai ef yn gallu ymaflyd ynddo, a'i ddal yn llonydd, a'i anfon adref. Nid adwaenais neb yn elyn mwy penderfynol i bechod, ac yn burach ei deimladau; medrasai siarad yn hylon a difyr, a chwerthin yn iachus am chwedl ddigrif, (a pha ddyn onest na fedr,) ond yr oedd yn hawdd i gyfaill wybod pa fath ddynion oedd ei gyfeillion, nid oedd ef yn dweyd llawer yn erbyn neb, eto dangosai yn amlwg iawn pwy oedd y rhai y cydymdeimlai â hwynt. Gwasanaethodd ei genhedlaeth yn ol ewyllys Duw, ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig. Dymunaf lwyddiant i chwi i addurno ei fedd â chofiant dyddorawl."

"Yr eiddoch,
DAVID REES."

*Ychydig o ddysgrifiad ychwanegol o'i ddull yn cyflawni ei swydd*—Pan byddai ymrysonau, mân lithriadau, neu ysbryd cynhen yn dyrysu rhai o'i aelodau, byddai yn adnabod i bwy y gallai weinyddu ceryddon priodol yn bersonol. Nis barnai yn briodol i wneyd hyny yn bersonol i bob math; ond triniai y cyfryw allan o air Duw yn yr areithfa, oddiwrth destynau priodol i'w hamgylchiadau, nes gorfodai yr euog i deimlo a chywilyddio; a gwnai hyny heb amlygu cyfeiriad personol, nac yspryd antwyn. Wedi trin

yn llym, megys mewn ffordd o dybiaeth, y bai a amcanai argyhoeddi, dywedai ambell waith, 'Os yw y cap yn *ffitio* rhai o honoch, gwisgwch ef.' Dywedai yn aml ei fod ormod tan draed ofn dynion pan fyddai ar y llawr, ond pan esgynai y pwlpud, ei fod yn teimlo'r fath hyfdra fel y gallai draddodi ei feddwl heb ofni neb.

Mae yn gofus genym am lawer o'i ymadroddion a gawsant y fath argraff arnom ein hunain, ac ar y dyrfa, nad anghofir genym byth, ac nid ydym yn cofio chwaith weled dylanwad dwysach a mwy cyffredinol tan weinidogaeth neb. Byddai yn gyffredin tua haner awr ar ol darllen ei destyn yn bur araf, gydag egluro ei destyn a'r adnodau cylchynol, a byddai y gynnulleidfa'r pryd hwnw yn lled ddigyffro, ac aml un yn llygad-wibio: ond gwelid yn raddol fod ei fater yn cydio yn ei feddwl, a'i feddwl yn ei fater; ymunionai, ystwythai, a chryfhäai ei lais, a serenai ei lygaid; erbyn hyn byddai llygaid pawb tu a'r areithfa, clywid aml uchenaid, a gwelid ambell ddeigryn: gellid meddwl erbyn hyn fod ei holl enaid yn pelydru yn ei wedd, a thywalltai ei eiriau fel tân poeth ar y gynnulleidfa; pan welai fod y teimladau yn cyffroi, tröai ei law, ac â llais uchel a threiddgar, gwaeddai, 'Gogoniant, gogoniant;' os gorfoleddus fyddai ei fater: neu, 'I gymod wrandawyr; arfau i lawr wrandawyr,' os argyhoeddiadol fyddai; a byddai teimladau y dorf erbyn hyny yn hawddach eu dirnad na'u dysgrifio.

Cof gennym ei glywed unwaith yn annerch y rhai difraw: ac wedi trin eu pechodau a'u difrawder, a'r gosp oedd yn eu haros; gwaeddodd allan, gan guro'r pwlpud, "Fel mai byw'r Arglwydd, a byw eich eneidiau chwithau, os na adewch eich arferion drygionus a dychwelyd gyda brys at Dduw, fe'ch gyrir ymaith yn eich drygioni; ac os yw eich cydwybodau yn gallu cysgu dan weinidogaeth yr efengyl, fe i deffröir dan ddyrnod brenin dychryniadau; bydd

rhaid goddef ei chnöadau ar wely marw, ac i ba le y ffowch y pryd hwnw. Gellwch fyned yn mlaen yn ddifraw gyda'ch meddwdod, eich *damits*, eich dawnsiau, eich maswedd, a'ch rheialtwch: ond cofiwch wely angeu: mae degau o honoch ar y llithrigfa at gythreuliaid, ac eto medrwch fod yn ddidaro. Os cewch eich damnio, nid am nad yw Duw am eich achub y cewch hyny; a thyma finau yn golchi fy nwylaw oddiwrth eich gwaed. Bydd rhai o honoch efallai yn y dagfa gan angeu cyn y cewch Sabboth mwy; pwy a'ch difyrau y pryd hwnw? ai eich cyfeillion difyr? ai y *ffidl* neu'r delyn? Och! na bydd uffern wedi dechreu cyneu yn eich mynwesau Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw: am hyny ffowch, ffowch! Mae Iesu heddyw yn derbyn pechaduriaid."

Dro arall pan wrth fwrdd y cymun yn darlunio cariad y Gwaredwr, dychymygai fod dyfodiad pechod i'r byd wedi peri dystawrwydd trwy yr holl nefoedd; a bod y Duw mawr, yn nghanol y dystawrwydd, wedi cyhoeddi ei fwriad i achub y troseddwr, ac iddo ofyn "Pwy a anfonaf? a phwy a â trosom ni?" ond teyrnasai dystawrwydd trwy yr holl luoedd angylaidd: nid oedd neb yn ateb nes i Fab y Brenin waeddi allan, "Wele fi, anfon fi." Wedi ei ddysgrifio yn yr addewid, a'r cysgodau, dangosai ef yn nghyflawnder yr amser yn gwaeddi, "Wele fi yn dyfod," ac uffern a daear yn cynhyrfu yn ei erbyn, dilynai ef wedi hyny trwy ei lafur, ei bregethau, a'i wyrthiau, &c. hyd Gethsemane, yna gwaeddodd, "Iesu mawr, ai nid gwell i ti roddi fyny; mae y frwydr yn boeth iawn, a'r gelynion yn lluosog," "O na," meddai yntau, "cuddiwydd edifeirwch o'm golwg." Dilynodd ef drachefn i lysoedd yr archoffeiriad, a Philat, a Herod; y goron ddrain a'r fflangellau; ei waith yn codi ei groes pan oedd ei waed yn lliwio'r palmant, a'r dorf ddideimlad yn gwaeddi, "Ymaith ag ef," ac yntau yn myned tua phen y bryn. Yna

gwaeddodd drachefn "Iesu mawr a oes arnat ddim chwant troi yn ol?" "Nac oes," clywaf ef yn dywedyd "cuddiwyd edifeirwch o'm golwg." Yna dysgrifiai ei ddyoddefiadau ar y pren a'r Tad yn ymguddio, yr haul yn tywyllu, y ddaear yn crynu, a'r creigiau yn hollti &c. Yna gwaeddodd drachefn "Bendigedig, tu a thri o'r gloch prydnawn dacw 'r Cyfryngwr yn gwaeddi "Gorphenwyd," â'r Tad yn gwaeddi "Boddlonwyd." Dacw iachawdwriaeth i bechadur wedi ei gorphen."

---

## PENNOD VI.

### Ei Hynodion Casgliedyddol.

Gan fod Mr. S, yn ei gysylltiad â chasglu at achosion da, mo'r hynod, a bod hyd y nod y rhai anmharotaf i gydnabod ei gymhwysderau yn gorfod addef ei ragoriaeth yn hyny, dysgwylir i ryw gongl o'r Cofiant gael ei neillduo i'w ddangos fel Casgliedydd.

Bu rhyw gyfeillion yn bwrw golwg, yn gyfrinachol, ar swm ei gasgliadau tros ei oes a hysbysant ni nad yw'r cwbl gasglodd at bob achos da ddim tan chwe' mil o bunnau, heb law y casgliadau, at y weinidogaeth gartrefol. Wrth ystyried, mai gwr tlawd, ac yn troi yn benaf yn mysg tlodion, oedd; ac hefyd mai gartref y casglodd agos y cwbl; yn nghyd a bychandra ei gynnulleidfa tan y blynyddoedd diweddaf o'i oes, mae y fath swm ddirfawr yn edrych yn debyg i wyrth. Mae yn deilwng sylwi nad damwain oedd hyn, ac hefyd nad manteision uwch law ereill oedd ganddo (oblegyd yr oedd ei fanteision yn wir yn llai na llawer); ond mai ffrwyth medr a diwydrwydd oedd. Ffynonellau ei lwyddiant casgliedyddol oeddent:—1. Penderfyniad diysgog i ymgymeryd â'r gofal, a

myned trwy y gorchwyl, a hyny gartref. Nid oedd dim, na neb a'i hysgogai nac i ymddiried y gorchwyl i ereill, na'i adu i'r oes ddyfodol, nac i dybied mai crwydro 'r gwledydd i gasglu oedd oreu. 2. Ei ddiwydrwydd i fod wrthi yn gyson, ac nid ar ryw bylau. 3. Ei ymostyngiad dirodres i geisio gan bawb o bob math, gan siarad â hwy mewn dull digon syml a dealladwy iddynt. Elai ef at y pen ymladdwyr, y meddwon, y crythwyr, a'r rhegwyr, a siaradai â hwy yn siriol, gan eu cymeryd fel pe buasent yn gydradd iddo, a gwneyd ei hun yn gyffelyb iddynt hwythau, ond yn eu pethau llygredig: ac fel hyny celai lawer swllt, ac ambell goron, gyda llw yn enw 'r gwr drwg mai efe oedd y gweinidog goreu yn yr holl weithfeydd; fod y gweinidogion ereill yn rhy falch i wneyd sylw o honynt hwy; gan hyny y rhoddent iddo serch bod wrth lai o gwrw, ac y deuent hefyd i'w wrando dydd Sul. 4. Ei ofal â'i fedrusrwydd i drefnu ei gynlluniau, yn gystal a'i areithiau, nid yn unig at amgylchiadau; ond hefyd at chwaeth y gweithwyr. Efallai na bu ei gampusach ar y pen hwn. 5. Yr oedd rhyw dystiolaeth anghyffredin yn nghydwybodau y werin am ei ddiniweidrwydd, ei ddi-ddichellrwydd, a'i onestrwydd; ac yr oedd hyny yn cael dylanwad na fedrwn yn hawdd ei dysgrifio. Gwyddom mai peth cyffredin yn yr ardaloedd hyn, gan y meddwon uwch ben eu cwpanau, a rhai anystyriol yn eu cyfeillachau, pan soniont am ryw gasgliadau, yw dywedyd, "Ha! Ychydig wel y paganiaid, druain, o honynt." "Maent yn myned trwy lawer llaw cyn talu am y capel." "Fydd y casglwr ddim ar ei golled, &c." Ond barnwn pe dywedasai rhyw feddwyn ryw beth tebyg wrtho, neu am dano EF, y buasai mewn perygl o gael ei dynu yn gareiau gan ei gydfeddwon. Nid peth bach, yn y fath leoedd a hyn, yw fod diniweid-rwydd gweinidog uwch law anmheuaeth.

Yr oedd o egwyddor dros gasglu gartref; a gartref y casglodd y cwbl at y capel mawr diweddaf,

a'r gyfran fwyaf at y lleill: ond bu ryw faint ar hyd y wlad yn casglu at y ddau gyntaf. Nid oedd y teithiau hyny heb eu helbulon, ac yr oedd yn cyfarfod ag ambell dro digalon, pan yr oedd yn llai adnabyddus a phoblogaidd nac y daeth wedi hyny. Hysbysir ni am dano ryw dro yn Sir Gaerfyrddin yn casglu at y Caban Gwyn, ei fod ryw noswaith mewn capel yn y wlad: ac iddo wedi dywedyd ei oreu tros y casgliad ar ddiwedd yr oedfa, fyned â'i het at y drws, a'r diacon, yr hwn oedd ffermwr galluog, yn dal y ganwyll iddo: ond i'r bobl fyned allan heb roddi un hatling, gan eu gadu hwy ill dau ar ol. Yna dywedodd y diacon wrtho am ddal y ganwyll, a thynodd o'i logell bwrs *canvass* mawr yn llawn arian, ac wedi ei gylymu â charai ledr; ac wedi dattod y garai tynodd swllt allan a rhoddes ef i Stephenson a dywedodd, "Dyna: gwelwch yn dda roi un geiniog ar ddeg i mi Syr." Yr ydys yn sibrwd hefyd, na chafodd ddim degwm chwaith y noswaith hono, am mai casglu yr oedd. Ond nid oedd hyn yn ei ddigaloni; oblegyd cawn ef drachefn yn myned i'r Fenni, at y Seison i gasglu at yr un capel, ac yn pregethu Cymraeg iddynt. Yr ydys yn dywedyd nad yw pobl y Fenni yn deall un gair o Gymraeg ond ar ddyddiau marchnad, sef Mawrth a Gwener, pan mae pobl y wlad a'r gweithiau yn dyfod yno i brynu, a bod yr ychydig maent yn wybod y dyddiau hyny yn myned yn anghof bob sill can gynted ac yr ymadawo'r cyfryw. P'odd bynag am hyny; nid annhebyg iddynt gofio ychydig tan y Sabboth y tro hwnw, oblegyd cafwyd casgliad da ar ol y bregeth Gymraeg. Ond diwedd yr ystori yw, trwy ymdrech penderfynol er pob anfanteision cafwyd y Caban Gwyn yn rhydd.

Agorwyd capel cyntaf Rehoboth dechreu Tachwedd 1827, ac er nad oedd ei gynnulleidfa y pryd hwn ond tu a 70 o nifer yr ydym yn cael fod erbyn y 4ydd o Awst canlynol ddim llai na £234

10s. o gorff y ddyled wedi ei talu trwy lafur cartrefol heb law symiau trymion am daclusu oddi amgylch y lle. Yna aeth S. oddi amgylch ardalodd ereill i gasglu a chasglodd mewn amser byr tu a £94 heb fyned yn mhell; casglwyd y gweddill gartref. Yr oedd rhyw galon yn y wlad i gynnorthwyo y sawl oedd yn ymdrechu gartref fel yr oedd ef. Wedi y casglai yn gyhoeddus ar ddiwedd oedfa mewn capel, neu dy annedd, elai dranoeth a rhyw frawd gydag ef oddi amgylch yr ardal ac yr oedd yn medru llwyddo yn rhyfeddol gyda 'r werin. Clywodd yn y Ca's-newydd am ben ymladdwr oedd yn enwogi ei hun trwy faeddu pawb; mynodd afael ynddo a chafodd swllt ganddo. Gellid enwi llawer amgylchiad cyffelyb. Yr oedd yn dra gofalus wrth gasglu, i fynu rhyw un cyfrifol gydag ef i weled pob ceiniog yn cael ei rhoddi ar y llyfr, fel na fedrai un gelyn gael lle i roi bys i mewn i gynhyrfu anmheuaeth yn nhylch ei gywirdeb. Pan oeddid yn yr ymdrech olaf i orphen talu am gapel cyntaf Rehoboth, yr oedd gwraig dlawd wedi addaw rhoddi 5s.. ond lladratwyd crochan a sibren (*saucepan*) oddiwrth ei thy pan oedd mewn cwrdd gweddi y nos cyn casglu: clywodd Mr. S. hyny, ac adroddodd yr hanes ar goedd y cyfarfod, wrth glywed hyny taflodd Mrs. —— 5s. i'r bwrdd tros y wraig, yna gwaeddodd Mr. S. "Dyma goron y crochan wedi dyfod, 'does bosibl na ddaw pawb bellach:" effeithiodd hyny yn dda, a chafwyd casgliad rhagorol. Pan oeddid o fewn 15p. i orphen talu y ddyled hono, safodd Mr. S. nos Sabboth ar risiau y pwlpud, a gwaeddodd, "'Nawr fechgyn a merched, gwyr a gwragedd, mae y llong yn ngolwg y tir, gwnewch gyda'ch gilydd roddi un *pull* a hwnw yn *strong pull and a pull altogether*, âf finau allan i'r heol, a'm het i dderbyn eich rhoddion; gwnewch eich goreu am unwaith." Ac allan yr aeth, a'r dorf ar ei ol, y rhai a ymwasgent yn mlaen i twrw am y cyntaf i'r het, nes i Mr. S. waeddi

"Mae copa yr het yn tori;" (ond trwy ddal ei law tani, daliodd) parodd y waedd gynhwrf chwanegol a bwriwyd llawer chwaneg i mewn. Wedi dychwelyd i'r capel a chyfrif yr arian, cafwyd eu bod tu a £25, felly cafwvd mwy na digon. Fel hyn dilewyd yr holl draul mewn 2 flynedd a 10 mis.

Fel yr oedd yn myned yn mlaen mewn dyddiau yr oedd yn cynyddu mewn medrusrwydd i gasglu, gan hyny yr oedd yn fwy campus fyth gyda 'r capel diweddaf. Heb law ei ddull difyr a diniwaid i ennill y serch, rhoddodd holl nerth ei feddwl ar waith i ddyfeisio cynlluniau er hwylusu 'r ffordd i'r bobl i roddi. Gosodwn ei gynlluniau yn mlaenaf, y rhai oeddynt fel y canlyn:

1. Ceisiai ryw nifer i ymrwymo i roddi swm penodol bob mis. Yr oedd y rhai hyn yn bum dosparth; Y 1af i roddi £1 y mis (rhyw ddau neu dri wnelai hyn). Yr 2il i roddi 10s. Y 3ydd 5s. Y 4ydd 2s. 6c.; ar 5ed 2s.

2. Ceisiai ryw nifer benodol i roddi swm penodol bob 3 mis, megys 10 i roddi 10s. yr un, fel y gwnelent £20 y flwyddyn rhyngddynt.

3. Ceisiai gan y gweithwyr roddi ffrwyth twrn y mis o'u gwaith i'r dyben hwn, darbwyllai hwy i weithio ar ryw dwrn arferent dreulio 'n segur, a rhoddi hwnw, megys Llun dechreu 'r mis, neu Llun y taliad, a dywedai y cymerai 'r ddau os ymdeimlent. Dangosai iddynt y dull diffrwyth yr arferent dreulio 'r dyddiau hyny; ac na buasent ar golled wrth roddi at y capel yr amser nad oeddent yn arfer ennill dim; heb law y buasai yn eu cadw rhag gwario, a gwneyd drygau. Cymerai enwau y sawl a addawent felly, ac elai i edrych a fyddent yn gweithio ar y cyfryw amser.

4. Byddai yn daer am ran o'r arian werid yn ofer, megys am y cwrw gan yr yfwyr, neu am ddillad gwychion gan y merched. Cauai y naill ddalen i ddrws y capel fel na allai y bobl fyned allan yn

rhy gyflym, a phan welai rai y gwyddai eu bod yn gwario y cwbl ar gwrw yn dyfod at y drws, estynai ei droed i'w hattal allan, a galwai hwy wrth eu henwau, a mynai haner y swm fyddai yn eu llogellau; ac os gwelai rai o honynt ar ddydd Sadwrn yn myned tu a'r tafarn, elai atynt ar yr heol, a mynai haner y swm fyddai ganddynt, os na roddent yr oll. Fel hyn casglai symiau gan rai na chelai neb arall, ond y tafarnwr, ddim ganddynt. Pe gwnelsai llawer un felly gyrasai hwy o'r capel; ond yr oeddent yn cymeryd ganddo ef.

Dywedai hefyd wrth y merched fod yn rhaid iddynt roddi haner *bravery* y dillad at y casgliad; y gallent gael dillad a atebai yr un dyben wrth lai o bris: ysnoden 3c yn lle rhai 6c; cap o haner y pris, a gwn o arwach defnydd, a rhoddi'r gwahaniaeth at y casgliad. Sylwai ar bob un y byddai rhyw beth newydd ganddi, pe na buasai ond cap neu ysnoden, a phan ddeuent at y drws, os na roddent swm glew y tro hwnw, gwae hwy. Byddai y merched yn gofalu, rhag ei ofn, am swm iddo pan wisgent ddillad newydd.

Dywedai hefyd nad oedd yn caniatau ffair y Fenni, nac un *show* ond *show* creaduriaid, am iddynt roddi arian y ffair a'r *shows* at y capel. Ac yn neillduol nad oedd yn caniatau iddynt fyned i ddawnsio i'r tafarn o flaen "perfedd defaid." (Dywedai mai gan hen bregethwr Methodist, sydd yn awr yn y nefoedd, y cafodd y term.) "Och! ffei!" meddai, "os oes neb o'r merched sy'n gwrando yn Rehoboth yn dawnsio o flaen 'perfedd defaid,' ac yn myned ag arian y capel yno" Byddai yn rhybuddio am y pethau hyn hefyd pryd na byddid yn casglu.

5. Gosod y gynulleidfa i ymgystadlu â chynulleidfaoedd ereill. Byddai weithiau yn rhoddi her i Owens, Merthyr, a Rees, Llanelli, ac ereill; a byddai am eu trechu. Byddai gweinidogion parchus weithiau yn anfon her iddo yntau, ac yn mynu cyfarfod cyhoeddus at gasglu, a dyeithriaid i bregethu. Hysbysai

yntau hyn i'r gynnulleidfa, a dywedai, nad oedd arno ef eisiau doniau De a Gogledd at gasglu; mai eu calonau hwy oedd ef yn 'mofyn. Y gwnelent fwy ar ei gais ef nac ar gais dyeithriaid. Fel hyn byddai yn y rhan amlaf yn myned heibio i'r rhai a i herient.

*Ychydig anghreifftiau o'i ddull yn casglu.*—Dywed y Parch. T. Ll. yn ei lythyr. "Dywedai wrth y gwrandawyr, os rhoddent dipyn at y capel y byddai ganddynt *ddemand* am le yno. Yr oedd wedi dysgu 'r gynulleidfa i ddarparu yn mlaen llaw. Yr oedd un wedi cadw 3c. i'w rhoddi: ond ar y Sabboth wrth fyned tu a'r capel, cyfarfu â hen gyfaill yr hwn ai triniodd yn chwerw am na ddeuai i'r dafarn; "Na, na," ebe'r gwr, gan ddangos y 3c. "mae'r pas genyf, ac ni chymerwn lawer am golli 'r araeth gasglu."———Dywedai unwaith 'Galwodd dyn wrth ein ty ddoe a gofynodd, Ai dyma dy Mr. S.? Estynodd 3c. i mi gan ddywedyd, "Yr ydych yn casglu y fory, onid ydych?" Gofynais iddo o ba le yr oedd yn dyfod, a pha beth oedd ei alwad. Dywedodd mai o Sir Gaerfyrddin, ac mai gwerthu pysgod yr oedd. Aeth ymaith heb i mi gael gofyn rhagor iddo.———Yr oedd am weled ein capel yn rhydd; ac os gwelwch ef, da chwi prynwch ei bysgod, a pheidwch ei wasgu yn y pris." Hoffai yn fawr gasglu yn mysg y plant. Gwelais dyrfa o blant o'i amgylch, a rhai o gol eu mamau yn estyn iddo.———Dywedai wrth y gynulleidfa un tro 'Cefais fy *insultio* bore ddoe cyn dydd. Daeth Cromwell heibio, a rhoddodd her y casglai efe a'i gynulleidfa fwy na ni at y Gymdeithas Genadol; ac a ydych chwi yn foddlon i ni gael ein *abusio* fel hyn? Yr oedd hyn tu a mis cyn casglu. Pan ddaeth yr amser ymröodd y bobl i roddi a maeddwyd yr heriwr yn mhell."—T. Ll.

Arferai ddywedyd fod yn well ganddo gyfarfod â'r gwragedd a'r llogellau lledr, na'r *ladies* a'r cydau sidan: ei fod y rhan amlaf yn cael rhyw beth o'r llogell ledr: ond nad oedd yn cael dim,

ond "*How do you do*," a *courtsey* lle byddai 'r god sidan. Ryw dro (pan yn Tabor) taflwyd i'r het nes torodd, defnyddiodd hyny y tro nesaf i annog iddynt ddyblu 'r casgliad, a chafod effaith dda. Ar ol hyn gwnaed blwch pren i'w ddal yn lle het. Taflodd rhyw un 5s. o bres yn sypyn, gyda rhuthr, i'r blwch; ond methodd ei dori. Pan fyddai yn pregethu mewn clwb, byddid, yn gyffredin, yn rhoddi rhodd iddo at y capel, heb law talu am bregethu. Weithiau gwneid casgliad ar ol ciniaw, a byddai y perorion (*band*) yn rhoddi iddo ambell waith.

Ryw dro cafwyd *Bill* £5 yn y Beibl yn y capel, gyda'r llinellau canlynol:—

**Nid oes dim ods b'le daeth y rhodd,**
**Pa un ai anfodd ai o fodd;**
**Ai ar hyd nos ai ar hyd dydd,**
**Ond cael Rehoboth eto'n rhydd.**

Yr oedd rhyw langc, pan geisiwyd ganddo roddi at y capel, wedi dywedyd mewn cellwair y rhoddai ei oriadyr (*watch*). Gan na roddodd hi y casgliad cyntaf, cyhuddodd Mr. S. ef ar goedd y tro nesaf, o beidio talu ei addewid, gan ddywedyd, "Os yw'r bachgen yn y capel, mae yn cochi." Y canlyniad fu cael yr oriadyr yn y blwch gyda'r arian Yr oedd rhyw langciau wedi ennill crwth (*fiddle*) mewn *Bazaar*, a rhoddasant hi i Mr. S. at y capel. Gwerthodd yntau hi am 5s. Dywedodd rhyw un wrtho, dranoeth, y buasai yn rhoddi 8s. am dani pe cawsai'r cynyg. Gwnaeth araeth effeithiol o hyn, a thystiai ei bod yn edifar ganddo i'w gwerthu am can lleied. Cyfarfu a bachgen yn myned allan o dafarn yn haner meddw, a cheisiodd ryw beth ganddo at y capel: tynodd yntau ddernyn o gryn swm o'i logell, a rhoddodd ef yn llaw Mr. S., gan geisio newid ganddo, "O na," ebe Mr. S., "cael caws o fol ci yw cael peth yn ol o'm llaw i, eu gwario wnait ti pe cait hwynt, dos di adref." Yr oedd gwr wedi addaw punt iddo: aeth yntau i'w dy ar Sadwrn y cyfrif, a rhoddodd y

wraig y bunt iddo. Ar ei ffordd adref cyfarfu â'r gwr, a rhoddodd yntau bunt, gan nas gwyddai fod y wraig wedi ei rhoddi. Clywodd Mr. S. bore Sabboth eu bod yn meddwl ceisio un o'r ddwy yn ol, ac adroddodd yr hanes ar ei araeth, gan ddywedyd, mai "Cael caws o fol ci fyddai cael dim yn ol o'm llaw i, nis cânt ddimai byth." Cymerid pethau fel hyn ganddo ef heb ddigio. Yr oedd bachgen ryw dro, yn myned allan heb roddi dim: galwodd S. arno, a dywedodd fod yn rhaid iddo roddi swllt, "Os na roddi," meddai S. "aiff y *trams* dros y *plates*" arnat y fory a thori "dithau dy glun." Effeithodd hyn gymaint ar feddwl y bachgen fel y dychwelodd o'i gartref a 1s i S. rhag ofn y torai ei glun tranoeth. Yr oedd hên wr ag asyn ganddo, yn gwerthu cloron, ac yn gomedd rhoddi nemawr at y capel, gan ddyweyd ei fod yn rhy dlawd: ond gallodd, yn mhen ychydig, gael ceffyl yn lle asyn. Ceisiai S. ganddo mewn canlyniad rhoddi yr asyn iddo ef i'w werthu at y capel, ond nis gwnelsai. "Wel," ebe S., "os na roddwch ef bydd rhyw ddamwain yn sicr o ddygwydd iddo." Yn mhen ychydig aeth yr asyn tros graig a thorodd ei wddf. Credai yr hên wr hwnw tra fu byw mai o achos peidio rhoddi yr asyn at y capel y collodd ef. Yr oedd cigydd wedi colli dafad dew o gryn werth, mewn dull go ddigrif: ond cafwyd hi yn mhen wythnos. Clywodd S. hyny ac aeth ato ef a'i wraig i'r farchnad, a dywedodd, "Yr oedd arnaf eisieu rhyw *pretty story* yn fy araeth erbyn y fory; ac yn awr gan eich bod wedi cael y ddafad rhaid i chwi roddi 10s. i mi at y capel, ac onid e adroddaf eich hanes." "Adroddwch chwi," ebe'r gwr, "Wel," ebe'r wraig "nid af fi i'r capel ynte." "Pe baech flwyddyn heb dd'od" ebe S. "os byddaf byw byddaf sicr o'i hadrodd y tro cyntaf y deloch os na roddwch. Rhoddodd y wraig 10s. iddo rhag iddo eu gwneyd yn destyn ei araeth tranoeth. Aeth ryw Sadwrn i dy i ofyn at y capel. Dywedodd y wraig ei fod haner awr rhy ddiweddar, ei bod newydd dalu 'r *shop*; ond fod

ganddi bwys o sugr a roddai. Cymerodd S. ef, ac adroddodd yr hanes ar ei araeth dranoeth, a chan dynu 'r pwys sugr o'i logell, a'i ddangos ar goedd y capel, dywedodd, 'Os nad ydych yn credu dyma fe." Effeithiodd hyn gymaint ar ryw fachgen anystyriol, fel y dywedodd yn ddystaw wrth y rhai oedd yn yr un sedd ag ef, "Ar 'f enaid mae y *trick* yna yn werth *sovereign*," a thaflodd benadur i'r blwch wrth fyned allan. Pan oeddid yn ymgystadlu â Chromwell, dygwyddodd i S. fyned ar fore Llun heibio 'r forthwylfa (*forge*) a daeth dyn allan o ger y tan yn llawn chwys gan ofyn yn enw 'r gwr drwg, "Pa fodd yr oedd y casgliad yn dyfod yn mlaen;" "Tlawd iawn" ebe S. "Yr wyf yn ofni y cariant arnaf y tro hwn." "Na chant,——" ebe 'r gwr, "Yr wyf heb dalu 'r *shop*; mae yr arian yn ty yn awr genyf; cewch ran o honynt a thalaf y *shop* y mis nesaf." "Da iawn ebe S. cymeraf hwy." Aeth y gwr i'w dy i gyrchu rhan o honynt a rhoddodd iddo ef. Gadawodd gwraig a aethai i ymweled a Mrs. S. ei *phattens* newydd ger y drws, canfu Mr. S. a chuddiodd hwynt: gan nas cafodd y wraig hwynt wrth ymado, meddyliodd eu bod wedi cael eu lladrata, ac aeth adref. Gwerthodd Mr. S. y *pattens*, a rhoddodd yr arian at y capel; ac adroddodd yr hanes ar ei araeth. Aeth i dy lledrwr, lle yr oedd y wraig yn gofalu yn benaf am y fasnach, a chanfu bentwr o rawn wedi ei dynu oddi ar y crwyn; gofynodd i'r wraig pa beth oedd yn wneyd a hwnw. "Ei werthu," meddai hithau. "Da chwi," meddai yntau, "rhoddwch i mi at y capel." "Ewch ymaith," meddai hithau, "beth wnewch a rhawn." "I'w werthu," meddai Mr. S. "i gael ei arian at y capel." Bu mor daer nes cael addewid am y pentwr hwnw, a'r hyn oedd heb ei dynu ymaith, a bu yn myned bob dydd i edrych am dano, nes daeth yn barod a'i werthu: a rhoddwyd y gwerth at y capel. Yr oedd hyn yn ddefnydd araeth dda iddo. Byddai weithiau yn achwyn ar y gwas, sef y gwr oedd yn cario y blwch, ei fod wedi myned yn

ddiog, yn anufydd, &c, a'r gwas er mwyn creu teimlad, yn gwrthod dal y blwch: "Ond," meddai, "er gwaetha'r gwas, a'r *box*, a'r amser drwg, a'r helbul, mynaf dori pen yr hen ddyled dragywyddol." Pan byddai yn estyn ei droed o flaen y bobl i'w hattal i fyned allan yn rhy gyflym, dywedai, "Mynaf fod yn *Tory* ar Sabboth y casglu, ar ben fy nhomen fy hun: mae rhyddid i bob ceiliog ganu ar ben ei domen gartref.

Dylem grybwyll fod craffder ei sylw i wybod pwy fuasai gymhwys weinidogion i eglwysi gweigion, yn hynod. Nodwn angrhaifft neu ddwy. Yr oedd gwr ieuangc wedi cael galwad i eglwys ger llaw, a chyn iddo ddyfod gofynai un o'r cyfeillion i S. ei farn am y cysylltiad; gomeddai yntau ar y cyntaf ddyweyd; ond wrth wasgu arno dywedodd, "Ni bydd yna cyhyd ag y bu yn mru ei fam": ac felly bu; gorfu iddo ymado cyn pen ychydig fisoedd. Pan oedd Mr. Thomas, yn awr o Hanofer ar daith trwy 'r wlad, heb un meddwl am adu y Rhaiadr, daeth i Rehoboth. Dywedodd S. bore dranoeth wrth rai o'i gyfeillion, "Dyma weinidog i Hanofer." Nis gwyddai Mr. T. na phobl Hanofer am hyn: ond bore Sabboth canlynol yr oedd cyhoeddiad Mr. T. yn Hanofer, a hoffwyd ef gymaint fel y rhoddwydd galwad ddioed iddo; a gwyddis, erbyn hyn, trwy flynyddoedd o brawf, ei fod yn dra chymhwys i'r lle. Dywedai yn aml, yn ei fywyd a'i iechyd, mai 'r brawd sydd yn awr yn Rehoboth garai ef i'w olynu. Terfynwn gyda'i ddywediad am fyfyrwyr y Coleg. Pan ddywedai rhyw rai eu bod yn falch, yn ddibrofiad &c.; dywedai yntau, "Gadewch chwi iddynt; fe'i dysgir yn yr Ail Goleg yn fuan"; gan feddwl am driniaeth yr Yspryd Glan, gyda phrofiad o lafur y weinidogaeth. Gobeithiwn ninau y bydd athraw yr "Ail Goleg" yn dysgu pawb a ddarllenont y Cofiant hwn, i fod yn ddoeth i iachawdwriaeth.

## Y PARCH. DAVID STEPHENSON, BRYNMAWR.

Dewi a fu hyd ei fedd—a'i eiriau 'n
Dyferu tangnefedd;
Cenadwr cu ei nodwedd,
Drwy 'i oes bu 'n genadwr hedd.

Yn arweiniwr union,—drwy anialwch
Drwy niwl a'i beryglon,
Y bu ef, a gwyneb Ion
Ar ei uchel ymdrechion.

Hir iawn bu 'n offerynol,—yn llaw Ion,
Er lles cyffredinol;
Arwyddion cywir haeddol
Sy o hyn i'r oes o'i ol.

At yr Iawn o'u trueni—â digoll
Weinidogaeth ddifri'
Trodd, fe arweiniodd, fawr ri',
O ganol eu drygioni.

Wylo fu ar ael ei fedd,—a wylo
Welir yn ddiddiwedd;
A Dewi 'r sant, ar ei sedd,
Heb wylo ac heb waeledd.

CALEDFRYN.

GWALLAU.—Tudal 12, y gair olaf yn y llinell olaf, yn *anrhyd-* darllen *anrhydeddu*. Tudal 60, llinell 6 y lle 1848 darllen 1847.

*Argraffwyd gan David Stephenson, Brynmawr.*